# AMODAU SAFONOL LLYWODRAETH CYMRU AR GYFER CYFLENWI GWASANAETHAU

## TABL CYNNWYS


| Amod | |
|---|---|
| 1. | Diffiniadau a Dehongliadau |
| 2. | Materion Rhagarweiniol |
| 3. | Dechrau a Hyd |
| 4. | Cwmpas |
| 5. | Y Gwasanaethau |
| 6. | Gwrthod Gwasanaethau |
| 7. | Adeg Cyflenwi |
| 8. | Rhaglen Waith |
| 9. | Dangosyddion Perfformiad Allweddol |
| 10. | Lefelau Gwasanaeth |
| 11. | Adroddiadau Cynnydd ac Arolygu |
| 12. | Cyfarfodydd Adolygu a Gwybodaeth Reoli |
| 13. | Y Pris a Thalu |
| 14. | Addasu'r Pris ar ôl Ymestyn Cyfnod y Contract |
| 15. | Gwrthbwyso |
| 16. | Gwarantiadau a Sylwadau |
| 17. | Polisïau |
| 18. | Deunyddiau, Cynllun, Cyfarpar ac ati |
| 19. | Eiddo Deallusol |
| 20. | Nwyddau a Deunyddiau'r Cleient |
| 21. | Mynediad i Safleoedd |
| 22. | Iechyd a Diogelwch |
| 23. | Rheolwyr Contract Dynodedig |
| 24. | Personél y Cyflenwr |
| 25. | Gofynion Amgylcheddol |
| 26. | Budd i'r Gymuned |
| 27. | Y Gymraeg |
| 28. | Gwahaniaethu a Chydraddoldeb |
| 29. | Hawliau Dynol |
| 30. | Diogelu Data Personol |
| 31. | Cyfrinachedd |
| 32. | Diogelwch Gwybodaeth Gyfrinachol |
| 33. | Rhyddid Gwybodaeth |
| 34. | Cyhoeddusrwydd |
| 35. | Rheoli Newid |

| | |
|---|---|
| 36. | Gwrthdaro Buddiannau |
| 37. | Rhoddion Llwgr, Taliadau Comisiwn ac Atal Llwgrwobrwyo |
| 38. | Twyll |
| 39. | Indemniad |
| 40. | Cyfyngiad ar Atebolrwydd |
| 41. | Yswiriant |
| 42. | Force Majeure |
| 43. | Gweithredu Diwydiannol |
| 44. | Terfynu |
| 45. | Canlyniadau Terfynu'r Contract a'r Contract yn Dod i Ben |
| 46. | Egwyl |
| 47. | Proses Datrys Anghydfod |
| 48. | Is-gontractio ac Aseinio |
| 49. | Gwybodaeth a Chymorth |
| 50. | Cynigion o Gyflogaeth |
| 51. | Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) 2006 (TUPE”) |
| 52. | Swyddogaethau Gweinidogion Cymru |
| 53. | Hysbysiadau |
| 54. | Atebolrwydd Cyd ac Unigol |
| 55. | Toradwyedd |
| 56. | Hawlildio |
| 57. | Rhwymedïau Cronnol |
| 58. | Diwygiadau i'r Contract hwn |
| 59. | Hawliau Trydydd Parti |
| 60. | Dim Asiantaeth na Phartneriaeth |
| 61. | Y Cytundeb Llwyr |
| 62. | Costau |
| 63. | Y Gyfraith ac Awdurdodaeth |

1. **DIFFINIADAU A DEHONGLIADAU**

1.1. At ddibenion yr Amodau hyn ac eithrio lle y nodir yn benodol i'r gwrthwyneb, bydd i'r geiriau canlynol yr ystyr ganlynol:

| | |
|---|---|
| Adroddiad ar Ddangosyddion Perfformiad Allweddol | mae i'r term hwn yr ystyr a roddir iddo yn Amod 9.4; |
| Adroddiad ar Lefelau Gwasanaeth | mae i'r term hwn yr ystyr a roddir iddo yn Amod 10.4; |
| Amodau | yr amodau safonol ar gyfer darparu gwasanaethau; |
| Arfer da Diwydiant | arfer y medrusrwydd, y diwydrwydd, y ddarbodaeth, yr effeithlonrwydd, y rhagofal a'r amseroldeb a ddisgwylid gan brif ddarparwr gwasanaethau tebyg i'r Gwasanaethau sydd i'w darparu o dan y Contract hwn sy'n gweithredu o fewn y diwydiant neu'r sector busnes perthnasol; |
| Asesiad Effaith Diogelu Data | asesiad gan y Rheolwr o effaith y gweithgarwch Prosesu a ragwelir ar ddiogelwch Data Personol; |
| Awdurdod Contractio | unrhyw awdurdod contractio fel y'i diffinnir yn y PA 2023; |
| Cais am Wybodaeth | mae i'r term hwn yr ystyr a roddir iddo yn adran 8 o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a/neu Reoliad 5 o'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol ac mae'n cynnwys unrhyw gais ymddangosiadol am Wybodaeth o'r fath; |
| Cais gan Wrthrych Data am Wybodaeth | cais a wneir gan neu ar ran Gwrthrych Data yn unol â hawliau a roddwyd o dan y Ddeddfwriaeth Diogelu Data i gael mynediad i'w Ddata Personol; |
| Cais i Reoli Newid | hysbysiad a gyflwynir i'r Cyflenwr gan y Cleient sy'n gwneud cais am amrywiad i'r Gwasanaethau; |
| Cleient | Gweinidogion Cymru y mae eu prif swyddfa yn Adeiladau'r Goron, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ oni nodir fel arall yn y Llythyr Dyfarnu; |
| Colled wedi'i Hindemnio | pob rhwymedigaeth, dirwy, cosb, iawndal, archeb am dâl, achos, hawliad, cost, traul o ba natur bynnag a sut maent yn codi, yr eir iddynt gan gynnwys, heb gyfyngiad, bob traul gyfreithiol (ar sail indemniad) a phob ffi broffesiynol arall (ynghyd â TAW ar hynny); |
| Contract | y contract sy'n cynnwys y dogfennau y cyfeirir atynt yn Amod 4; |
| Cydsyniadau Angenrheidiol | pob cymeradwyaeth, tystysgrif, awdurdodiad, caniatâd, trwydded, hawlen, rheoliad a chydsyniad ag sy'n angenrheidiol o bryd i'w gilydd i ddarparu'r Gwasanaethau gan gynnwys, heb |

| | |
|---|---|
| | gyfyngiad, y rhai a nodir yn y Fanyleb, os nodir unrhyw rai ynddynt. |
| Cyflenwr | yr unigolyn/unigolion, y sefydliad(au) neu'r busnes(au) y cyfeiriwyd y Llythyr Dyfarnu ato/atynt ac unrhyw unigolyn/unigolion, sefydliad(au) neu fusnes(au) eraill sydd wedi cyflawni'r Llythyr Dyfarnu; |
| Cyflenwr Blaenorol | unrhyw gyflenwr trydydd parti sy'n darparu'r Gwasanaethau cyn y Dyddiad Trosglwyddo Gwasanaethau Cychwynnol; |
| Cyflenwr Cyfnewid | y Cleient neu unrhyw drydydd parti sy'n cyflenwi'r Gwasanaethau Cyfnewid a benodir gan y Cleient o bryd i'w gilydd ar ôl i'r Contract hwn gael ei derfynu neu ar ôl iddo ddod i ben; |
| Cyflogeion sy'n Trosglwyddo | yr aelodau hynny o Staff y Cyflenwr a aseinir i'r rhan berthnasol o'r Gwasanaethau (neu wasanaethau sy'n cyfateb i'r Gwasanaethau gan gynnwys, heb gyfyngiad, Wasanaethau Cyfnewid) sy'n cael eu trosglwyddo i'r Cleient neu'r Cyflenwr Cyfnewid pan Drosglwyddir Gwasanaeth ac y bydd eu cyflogaeth, felly, yn trosglwyddo i'r Cleient neu'r Cyflenwr Cyfnewid yn unol â Throsglwyddiad Perthnasol; |
| Cyfnod Adrodd ar Ddangosyddion Perfformiad Allweddol | mae i'r term hwn yr ystyr a roddir iddo yn Amod 9.4; |
| Cyfnod Adrodd ar Lefelau Gwasanaeth | mae i'r term hwn yr ystyr a roddir iddo yn Amod 10.4; |
| Cyfnod y Contract | y cyfnod sy'n dechrau ar y Dyddiad Dechrau ac sy'n dod i ben ar y dyddiad y daw'r Contract hwn i ben neu y caiff ei derfynu (yn ôl y digwydd); |
| Cyfundrefn Iechyd a Diogelwch | mae'n golygu Deddf Ffatrïoedd 1961, Deddf Swyddfeydd, Siopau a Mangreoedd Rheilffyrdd 1963, Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith etc 1974, Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005, Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990, Deddf Diogelwch Bwyd 1990, Deddf yr Amgylchedd 1995, Deddf y Diwydiant Dŵr 1991 a Deddf Adnoddau Dŵr 1991 (gan gynnwys, ym mhob achos, unrhyw reoliadau, canllawiau neu godau ymarfer cymeradwy cysylltiedig), ac unrhyw Ddeddfwriaeth debyg neu gyfatebol ynglŷn ag iechyd, diogelwch neu'r amgylchedd sydd â'r nod o ddiogelu pobl neu'r amgylchedd neu atal neu leihau'r risg y caiff pobl eu niweidio neu eu hanafu neu y caiff yr amgylchedd ei niweidio, neu sy'n ymwneud ag iechyd a diogelwch y rhai sy'n darparu neu'n defnyddio'r Gwasanaethau neu'r broses o'u darparu, sydd mewn grym o bryd i'w gilydd; |

| | |
|---|---|
| Deddf Rhyddid Gwybodaeth | Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 ac unrhyw is-ddeddfwriaeth a wneir oddi tani o bryd i'w gilydd gan gynnwys, lle y bo'n gymwys, unrhyw ganllawiau a/neu godau ymarfer a gyhoeddir gan y Comisiynydd Gwybodaeth neu adran berthnasol y llywodraeth mewn perthynas â hi; |
| Deddfwriaeth | (a) unrhyw statud neu broclamasiwn cymwys neu unrhyw ddeddfwriaeth ddirprwyedig neu is-ddeddfwriaeth;<br><br>(b) unrhyw ganllawiau, cod ymarfer, cyfarwyddyd neu benderfyniad cymwys y mae'r Cleient a/neu'r Cyflenwr yn rhwym i gydymffurfio â nhw i'r graddau y cânt eu cyhoeddi a'u bod ar gael i'r cyhoedd neu y mae'r Cleient wedi hysbysu'r Cyflenwr ynghylch eu bodolaeth neu eu cynnwys; a<br><br>(c) unrhyw ddyfarniad neu orchymyn cymwys a wneir/a roddir gan lys barn perthnasol sy'n gynsail gyfrwymol yng Nghymru a Lloegr;<br><br>sydd, ym mhob achos, mewn grym neu'n gymwys yng Nghymru a Lloegr, neu yng Nghymru yn unig; |
| Deddfwriaeth Diogelu Data | Yn golygu pob deddfwriaeth diogelu data a preifatrwydd cymwys mewn grym o bryd i'w gilydd yn y DU gan gynnwys heb gyfyngiadau GDPR y DU; y DPA 2018 (a rheoliadau yn ôl y gofynion hynny), Rheoliadau Cyfathrebu Preifatrwydd ac Electronig 2003 (OS 2003/2426) fel y'i diwygiwyd; a'r canllawiau a'r codau ymarfer a gyhoeddir gan y Comisiynydd Gwybodaeth ac sy'n berthnasol i barti; |
| Digwyddiad Colli Data | unrhyw ddigwyddiad sy'n arwain neu a all arwain at fynediad diawdurdod i Ddata Personol a ddelir gan y Cyflenwr o dan y Contract hwn, a/neu achos gwirioneddol neu bosibl o golli a/neu ddinistrio Data Personol sy'n groes i'r Contract hwn gan gynnwys unrhyw achos o gael mynediad diawdurdod at Ddata Personol (fel y'i diffinnir yn y UK GDPR); |
| Digwyddiad Force Majeure | rhyfel, gwrthdaro arfog, gweithredoedd terfysgol, terfysgoedd, tân, llifogydd, storm, daeargryn, trychineb neu ddigwyddiad tebyg arall sy'n digwydd ar ôl dyddiad y Contract hwn ac sy'n golygu na all y Parti yr Effeithir Arno gydymffurfio â'i holl rwymedigaethau o dan y Contract hwn neu ran sylweddol ohonynt ond heb gynnwys unrhyw anghydfod diwydiannol sy'n ymwneud â'r Cyflenwr, Personél y Cyflenwr neu unrhyw fethiant arall yng nghadwyn gyflenwi'r Cyflenwr neu yng nghadwyn gyflenwi unrhyw Is-gontractwr; |
| Diffyg | |

| | |
|---|---|
| | (i) unrhyw achos o dorri un o rwymedigaethau'r naill Barti neu'r llall o dan y Contract hwn; neu<br>(ii) unrhyw ddiffyg, gweithred, anwaith, esgeulustod neu ddatganiad gan y naill Barti neu'r llall neu ei Bersonél mewn cysylltiad â chynnwys y Contract hwn y mae'r cyfryw Barti yn atebol i'r llall mewn perthynas ag ef/hi; |
| Diwrnodau Gwaith | dydd Llun i ddydd Gwener 9.00 a.m. i 4.30 p.m. heb gynnwys unrhyw wyliau cyhoeddus statudol yng Nghymru. |
| Dogfennau Tendr | y Fanyleb, y Tendr, y Gwahoddiad i Dendro a'r Llythyr Dyfarnu; |
| DPAau | dangosyddion perfformiad allweddol cymwys y cyfeirir atynt yn Amod 9; |
| Dyddiad Dechrau | mae i'r term hwn yr ystyr a roddir iddo yn Amod 3.1; |
| Dyddiad Terfynu | y dyddiad y bydd y Contract hwn yn terfynu neu'n dod i ben ac mae cyfeiriadau at y Dyddiad Terfynu yn cynnwys y Contract hwn yn terfynu neu'n dod i ben yn rhannol. |
| Dyddiad Trosglwyddo | y dyddiad a'r amser y mae'r Gwasanaethau (neu unrhyw ran ohonynt) yn trosglwyddo i'r Cleient neu Gyflenwr Cyfnewid yn unol â TUPE; |
| Dyddiad Trosglwyddo Gwasanaeth | dyddiad trosglwyddo'r Cyflogeion sy'n Trosglwyddo i'r Cleient neu'r Cyflenwr Cyfnewid o dan TUPE; |
| Dyddiad Trosglwyddo Gwasanaethau Cychwynnol | y dyddiad y bydd y Staff a Gaffaelwyd yn trosglwyddo o'r Cyflenwr Blaenorol i'r Cyflenwr; |
| Dyddiad(au) Gweithredu | y dyddiad neu'r dyddiadau erbyn pryd y mae'n rhaid i'r Gwasanaethau neu ran ohonynt gael eu gweithredu neu ddyddiad neu ddyddiadau gweithredu'r Gwasanaethau neu ran ohonynt fel y nodir yn y Fanyleb oni chytunir fel arall yn ysgrifenedig; |
| UK GDPR | Y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (Rheoliad (UE) 2016/679); |
| Gwahoddiad i Dendro | y gwahoddiad i dendro a gyhoeddir gan y Cleient ar gyfer darparu'r Gwasanaethau; |
| Gwarant | gwarant a roddir yn unol ag Amod 2; |
| Gwarantwr | unrhyw berson sydd wedi rhoi Gwarant yn unol ag Amod 2; |
| Gwasanaethau | unrhyw un a phob un o'r gwasanaethau (neu ran ohonynt) a ddarperir neu sydd i'w darparu gan y Cleient a nodir yn y Contract hwn; |
| Gwasanaethau Cyfnewid | unrhyw wasanaethau sy'n union debyg neu'n debyg iawn i unrhyw un o'r Gwasanaethau ac y mae'r Cleient yn eu cael yn lle unrhyw un o'r Gwasanaethau ar ôl i'r Contract hwn gael ei |

| | |
|---|---|
| | derfynu neu ar ôl iddo ddod i ben (neu ar ôl iddo gael ei derfynu neu ar ôl iddo ddod i ben yn rhannol), p'un a ddarperir y gwasanaethau hynny gan y Cleient yn fewnol neu gan unrhyw Gyflenwr Cyfnewid; |
| Gweithdrefnau Fetio Staff | gweithdrefnau a pholisïau'r Cleient ar gyfer fetio Personél er mwyn cadarnhau'r canlynol:<br>(a) eu bod yn addas i ddarparu'r Gwasanaethau a nodir yn y Fanyleb;<br>(b) bod ganddynt yr hawl i weithio yn y DU;<br>(a) eu bod yn gymwys i ymdrin â gwybodaeth sensitif neu gyfrinachol neu ymdrin â gwybodaeth sy'n destun unrhyw fesur diogelwch perthnasol; |
| Gweithred Waharddedig | mae'r canlynol yn Weithredoedd Gwaharddedig:<br>(a) cynnig, addo neu roi, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, fantais ariannol neu fantais arall i unrhyw berson sy'n gweithio i'r Cleient neu a gyflogir ganddo er mwyn gwneud y canlynol:<br>(i) cymell y person hwnnw i gyflawni swyddogaeth neu weithgaredd perthnasol yn anghywir; neu<br>(ii) gwobrwyo'r person hwnnw am gyflawni swyddogaeth neu weithgaredd perthnasol yn anghywir;<br>(b) gofyn am, cytuno i dderbyn neu dderbyn, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, unrhyw fantais ariannol neu unrhyw fantais arall fel cymhelliad i gyflawni swyddogaeth neu weithgaredd perthnasol mewn cysylltiad â'r Contract hwn neu fel gwobr am gyflawni unrhyw swyddogaeth neu weithgaredd o'r fath;<br>(c) cyflawni unrhyw drosedd:<br>(i) o dan Ddeddf Llwgrwobrwyo 2010;<br>(ii) o dan ddeddfwriaeth sy'n creu troseddau sy'n ymwneud â gweithredoedd twyllodrus;<br>(iii) o dan gyfraith gwlad ynglŷn â gweithredoedd twyllodrus sy'n ymwneud â'r Contract hwn neu unrhyw gontract arall â'r Cleient; neu<br>(iv) twyllo, ceisio twyllo neu gynllwynio i dwyllo'r Cleient; |
| Gwybodaeth | bydd i'r gair hwn yr ystyr a roddir iddo o dan adran 84 o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a/neu Reoliad 2 o'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol; |

| | |
|---|---|
| Gwybodaeth Gyfrinachol | gwybodaeth (sut bynnag y caiff ei chyfleu neu ym mha gyfrwng bynnag y caiff ei storio) y byddai ei datgelu yn gyfystyr ag achos o dor-cyfrinachedd y gellir dwyn achos yn ei gylch ac sydd naill ai wedi'i dynodi'n gyfrinachol gan y naill Barti neu'r llall yn ysgrifenedig neu y dylid ystyried ei bod yn destun dyletswydd cyfrinachedd ac mae'n cynnwys Data Personol ac unrhyw wybodaeth sy'n ymwneud â busnes, materion, eiddo, asedau, arferion masnachu, datblygiadau, cyfrinachau masnach, Hawliau Eiddo Deallusol, gwybodaeth ymarferol, personél, cwsmeriaid a chyflenwyr y naill Barti neu'r llall ond nid yw'n gyfyngedig iddynt; |
| Hawliau Eiddo Deallusol | hawlfraint, hawliau sy'n ymwneud â hawlfraint neu sy'n rhoi diogelwch tebyg i hawlfraint; hawliau mewn cronfeydd data; patentau a hawliau mewn dyfeisiadau; hawliau o ran topograffi lled-ddargludyddion; hawliau dylunio; nodau masnach, nodau gwasanaeth; hawliau mewn enwau parthau a chyfeiriadau gwefannau; enwau masnach, enwau busnes, enwau brand; hawliau mewn diwyg; ewyllys da; gwybodaeth ymarferol, cyfrinachau masnach a hawliau mewn gwybodaeth gyfrinachol a phob hawl eiddo deallusol arall, ym mhob achos p'un a ydynt yn gofrestredig neu'n anghofrestredig a chan gynnwys pob cais a hawl i wneud cais i adnewyddu neu ymestyn y cyfryw hawliau, cymeradwyo hynny, a hawliau i hawlio blaenoriaeth gan y cyfryw hawliau, a phob hawl debyg neu gyfatebol neu fathau o ddiogelwch a all fodoli nawr neu yn y dyfodol mewn unrhyw ran o'r byd; |
| Indemniadau TUPE | yr indemniadau a nodir yn Amodau 51.2, 51.11, 51.14, 51.15.5 a 51.16; |
| Is-brosesydd | unrhyw drydydd parti a benodir i Brosesu Data Personol ar ran y Cyflenwr mewn perthynas â'r Contract hwn; |
| Is-gontractwr | unrhyw drydydd parti y mae'r Cyflenwr yn llunio is-gontract neu gytundeb consortiwm ag ef a/neu gyflogeion neu asiantau'r Is-gyflenwr ac unrhyw drydydd parti y mae'r trydydd parti hwnnw yn llunio is-gontract ag ef a/neu ei gyflogeion neu ei asiantau ar gyfer cyflawni unrhyw ran o rwymedigaethau'r Cyflenwr o dan y Contract hwn; |
| LED | Cyfarwyddeb Gorfodi'r Gyfraith (Cyfarwyddeb (UE) 2016/679); |
| Lefelau Gwasanaeth | y lefelau gwasanaeth y mae'r Cleient yn gofyn amdanynt pan fydd y Gwasanaethau yn cael eu darparu, yn unol ag Amod 10; |
| Llythyr Bwriad i Ddyfarnu | ystyr y llythyr sy'n nodi bwriad y Cleient i ddyfarnu contract cyhoeddus i'r tendr mwyaf manteisiol (MAT). Gall y Llythyr Bwriad i Dyfarnu hefyd fod ar ffurf crynodeb asesu (fel y'i diffinnir yn Adran 50 o PA 2023) i'r MAT; |

| | |
|---|---|
| Manyleb | y fanyleb a atodir i'r Gwahoddiad i Dendro gan gynnwys unrhyw holiadur cymhwyso neu gyn-gymhwyso ac unrhyw eglurhad ohono; |
| Mesurau Diogelu | mesurau technegol a sefydliadol priodol a all gynnwys gosod ffugenwau ar Ddata Personol neu eu hamgryptio, sicrhau cyfrinachedd, uniondeb, argaeledd a gwydnwch systemau a gwasanaethau, sicrhau bod modd cael gafael ar Ddata Personol yn amserol ar ôl digwyddiad ac asesu a gwerthuso effeithiolrwydd y mesurau a fabwysiedir ganddo yn rheolaidd; |
| PA 2023 | yn golygu Deddf Caffael 2023; |
| Partïon | ystyr partïon yw'r Cleient a'r Cyflenwr a bydd “Parti” yn golygu'r naill neu'r llall ohonynt; |
| Personél | swyddogion, partneriaid, cyflogeion, gweithwyr, asiantau, ymgynghorwyr ac is-gontractwyr Parti o ba natur bynnag; |
| Pris | mae i'r term hwn yr ystyr a roddir iddo yn Amod 13.1; |
| Rhaglen Waith | unrhyw raglen, amserlen neu garreg filltir allweddol sy'n rheoleiddio neu'n nodi'r cyfnod neu'r cyfnodau ar gyfer cwblhau’r Gwasanaethau neu unrhyw ran ohonynt ac y cyfeirir ati yn Amod 8; |
| Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol | Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 gan gynnwys, lle y bo'n gymwys, unrhyw ganllawiau a/neu godau ymarfer a gyhoeddir gan y Comisiynydd Gwybodaeth neu adran berthnasol y llywodraeth mewn perthynas â'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol; |
| Rheolwr Contract y Cleient | person a benodir gan y Cleient i weithredu ar ei ran at ddibenion y Contract hwn; |
| Rheolwr Contract y Cyflenwr | person a benodir gan y Cyflenwr i weithredu ar ei ran at ddibenion y Contract hwn yn unol ag Amod 23; |
| Rhiant-Gwmni | bydd iddo'r ystyr a roddir i “parent undertaking” yn adran 1162 ac Atodlen 7 o Ddeddf Cwmnïau 2006; |
| Rhwymedigaethau Cyflogaeth | pob hawliad, archeb am dâl, cosb, cam gweithredu, achos, iawndal, digollediad, dyfarniad diogelu, gorchymyn neu ddyfarniad llys neu dribiwnlys, dirwy, cost, traul, tâl yn lle rhybudd, rhwymedigaeth pensiwn a phob colled a rhwymedigaeth arall (gan gynnwys treuliau cyfreithiol a threuliau proffesiynol eraill ar sail indemniad); |
| Safle | adeiladau a thir; |
| Safle'r Cleient | unrhyw Safle a berchenogir, a feddiennir neu a reolir gan y Client; |

| | |
|---|---|
| Staff | unrhyw unigolyn a phob unigolyn a gyflogir gan y Cyflenwr neu unrhyw Is-gontractwr sydd, ar unrhyw adeg, yn ymwneud â phob un neu unrhyw un o'r Gwasanaethau neu unrhyw ran ohonynt; |
| Staff a Gaffaelwyd | mae i'r term hwn yr ystyr a roddir iddo yn Amod 51.1; |
| TAW | treth ar werth y gellir ei chodi o dan Ddeddf Treth ar Werth 1994; |
| Tendr | yr holl ddogfennaeth a gyflwynir gan y Cyflenwr mewn ymateb i'r Gwahoddiad i Dendro (gan gynnwys, heb gyfyngiad, ymateb y Cyflenwr i unrhyw holiadur cyn-gymhwyso neu gymhwyso neu unrhyw eglurhad gan y Cyflenwr); |
| Trosglwyddiad Perthnasol | newid i'r ffordd y darperir gwasanaeth y mae TUPE yn gymwys iddo; |
| Trosglwyddo Gwasanaeth | trosglwyddo'r cyfrifoldeb am ddarparu'r Gwasanaethau, yn gyfan gwbl neu'n rhannol, i'r Cleient neu Gyflenwr Cyfnewid ar y Dyddiad Terfynu; |
| TUPE | Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) 2006 fel y'u diwygiwyd; |
| Y Parti yr Effeithir Arno | y Parti sy'n ceisio hawlio rhyddhad mewn perthynas â Digwyddiad Force Majeure; |
| Ymgymeriad Cyfrinachedd | ymgymeriad i beidio â defnyddio na datgelu unrhyw wybodaeth Gyfrinachol a geir ac eithrio fel sy'n ofynnol i gyflawni dibenion y Contract hwn (gan gynnwys, heb gyfyngiad, ei aildendro); |

1.2. Yn y Contract hwn mae'r gwrywaidd yn cynnwys y benywaidd a'r diryw ac mae'r unigol yn cynnwys y lluosog ac fel arall.

1.3. Dehonglir cyfeiriad at unrhyw statud, offeryn statudol, deddfiad, gorchymyn, rheoliad neu offeryn tebyg arall fel cyfeiriad at y statud, yr offeryn statudol, y deddfiad, y gorchymyn, y rheoliad neu'r offeryn fel y'i diwygiwyd, y'i disodlwyd neu y'i hailddeddfwyd ar ôl hynny ac sydd mewn grym ar yr adeg berthnasol.

1.4. Bydd cyfeiriad at Barti yn cynnwys cynrychiolwyr personol ac aseiniaid a ganiateir y Parti hwnnw.

1.5. Mae person yn cynnwys person naturiol, corff corfforaethol neu gorff anghorfforedig (p'un a oes ganddo bersonoliaeth gyfreithiol ar wahân ai peidio).

1.6. Bydd cyfeiriad at gwmni yn cynnwys unrhyw gwmni, corfforaeth neu gorff corfforaethol arall ble bynnag a sut bynnag y'i hymgorfforwyd neu y'i sefydlwyd.

1.7. Dehonglir cyfeiriad at unrhyw ddogfen fel cyfeiriad at y ddogfen ar ddyddiad y Llythyr Dyfarnu.

1.8. Cynhwysir penawdau yn y Contract hwn er hwylustod yn unig ac ni fyddant yn effeithio ar ddehongliad na lluniad y Contract hwn.

1.9. Mae'r atodlenni a'r atodiadau, os oes unrhyw rai, yn rhan o'r Contract hwn a byddant yn weithredol fel petaent wedi'u nodi'n llawn yng nghorff y Contract hwn a bydd unrhyw gyfeiriad at y Contract hwn yn cynnwys yr atodlenni a'r atodiadau.

## 2. MATERION RHAGARWEINIOL

2.1. Rhaid i'r Cyflenwr, ar gais y Cleient, lunio cytundeb atodol a bennir gan y Cleient er mwyn adlewyrchu gofynion perthnasol unrhyw Wahoddiad i Dendro ac (fel y bo'n briodol) y cynigion a nodir mewn unrhyw dendr a gyflwynir gan y Cyflenwr mewn ymateb i'r Gwahoddiad i Dendro. Os gofynnir iddo wneud hynny, rhaid i'r Cyflenwr roi tystiolaeth i'r Cleient bod y cyfryw gytundeb atodol wedi'i lunio a'i fod mewn grym.

2.2. Os bydd y Cleient yn gofyn iddo wneud hynny, rhaid i'r Cyflenwr roi enwau a chyfeiriadau un neu fwy o fechniwyr sylweddol sy'n foddhaol i'r Cleient ac sy'n barod i warantu y caiff y Contract hwn ei gyflawni'n briodol gan y Cyflenwr. Mae'n rhaid i delerau unrhyw warant o'r fath fodloni'r Cleient.

2.3. Os bydd y Cyflenwr yn rhan o gonsortiwm, rhaid i'r Cyflenwr sicrhau bod unrhyw aelod a phob aelod o'r consortiwm yn barod i warantu y caiff y Contract hwn ei gyflawni'n briodol os bydd y Cleient yn gofyn iddo wneud hynny. Mae'n rhaid i delerau unrhyw warant o'r fath fodloni'r Cleient.

## 3. DECHRAU A HYD

3.1. Daw'r Contract hwn i rym ar y dyddiad dechrau a nodir yn y Llythyr Dyfarnu (y "Dyddiad Dechrau") a daw i ben:

3.1.1. ar y dyddiad dod i ben a nodir yn y Fanyleb; neu

3.1.2. os na nodir unrhyw ddyddiad, ar ôl cwblhau'r gwaith o ddarparu'r Gwasanaethau

oni chaiff y Contract hwn ei derfynu yn unol â'r Amodau hyn neu ei hymestyn yn unol ag Amod 3.2.

3.2. Os darperir ar ei gyfer yn y Fanyleb caiff y Cleient ymestyn Cyfnod y Contract am y cyfryw gyfnod pellach ag a nodir yn y Fanyleb. Caiff Cyfnod y Contract ei ymestyn naill ai drwy hysbysiad a gyflwynir i'r Cyflenwr gan y Cleient o leiaf wyth diwrnod ar hugain (28) cyn diwedd Cyfnod y Contract neu gyda chytundeb ysgrifenedig y Partïon.

## 4. CWMPAS

4.1. Bydd y Contract hwn yn cynnwys y dogfennau a restrir yn y Llythyr Dyfarnu a bydd ganddi y drefn blaenoriaeth a nodir yn y Llythyr Dyfarnu. Os na chaiff yr un ddogfen ei rhestru yn y Llythyr Dyfarnu, bydd y Contract hwn yn cynnwys y dogfennau canlynol yn y drefn blaenoriaeth ganlynol:

4.1.1. y Llythyr Dyfarnu;

4.1.2. yr Amodau hyn;

4.1.3. y Fanyleb;

4.1.4. y Gwahoddiad i Dendro; a

4.1.5. y Tendr, oni bai bod unrhyw ran o'r Tendr yn cynnig gwell sefyllfa fasnachol i'r Cleient (fel y penderfynwyd gan y Cleient, yn ei ddisgresiwn llwyr), ac yn yr achos hwnnw bydd y rhan honno o'r Tendr yn cael blaenoriaeth dros y dogfennau uchod.

5. **Y GWASANAETHAU**

5.1. Heb effeithio ar unrhyw safon uwch sy'n ofynnol gan y Contract hwn, bydd y Cyflenwr yn sicrhau y bydd yr holl Wasanaethau a ddarperir i'r Cleient yn unol â'r Contract hwn:

5.1.1. yn cydymffurfio â'r Fanyleb;

5.1.2. yn cydymffurfio ag unrhyw Ddeddfwriaeth berthnasol neu gymwys gan gynnwys, heb gyfyngiad, ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â llesiant, caethwasiaeth fodern, hawliau a chysylltiadau cyflogaeth a hawliau gweithio, Deddfau Cyfrinachau Swyddogol 1911 i 1989, Adran 182 o Ddeddf Cyllid 1989 a deddfwriaeth sy'n ymwneud â thalu trethi ac atal hwyluso efadu trethi;

5.1.3. yn cydymffurfio ag unrhyw safon Brydeinig neu Ewropeaidd berthnasol a, lle y bo'n gymwys, bydd y Cyflenwr yn sicrhau ei fod yn cael ei achredu gyda'r awdurdod perthnasol sy'n goruchwylio'r safon Brydeinig neu Ewropeaidd berthnasol a'i fod yn parhau i fod wedi'i achredu â'r awdurdod hwnnw;

5.1.4. yn cydymffurfio ag unrhyw bolisïau, rheolau, codau ymarfer, gweithdrefnau a safonau y mae'n ofynnol i'r Cyflenwr gydymffurfio â hwy;

5.1.5. yn cael eu darparu â gofal a medrusrwydd rhesymol yn unol ag Arfer Da Diwydiant; a

5.1.6. yn cael eu darparu yn unol â'r telerau a nodir yn y Contract hwn.

5.2. Os bydd Gwasanaethau yn cynnwys darparu nwyddau, deunyddiau neu beiriannau rhaid i'r rhain:

5.2.1. cydymffurfio â'r Fanyleb;

5.2.2. cydymffurfio ag unrhyw Ddeddfwriaeth berthnasol;

5.2.3. cydymffurfio ag unrhyw Safon Brydeinig neu Ewropeaidd berthnasol a, lle y bo'n gymwys, bydd y Cyflenwr yn sicrhau ei fod yn cael ei achredu gyda'r awdurdod perthnasol sy'n goruchwylio'r safon Brydeinig neu Ewropeaidd berthnasol a'i fod yn parhau i fod wedi'i achredu â'r awdurdod hwnnw;

5.2.4. cydymffurfio ag unrhyw bolisïau, rheolau, codau ymarfer, gweithdrefnau a safonau y mae'n ofynnol i'r cyfryw nwyddau, deunyddiau neu beiriannau gydymffurfio â hwy;

5.2.5. bod o ansawdd boddhaol ac addas at unrhyw ddiben y defnyddir y cyfryw nwyddau, deunyddiau neu beiriannau fel arfer ar ei gyfer neu y mae'r Cleient yn hysbysu'r Cyflenwr amdano'n ysgrifenedig; a

5.2.6. cael eu darparu yn unol â'r Amodau hyn.

5.3. 5.2 Rhaid i'r Cyflenwr:

5.3.1. ddarparu'r Gwasanaethau yn brydlon ac mewn modd proffesiynol a chwrtais er mwyn adlewyrchu a hyrwyddo delwedd y Cleient;

5.3.2. peidio ag ymddwyn mewn modd sy'n dwyn anfri ar y Cleient, yn ei farn ef;

5.3.3. darparu, i foddhad y Cleient, y cyfryw aelodau galluog a phrofiadol o Bersonél y Cyflenwr ag y bydd eu hangen i gyflawni'r Gwasanaethau yn briodol, a sicrhau bod ganddynt gymwysterau addas a'u bod wedi'u hyfforddi'n ddigonol, ac ni chaniateir iddo dynnu'r cyfryw unigolion yn ôl na rhoi personél eraill yn eu lle heb gael caniatâd ysgrifenedig y Cleient ymlaen llaw;

5.3.4. sicrhau bod holl Bersonél y Cyflenwr sy'n rhan o'r gwaith o gyflenwi'r Gwasanaethau wedi'u hyfforddi'n ddigonol mewn perthynas â'r Gwasanaethau a holl ddarpariaethau perthnasol y Contract hwn;

5.3.5. sicrhau mai dim ond yr aelodau hynny o Bersonél y Cyflenwr sydd wedi'u hawdurdodi gan y Cleient (o dan y weithdrefn awdurdodi (os oes un) y cytunwyd arni rhwng y Partïon) sy'n cymryd rhan yn y gwaith o ddarparu'r Gwasanaethau;

5.3.6. darparu'r holl gyfarpar, adnoddau a cherbydau a'r holl eitemau eraill ag sydd eu hangen i ddarparu'r Gwasanaethau;

5.3.7. cydweithio â'r cyfryw aelodau o Bersonél y Cleient neu'r cyfryw drydydd partïon ag y gall y Cleient yn rhesymol ofyn iddo weithio gyda hwy;

5.3.8. bodloni ei hun bod y wybodaeth, gan gynnwys dogfennaeth, a ddarperir gan y Cleient yn ddigonol ac na fydd yn effeithio ar y broses o gyflawni unrhyw un o rwymedigaethau'r Cyflenwr o dan y contract hwn a rhaid iddo hysbysu'r Cleient ar unwaith am unrhyw annigonolrwydd y daw'n ymwybodol ohono. Os bydd hynny'n digwydd bydd yn rhaid i'r Partïon drafod, mewn ewyllys, da, sut i ddatrys y mater;

5.3.9. sicrhau bod yr holl Gydsyniadau Angenrheidiol wedi'u cael i ddarparu'r Gwasanaethau a rhaid i'r Cleient beidio â mynd i unrhyw gostau ychwanegol sy'n gysylltiedig â chael a chynnal y cydsyniadau hynny a chydymffurfio â hwy;

5.3.10. gweithio'n ddiwyd i ddiogelu a hyrwyddo buddiannau'r Cleient; a

5.3.11. cymryd pob gofal rhesymol (a sicrhau y bydd Personél y Cyflenwr yn cymryd pob gofal rhesymol) bob amser i sicrhau na fydd y ffordd y mae'n cyflawni'r Gwasanaethau yn amharu ar weithrediadau'r Cleient, ei gyflogeion nac unrhyw gontractwr arall a gyflogir gan y Cleient ac eithrio fel y cytunir fel arall â'r Cleient.

5.4. Rhaid i'r Cyflenwr sefydlu a chynnal system rheoli ansawdd sydd wedi'i dogfennu'n briodol (a fydd yn cydymffurfio ag unrhyw un o'r gofynion manwl a nodir yn y Fanyleb) er mwyn sicrhau y caiff y Gwasanaethau eu darparu yn unol â darpariaethau'r Contract hwn.

5.5. Os caiff unrhyw ddata a drosglwyddir neu a brosesir gan y Cyflenwr a'i Bersonél mewn cysylltiad â'r Contract hwn eu datgelu, eu colli, eu dinistrio neu eu newid neu eu diraddio ddigon fel na ellir eu defnyddio, a hynny o ganlyniad i unrhyw achos o dorri'r Contract hwn, rhaid i'r Cyflenwr hysbysu'r Cleient ar unwaith a heb effeithio ar unrhyw hawl na rhwymedi arall bydd:

5.5.1. yn atebol am dalu cost ailgorffori'r data hynny; a

5.5.2. yn rhoi credyd llawn mewn perthynas ag unrhyw dâl a godwyd am eu trosglwyddo.

6. **GWRTHOD GWASANAETHAU**

6.1. Bydd gan y Cleient y pŵer, drwy hysbysiad, i wrthod unrhyw Wasanaethau (gan gynnwys unrhyw nwyddau, deunyddiau neu beiriannau a ddarperir mewn cysylltiad â'r Gwasanaethau) nad ydynt wedi'u darparu yn unol â'r Contract hwn, yn ei farn resymol ef, a rhaid i'r Cyflenwr, heb effeithio ar hawliau eraill y Cleient, yn brydlon ac ar ei draul ei hun, ddarparu'r Gwasanaethau unwaith eto neu unioni'r diffyg yn y Gwasanaethau i foddhad y Cleient.

6.2. Os na fydd y Cyflenwr yn unioni'r diffyg yn brydlon yn unol â chyfarwyddiadau'r Cleient, caiff y Cleient unioni unrhyw ddiffyg neu beri iddo gael ei unioni gan gyflenwr arall, a bydd costau gwneud hynny yn daladwy gan y Cyflenwr.

6.3. Er bod y Gwasanaethau neu unrhyw ran ohonynt wedi bod yn destun unrhyw gyfarwyddyd, adolygiad, cymeradwyaeth, cydnabyddiaeth neu arolygiad gan y Cleient, ni chaiff y Cyflenwr ei ryddhau o unrhyw atebolrwydd neu rwymedigaeth o dan y Contract hwn.

6.4. Rhaid i unrhyw gostau ychwanegol (gan gynnwys costau unrhyw archwiliad) yr eir iddynt gan y Cleient am fod y Cyflenwr wedi methu â chyflawni'r Gwasanaethau yn unol â'r Contract hwn, gael eu had-dalu i'r Cleient gan y Cyflenwr, os bydd y Cleient yn gofyn i'r Cyflenwr wneud hynny.

7. **ADEG CYFLENWI**

7.1. Rhaid i'r Cyflenwr ddarparu'r Gwasanaethau:

7.1.1. yn unol â'r dyddiadau a'r amseroedd a nodir yn y dogfennau tendr neu, os caiff Rhaglen Waith ei chymeradwyo'n ysgrifenedig gan y Partïon, yn unol â'r dyddiadau a'r amseroedd y cytunir arnynt yn y Rhaglen Waith; a

7.1.2. erbyn neu ar (fel y bo'n briodol) y Dyddiad(au) Gweithredu.

7.2. Bydd amser yn hanfodol o ran rhwymedigaethau'r Cyflenwr o dan y Contract hwn ac, os bydd y Cyflenwr yn methu â darparu'r Gwasanaethau yn unol â'r Rhaglen Waith neu erbyn neu ar y Dyddiad(au) Gweithredu, caiff y Cleient ryddhau ei hun o unrhyw rwymedigaeth i dderbyn y Gwasanaethau a thalu amdanynt a/neu gall derfynu'r Contract hwn drwy hysbysiad, yn y naill achos neu'r llall heb effeithio ar unrhyw hawliau na rhwymedïau eraill sydd gan y Cleient.

8. **RHAGLEN WAITH**

8.1. Os bydd y Cleient yn gofyn iddo wneud hynny, rhaid i'r Cyflenwr gyflwyno rhaglen waith fanwl i Reolwr Contract y Cleient i'w chymeradwyo, sy'n dangos nifer y diwrnodau neu'r wythnosau sydd eu hangen ar gyfer pob cam ar wahân o'r broses o ddarparu'r Gwasanaethau er mwyn sicrhau y caiff y Gwasanaethau eu darparu erbyn neu ar y Dyddiad(au) Gweithredu.

8.2. Ar ôl iddo gael y rhaglen fanwl rhaid i Reolwr Contract y Cleient yn ysgrifenedig:

8.2.1. nodi ei fod yn ei chymeradwyo. Os felly, bydd yn rhan o'r Rhaglen Waith; neu

8.2.2. gwrthod y rhaglen gan nodi ei resymau dros wneud hynny a gofyn bod y rhaglen yn cael ei diwygio a'i hailgyflwyno gan y Cyflenwr.

8.3. Rhaid i'r rhaglen fanwl (neu'r rhaglen ddiwygiedig) gael ei chymeradwyo, ei gwrthod neu ei hailgyflwyno yn ddi-oed a rhaid i'r Cyflenwr, o fewn deg (10) Diwrnod Gwaith i wrthod y rhaglen fanwl, ailgyflwyno rhaglen ddiwygiedig bellach i Reolwr Contract y Cleient i'w chymeradwyo neu ei gwrthod yn unol â'r broses a nodir yn Amod 8.2 nes i'r Rhaglen Waith gael ei chymeradwyo'n ysgrifenedig.

8.4. Ni fydd methu â chytuno ar y Rhaglen Waith, nac oedi cyn cytuno arni, yn rhyddhau'r Cyflenwr o'i rwymedigaeth i ddarparu'r Gwasanaethau yn amserol yn unol â'r Dyddiadau Gweithredu a'r cyfryw ddyddiadau ac amseroedd eraill ag a nodir yn y Dogfennau Tendr.

## 9. DANGOSYDDION PERFFORMIAD ALLWEDDOL

9.1. Os bydd DPAau wedi'u nodi yn y Fanyleb a/neu'r Tendr, bydd y DPAau hynny yn gymwys i'r gwaith o ddarparu'r Gwasanaethau oni fydd y Partïon yn cytuno'n ysgrifenedig ar unrhyw DPAau ychwanegol neu amgen.

9.2. Os nodir bod DPAau yn gymwys (ond nad ydynt wedi'u rhagnodi) yn y Fanyleb, rhaid i'r Cyflenwr a'r Cleient gyfarfod o fewn ugain (20) Diwrnod Gwaith (neu'r cyfryw gyfnod arall ag y cytunir arno gan y Partïon) i ddyddiad y Llythyr Bwriad i Ddyfarnu er mwyn cytuno'n ysgrifenedig ar y DPAau cymwys dros Gyfnod y Contract.

9.3. Rhaid i'r Cyflenwr ddarparu'r Gwasanaethau mewn modd a fydd yn sicrhau bod y DPAau a gyflawnir mewn perthynas â phob rhan o'r Gwasanaeth yn cyfateb i'r DPAau a ragnodwyd neu eu bod yn uwch na hwy.

9.4. Rhaid i'r Cyflenwr ddarparu cofnodion sy'n nodi'r DPAau cymwys a'r ffordd y mae wedi cyflawni'r Gwasanaethau yn erbyn y DPAau (“Adroddiad ar Ddangosyddion Perfformiad Allweddol”) bob mis neu ar y cyfryw adegau eraill ag a nodir gan y Cleient o bryd i'w gilydd (y “Cyfnod Adrodd ar Ddangosyddion Perfformiad Allweddol”).

9.5. Os bydd y Cyflenwr yn methu â chyflawni'r DPAau, bydd gan y Cleient yr hawl i derfynu'r Contract hwn yn unol ag Amod 44.

## 10. LEFELAU GWASANAETH

10.1. Os bydd Lefelau Gwasanaeth wedi'u rhagnodi yn y Fanyleb a/neu'r Tendr, bydd y Lefelau Gwasanaeth hynny yn gymwys i'r gwaith o ddarparu'r Gwasanaethau oni fydd y Partïon yn cytuno'n ysgrifenedig ar unrhyw Lefelau Gwasanaeth ychwanegol neu amgen.

10.2. Os nodir bod Lefelau Gwasanaeth yn gymwys (ond nad ydynt wedi'u rhagnodi) yn y Fanyleb, rhaid i'r Cyflenwr a'r Cleient gyfarfod o fewn ugain (20) Diwrnod Gwaith (neu'r cyfryw gyfnod arall ag y cytunir arno gan y Partïon) i ddyddiad y Llythyr Bwriad i Ddyfarnu er mwyn cytuno'n ysgrifenedig ar Lefelau Gwasanaeth cymwys dros Gyfnod y Contract.

10.3. Rhaid i'r Cyflenwr ddarparu'r Gwasanaethau mewn modd a fydd yn sicrhau bod y Lefelau Gwasanaeth a gyflawnir mewn perthynas â phob rhan o'r Gwasanaeth yn cyfateb i'r Lefelau Gwasanaeth cymwys neu eu bod yn uwch na hwy.

10.4. Rhaid i'r Cyflenwr ddarparu cofnodion sy'n nodi'r Lefelau Gwasanaeth cymwys a'r ffordd y mae wedi cyflawni'r Gwasanaethau yn erbyn y Lefelau Gwasanaeth (“Adroddiad ar Lefelau Gwasanaeth”) bob mis neu ar y cyfryw adegau eraill ag a nodir gan y Cleient o bryd i'w gilydd (y “Cyfnod Adrodd ar Lefelau Gwasanaeth”).

10.5. Os bydd y Cyflenwr yn methu â chyflawni'r Lefelau Gwasanaeth, bydd gan y Cleient yr hawl i derfynu'r Contract hwn yn unol ag Amod 44.

## 11. ADRODDIADAU CYNNYDD AC AROLYGU

11.1. Bydd gan y Cleient yr hawl, ar ôl rhoi rhybudd rhesymol, i ofyn i'r Cyflenwr am adroddiad cynnydd, gwybodaeth arall sy'n ymwneud â darparu'r Gwasanaethau neu gyfarfod i drafod cynnydd y Gwasanaethau neu'r ffordd y cânt eu darparu. Rhaid i'r Cyflenwr gydymffurfio ag unrhyw gais o'r fath o fewn cyfnod rhesymol o amser.

11.2. Os cyflwynir adroddiad cynnydd, neu wybodaeth arall am gynnydd neu berfformiad y naill Barti neu'r llall o ran cyflawni ei rwymedigaethau o dan y Contract hwn, ni fydd cyflwyno, cael a derbyn y cyfryw adroddiad neu wybodaeth arall, yn effeithio ar hawliau'r naill Barti neu'r llall o dan y Contract hwn.

11.3. Caiff y Cleient arolygu ac archwilio'r gwaith neu'r Gwasanaethau sy'n cael ei wneud/eu cyflawni ar Safle'r Cleient heb rybudd ar unrhyw adeg a siarad yn uniongyrchol â Phersonél y Cyflenwr.

11.4. Os bydd unrhyw ran o'r gwaith neu'r Gwasanaethau yn cael ei wneud/eu cyflawni ar Safle heblaw Safle'r Cleient, rhaid rhoi pum (5) Diwrnod Gwaith o rybudd o fwriad i arolygu i'r Cyflenwr lle y bo'n bosibl.

11.5. Rhaid i'r Cyflenwr roi'r cyfryw gymorth ag y gall fod ei angen yn rhesymol ar y Cleient i gynnal y cyfryw arolygiad ac archwiliad.

## 12. CYFARFODYDD ADOLYGU A GWYBODAETH REOLI

12.1. Rhaid i'r Cyflenwr gyflwyno adroddiadau gwybodaeth reoli ysgrifenedig i'r Cleient bob mis (oni nodir fel arall yn y Fanyleb neu oni chytunir fel arall yn ysgrifenedig), sy'n cwmpasu'r cyfnod o ddyddiad yr adroddiad gwybodaeth reoli a gyflwynwyd yn flaenorol.

12.2. Rhaid i gynnwys y cyfryw adroddiad fod fel y'i nodir yn y Fanyleb oni chytunir yn wahanol rhwng y Partïon.

12.3. Rhaid i'r Partïon gyfarfod bob chwarter (oni nodir fel arall yn y Fanyleb neu oni chytunir fel arall yn ysgrifenedig gan y Partïon), er mwyn adolygu a thrafod unrhyw faterion sy'n ymwneud â chyflawni'r Contract hwn.

12.4. Ystyrir bod methiant ar ran y Cyflenwr i ddarparu'r wybodaeth sy'n ofynnol gan yr Amod 12 hwn yn achos sylfaenol o dorri'r Contract hwn at ddibenion Amod 44.

13. **Y PRIS A THALU**

13.1. Pennir y swm sy'n daladwy gan y Cleient am y Gwasanaethau drwy gyfeirio at y costau, y ffioedd, y cyfraddau neu'r prisiau a nodir yn y Dogfennu Tendr ar gyfer darparu'r Gwasanaethau (y “Pris”) a bydd yn cynnwys cydnabyddiaeth lawn a chyfyngedig y Cyflenwr am y Gwasanaethau.

13.2. Nid yw'r Pris yn cynnwys TAW. Rhaid i'r Cleient dalu TAW ar y Pris ar y gyfradd ac yn y modd a ragnodir gan y gyfraith, o bryd i'w gilydd.

13.3. Caiff y Cleient ddidynnu o'r swm sy'n daladwy i'r Cyflenwr am y Gwasanaethau unrhyw dreth incwm a chyfraniadau yswiriant gwladol a'r cyfryw dreth, ffi neu dâl arall ag y mae'r Cleient yn penderfynu bod angen ei (d)didynnu yn unol â Deddfwriaeth. Rhaid i'r Cleient roi manylion ei benderfyniad i'r Cyflenwr o fewn ugain (20) Diwrnod Gwaith i gael cais gan y Cyflenwr.

13.4. Rhaid i'r Pris gael ei dalu mewn ôl-daliadau ar yr adegau neu yn y rhandaliadau a nodir yn y Dogfennau Tendr neu fel y cytunir fel arall yn ysgrifenedig gan y Partïon.

13.5. Rhaid i bob anfoneb a gyflwynir gan y Cyflenwr i'r Cleient fod yn anfonebau TAW dilys a rhaid iddynt gynnwys y wybodaeth a restrir yn Amod 13.8 oni chytunir fel arall yn ysgrifenedig. Rhaid i bob anfoneb gael ei chyflwyno mewn sterling.

13.6. Rhaid cyflwyno anfonebau ar y ffurf ac i'r cyfeiriad a nodir gan y Cleient ac anfon copi at Reolwr Contract y Cleient ynghyd â dogfennaeth ategol oni fydd y Cleient yn hysbysu'r Cyflenwr fel arall yn ysgrifenedig.

13.7. Rhaid i Bris y Gwasanaethau gynnwys pob breindal, ffi am drwydded neu draul debyg mewn perthynas â gwneud, defnyddio neu arfer unrhyw ddyfais neu ddyluniad gan y Cyflenwr at ddibenion cyflawni'r Contract hwn.

13.8. Rhaid i'r Cyflenwr sicrhau bod yr holl anfonebau yn gywir a'u bod yn dangos y wybodaeth ganlynol yn glir:

13.8.1. enw a chyfeiriad y Cleient fel y derbynnydd;

13.8.2. enw Rheolwr Contract y Cleient;

13.8.3. rhif cyswllt a rhif archeb brynu'r Cleient;

13.8.4. dyddiad yr anfoneb;

13.8.5. rhif unigryw'r anfoneb;

13.8.6. enw a chyfeiriad y Cyflenwr;

13.8.7. enw Rheolwr Contract y Cyflenwr;

13.8.8. manylion banc y Cyflenwr;

13.8.9. rhif TAW y Cyflenwr (os yw'n gymwys);

13.8.10. cyfeirnod y Cyflenwr;

13.8.11. y cyfnod y mae'r taliad yn ymwneud ag ef;

13.8.12. disgrifiad o'r nwyddau/gwaith/gwasanaethau y mae'r anfoneb yn ymwneud â hwy/ag ef sy'n cyfateb i'r eitemau o nwyddau/gwaith/gwasanaethau a nodir yn yr archeb brynu berthnasol;

13.8.13. dadansoddiad o'r swm sy'n daladwy gan gynnwys, lle y bo'n gymwys, yr uned codi tâl;

13.8.14. swm y TAW sy'n daladwy;

13.8.15. y cyfanswm sy'n daladwy gan gynnwys TAW; a

13.8.16. y cyfryw wybodaeth arall ag a nodir yn y Fanyleb

13.9. Rhaid i'r Cleient, yn ôl disgresiwn y Cleient, dalu anfonebau gan ddefnyddio un o'r dulliau talu a nodir yn y Fanyleb. Ni fydd modd adennill unrhyw ffioedd sy'n gysylltiedig â dull talu'r Cleient oddi wrth y Cleient oni chytunir fel arall yn ysgrifenedig.

13.10. Os bydd anfoneb a gyflwynwyd yn anghywir, rhaid i'r anfoneb gael ei dychwelyd i'r Cyflenwr fel ymholiad a/neu caiff y Cleient gyflwyno unrhyw ymholiad neu gais am wybodaeth am yr anfoneb. Rhaid i'r Cyflenwr ateb unrhyw ymholiad neu gais o'r fath o fewn pum (5) Diwrnod Gwaith. Bydd y cyfnod talu o dri deg (30) diwrnod y cyfeirir ato yn Amod 13.12 yn dechrau ar y dyddiad y mae'r Cleient yn cael anfoneb gywir neu'r holl wybodaeth y mae wedi gofyn amdani.

13.11. Os bydd y Cleient yn herio unrhyw anfoneb neu ddatganiad arall o arian sy'n ddyledus, rhaid i'r Cleient hysbysu'r Cyflenwr yn ysgrifenedig heb unrhyw oedi. Rhaid i'r Partïon negodi mewn ewyllys da er mwyn ceisio datrys yr anghydfod yn brydlon. Rhaid i'r Cyflenwr ddarparu'r cyfryw dystiolaeth ag y gall fod ei hangen yn rhesymol er mwyn dilysu'r anfoneb neu'r cais am daliad sy'n cael ei herio. Os na fydd y Partïon wedi datrys yr anghydfod o fewn tri deg (30) diwrnod i'r dyddiad yr hysbysodd y Cleient y Cyflenwr, rhaid i'r anghydfod gael ei ddatrys yn unol ag Amod 47. Os mai dim ond rhan o anfoneb sy'n cael ei herio, rhaid i'r swm nad yw'n cael ei herio gael ei dalu yn unol â thelerau'r Contract hwn. Ni fydd unrhyw anghydfod ynghylch taliad yn effeithio ar rwymedigaethau'r Cyflenwr i ddarparu'r Gwasanaethau.

13.12. Rhaid i daliadau gael eu gwneud o fewn tri deg (30) diwrnod i'r dyddiad y mae'r Cleient yn cael (yn y cyfeiriad y mae wedi'i nodi ar gyfer anfonebau) anfoneb ddilys, nad yw'n cael ei herio, gan y Cyflenwr.

13.13. Rhaid i'r Cyflenwr gydymffurfio â Deddf Treth ar Werth 1994 ac unrhyw statudau eraill sy'n ymwneud â threthi uniongyrchol ac anuniongyrchol, a sicrhau bod ei Is-gontractwyr yn gwneud hynny, bob amser.

13.14. Rhaid i'r Cyflenwr roi enw, ac os yw'n gymwys, rif cofrestru TAW unrhyw Is-gontractwr i'r Cleient cyn i'r cyfryw Is-gontractwr ddechrau ar unrhyw waith o dan y Contract hwn. Ni chaiff y Cyflenwr gyflogi, neu bydd yn rhoi'r gorau i gyflogi, unrhyw Is-gontractwr y mae'r Cleient yn credu nad yw'n cydymffurfio â Deddf Treth ar Werth 1994 a phob statud arall sy'n ymwneud â threthi uniongyrchol neu anuniongyrchol.

13.15. Os bydd y Cleient yn methu â thalu unrhyw swm sy'n briodol ddyledus a thaladwy ganddo o dan y Contract hwn, bydd gan y Cyflenwr yr hawl i godi llog ar y swm sy'n ddyledus ar gyfradd o 5 y cant (5%) y flwyddyn uwchlaw cyfradd sylfaen Banc Lloegr, am y tro, a fydd yn cronni'n ddyddiol o'r dyddiad dyledus hyd at y dyddiad talu gwirioneddol, boed hynny cyn neu ar ôl dyfarniad. Mae'r Partïon yn cytuno bod y gyfradd hon yn rhwymedi sylweddol yn unol ag adran 9 o Ddeddf Talu Dyledion Masnachol yn Hwyr (Llog) 1998.

## 14. ADDASU'R PRIS AR ÔL YMESTYN CYFNOD Y CONTRACT

14.1. Bydd y Pris yn sefydlog am Gyfnod cychwynnol y Contract. Os caiff Cyfnod y Contract ei ymestyn yn unol ag Amod 3, caiff y Cleient a'r Cyflenwr, os bydd y Fanyleb yn darparu ar gyfer addasu'r Pris yn ystod unrhyw gyfnod estynedig o'r fath, adolygu'r Pris cyn i Gyfnod cychwynnol y Contract ddod i ben.

14.2. Caiff unrhyw gais i gynyddu neu leihau'r Pris yn ystod Cyfnod estynedig y Contract ei gyfrifo yn unol â'r Fanyleb.

## 15. GWRTHBWYSO

15.1. Caiff y Cleient, ar unrhyw adeg, wrthbwyso unrhyw atebolrwydd sydd gan y Cyflenwr i'r Cleient yn erbyn unrhyw atebolrwydd sydd gan y Cleient i'r Cyflenwr, p'un a yw'r naill atebolrwydd neu'r llall yn y presennol neu yn y dyfodol, yn benodedig neu'n amhenodedig, a ph'un a yw'r naill atebolrwydd neu'r llall yn codi o dan y Contract hwn ai peidio.

15.2. Ni fydd unrhyw achos o arfer ei hawliau o dan yr Amod 15 hwn gan y Client yn cyfyngu nac yn amharu ar unrhyw hawliau na rhwymedïau eraill sydd ar gael iddo o dan y Contract hwn neu fel arall.

## 16. GWARANTIADAU A SYLWADAU

16.1. Mae'r Cyflenwr yn gwarantu ac yn haeru'r canlynol:

16.1.1. mae ganddo'r gallu a'r awdurdod i lunio a chyflawni'r Contract hwn ac y caiff y Contract hwn ei gyflawni gan un o gynrychiolwyr awdurdodedig priodol y Cyflenwr;

16.1.2. caiff y Gwasanaethau eu darparu gan Bersonél sydd â'r profiad, y cymwysterau a'r hyfforddiant priodol yn unol ag Arfer Da Diwydiant;

16.1.3. mae'r holl ddata a geir yn ei Dendr, ar y Dyddiad Dechrau, yn dal i fod yn wir ac yn gywir ac nid ydynt yn gamarweiniol, ac eithrio fel y datgelwyd yn benodol i'r Cleient yn ysgrifenedig cyn dyddiad y Llythyr Dyfarnu;

16.1.4. bydd yn cyflawni ei rwymedigaethau o dan y Contract hwn â'r holl fedrusrwydd, gofal a diwydrwydd dyladwy, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i Arfer Da Diwydiant a (heb gyfyngu ar gyffredinolrwydd yr Amod hwn) yn unol â'i weithdrefnau mewnol sefydledig ei hun;

16.1.5. naill ai mai ef yw perchennog yr Hawliau Eiddo Deallusol mewn unrhyw hawliau sydd wedi'u trwyddedu i'r Cleient neu sydd i'w trwyddedu iddo mewn cysylltiad â'r Contract hwn neu, i'r graddau nad ef yw'r perchennog, fod ganddo'r hawl i drwyddedu'r cyfryw Hawliau Eiddo Deallusol i'r Cleient yn unol ag Amod 19;

16.1.6. hyd y gŵyr, ni fydd unrhyw Hawliau Eiddo Deallusol sydd wedi'u trwyddedu neu wedi'u haseinio i'r Cleient yn tresmasu ar Hawliau Eiddo Deallusol unrhyw drydydd parti;

16.1.7. ni fydd yn cymryd unrhyw gamau nac yn cyflawni unrhyw anwaith a fydd yn arwain at ddwyn anfri ar Weinidogion Cymru.

16.2. Tybir y bydd yr holl sylwadau a gwarantiadau a nodir yn y Contract hwn yn cael eu hailadrodd ar bob diwrnod o Gyfnod y Contract gan gyfeirio at y ffeithiau a'r amgylchiadau sy'n gyffredin ar y pryd.

## 17. POLISÏAU

17.1. Rhaid i'r Cyflenwr gydymffurfio â holl bolisïau cyhoeddedig y Cleient ac unrhyw reolau, codau ymarfer, gweithdrefnau a safonau eraill y mae'r Cleient yn eu nodi yn y Fanyleb neu'n hysbysu'r Cyflenwr amdanynt o bryd i'w gilydd a sicrhau bod holl Bersonél y Cyflenwr yn cydymffurfio â hwy hefyd. Drwy gydol Cyfnod y Contract, rhaid i'r Cleient sicrhau y caiff unrhyw newidiadau i unrhyw bolisïau, rheolau, codau ymarfer, gweithdrefnau a safonau eu dwyn i sylw'r Cyflenwr yn brydlon.

## 18. DEUNYDDIAU, PEIRIANNAU, CYFARPAR AC ATI

18.1. Ni chaiff y Cyflenwr ddarparu unrhyw Wasanaethau na gwneud unrhyw waith ar Safle'r Cleient heb gael caniatâd ysgrifenedig y Cleient ymlaen llaw a rhaid iddo gydymffurfio ag unrhyw amodau neu gyfarwyddiadau y mae'r caniatâd yn ddarostyngedig iddynt.

18.2. Bydd unrhyw gyfarpar, offer, peiriannau neu ddeunyddiau (y "Cyfarpar") y deuir â hwy ar Safle'r Cleient ar fenter y Cyflenwr ei hun. Rhaid i'r Cyflenwr drefnu i'r cyfryw Gyfarpar gael ei gludo i'r safle a'i symud oddi arno ar ei draul ei hun.

18.3. Bydd gan y Cleient y pŵer, ar unrhyw adeg pan fydd y Gwasanaethau yn cael eu darparu, i wneud cais ysgrifenedig:

18.3.1. am i unrhyw Gyfarpar sy'n beryglus neu'n wenwynig neu nad yw'n cyd-fynd â'r Contract hwn gael ei symud oddi ar Safle'r Cleient; a/neu

18.3.2. am i Gyfarpar priodol ac addas cyfnewid gael ei ddarparu.

18.4. Ar ôl i'r Gwasanaethau gael eu darparu, ar ei draul ei hun, rhaid i'r Cyflenwr symud y Cyfarpar oddi ar Safle'r Cleient a chlirio unrhyw wastraff a gynhyrchir gan y Gwasanaethau o'r safle a'i adael yn daclus.

## 19. EIDDO DEALLUSOL

19.1. Rhaid iddo fod yn un o amodau'r Contract hwn, ac eithrio i'r graddau bod y Gwasanaethau yn ymgorffori Hawliau Eiddo Deallusol a ddarparwyd gan y Cleient, na fydd y Gwasanaethau yn tresmasu ar unrhyw Hawliau Eiddo Deallusol sydd gan unrhyw drydydd parti.

19.2. Bydd unrhyw Hawliau Eiddo Deallusol mewn unrhyw ddeunyddiau (ar ba ffurf bynnag y bônt) gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i ddogfennau, manylebau, cyfarwyddiadau, data, cronfeydd data, cynlluniau, adroddiadau, lluniadau, dyfeisiau, patentau, patrymau, modelau, dyluniadau, rhaglenni neu ddeunyddiau arall:

19.2.1. a ddarperir i'r Cyflenwr gan y Cleient yn parhau i fod yn eiddo i'r Cleient;

19.2.2. a baratoir gan neu ar gyfer y Cyflenwr cyn y Dyddiad Dechrau ac a ddefnyddir mewn perthynas â darparu'r Gwasanaethau yn parhau i fod yn eiddo i'r Cyflenwr ond rhaid i'r Cyflenwr, i'r graddau sy'n angenrheidiol er mwyn galluogi'r Cleient i ddefnyddio unrhyw ddeunyddiau o'r fath, roi i'r Cleient drwydded barhaol, di-freindal ac anghyfyngedig na ellir ei dirymu er mwyn i'r Cleient gopïo, addasu, dosbarthu, cyfleu a darparu'r cyfryw ddeunyddiau (gan gynnwys, heb gyfyngiad, yr hawl i'r Cleient roi is-drwyddedau mewn perthynas â'r deunyddiau hynny) at bob diben a ragwelir yn rhesymol gan y Contract hwn, sy'n gysylltiedig ag ef neu sy'n atodol iddo (neu, yn achos Hawliau Eiddo Deallusol sy'n perthyn i drydydd partïon ac a ddefnyddir mewn perthynas â darparu'r Gwasanaethau, beri i drwydded o'r fath gael ei rhoi iddo);

19.2.3. a baratoir neu a goledir gan neu ar gyfer y Cyflenwr ar ôl y Dyddiad Dechrau i'w defnyddio, neu gyda'r bwriad o'u defnyddio, mewn perthynas â chyflawni'r Contract hwn yn cael eu haseinio drwy hyn i'r Goron a byddant wedi'u breinio ynddi yn llwyr.

19.3. Os bydd y Cleient yn gofyn iddo wneud hynny, rhaid i'r Cyflenwr gymryd pob cyfryw gam pellach a chyflawni pob cyfryw ddogfen arall ag y gall y Cleient ofyn iddo ei gymryd a'i gyflawni ar unwaith (1) er mwyn rhoi'r trwyddedau a roddwyd yn unol ag Amod 19.2.2 ar waith; a (ii) er mwyn sicrhau ar gyfer y Cleient bob hawl, teitl a buddiant yn yr Hawliau Eiddo Deallusol ac iddynt a phob hawl arall a aseiniwyd i'r Cleient o dan Amod 19.2.3.

19.4. Ni fydd gan y Cyflenwr yr hawl i ddefnyddio unrhyw ddogfennau, manylebau, cyfarwyddiadau, data, cronfeydd data, cynlluniau, adroddiadau, dyluniadau, dyfeisiau, patentau, patrymau, modelau, dyluniadau, rhaglenni neu ddeunyddiau eraill y cyfeirir atynt yn Amod 19.2.1 neu Amod 19.2.3 at ei ddibenion masnachol ei hun ac eithrio ar ôl cael caniatâd ysgrifenedig y Cleient ymlaen llaw ac yn ddarostyngedig i'r cyfryw delerau ac amodau ag y gall y Cleient eu nodi.

19.5. Ar unrhyw adeg yn ystod Cyfnod y Contract, os gofynnir iddo wneud hynny, rhaid i'r Cyflenwr roi copi o unrhyw ddeunyddiau y cyfeirir atynt yn Amod 19.2 i'r Cleient. Pan gaiff y Contract hwn ei derfynu neu pan ddaw i ben, neu ar ôl hynny, yn ôl dewis y Cleient rhaid i'r Cyflenwr naill ai ddinistrio neu drosglwyddo i'r Cleient yr holl ddeunyddiau y cyfeirir atynt yn Amod 19.2 a ddelir ganddo neu unrhyw aelod o Bersonél y Cyflenwr mewn cysylltiad â'r Contract hwn, gan gynnwys unrhyw gyfryngau wrth gefn (er y caiff y Cyflenwr, gyda chaniatâd y Cleient, gadw un copi o'r cyfryw ddeunyddiau at ddibenion archwilio yn unig ac yn ddarostyngedig i rwymedigaethau cyfrinachedd).

19.6. Rhaid i'r Cyflenwr hysbysu'r Cleient ar unwaith os gwneir unrhyw hawliad neu archeb am dâl neu os dygir unrhyw achos yn erbyn y Cyflenwr am dorri unrhyw Hawl Eiddo Deallusol neu achos honedig o dorri unrhyw Hawl Eiddo Deallusol mewn cysylltiad â Chyflawni'r Contract hwn. Rhaid i'r Cyflenwr gynnal, ar ei draul ei hun, unrhyw achos o ymgyfreitha sy'n deillio o

unrhyw hawliad, archeb am dâl neu achos o'r fath a'r holl drafodaethau cysylltiedig, ar yr amod, bob amser, y bydd y Cyflenwr yn ymgynghori â'r Cleient ynghylch pob mater o sylwedd sy'n codi wrth gynnal y cyfryw achos o ymgyfreitha a'r cyfryw drafodaethau ac wrth eu cynnal rhaid iddo roi sylw dyledus a phriodol i fuddiannau'r Cleient.

19.7. Os bydd y Cyflenwr yn gofyn iddo wneud hynny, rhaid i'r Cleient roi pob cymorth rhesymol i'r Cyflenwr er mwyn iddo herio unrhyw hawliad neu archeb am dâl a wneir neu unrhyw achos a ddygir yn erbyn y Cleient neu'r Cyflenwr am dorri unrhyw Hawl Eiddo Deallusol neu achos honedig o dorri unrhyw Hawl Eiddo Deallusol mewn cysylltiad â chyflawni'r Contract hwn a rhaid ad-dalu'r holl gostau a threuliau (gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i gostau cyfreithiol a gwariadau ar sail cleientiaid y cyfreithiwr) yr eir iddynt wrth wneud hynny i'r Cleient.

19.8. Rhaid i'r Cleient beidio â gwneud unrhyw addefiadau a all ragfarnu amddiffyn neu setlo unrhyw hawliad, archeb am dâl neu achos am dorri unrhyw Hawl Eiddo Deallusol neu achos honedig o dorri unrhyw Hawl Eiddo Deallusol gan y Cleient neu'r Cyflenwr mewn cysylltiad â chyflawni'r Contract hwn.

19.9. Os cyflwynir hawliad neu archeb am dâl neu os dygir achos am dorri unrhyw Hawl Eiddo Deallusol neu achos honedig o dorri unrhyw Hawl Eiddo Deallusol mewn cysylltiad â'r Contract hwn neu os bydd y Cyflenwr o'r farn ei bod yn debygol y bydd hynny'n digwydd, rhaid i'r Cyflenwr, ar ei draul ei hun ac yn amodol ar gymeradwyaeth y Client (na chaiff ei hatal na'i gohirio'n afresymol) naill ai:

19.9.1. addasu unrhyw rai o'r Gwasanaethau neu bob un o'r Gwasanaethau heb leihau ansawdd nac addasrwydd at y diben yr uchod, neu roi yn eu lle Wasanaethau amgen o ansawdd ac addasrwydd at y diben cyfatebol, er mwyn osgoi torri Hawl Eiddo Deallusol neu achos honedig o dorri Hawl Eiddo Deallusol, ar yr amod y bydd y Contract hwn yn gymwys *mutatis mutandis* i'r cyfryw Wasanaethau a addaswyd neu'r Gwasanaethau a roddwyd yn eu lle; neu

19.9.2. cael trwydded i ddefnyddio'r Hawliau Eiddo Deallusol sydd wedi cael eu torri neu yr honnir eu bod wedi cael eu torri, ar delerau sy'n dderbyniol i'r Cleient.

19.10. Ni fydd darpariaethau uchod yr Amod 19 hwn yn gymwys i'r graddau y mae unrhyw hawliad neu archeb am dâl neu achos yn ymwneud â:

19.10.1. unrhyw ddefnydd gan neu ar ran y Cleient o unrhyw Wasanaethau mewn cyfuniad ag unrhyw eitem nas darparwyd neu nas awdurdodwyd gan y Cyflenwr (a fydd yn ymddwyn yn rhesymol wrth roi'r cyfryw awdurdodiad) pan fydd y cyfryw ddefnydd o'r Gwasanaethau yn arwain yn uniongyrchol ar yr hawliad, yr archeb am dâl neu'r achos; neu

19.10.2. y defnydd gan y Cleient o'r Gwasanaethau mewn ffordd na chesglir mohoni yn rhesymol o'r fanyleb; neu

19.10.3. penderfyniad afresymol y Cleient i wrthod derbyn Gwasanaethau wedi'u haddasu neu Wasanaethau eraill yn eu lle yn unol ag Amod 19.9.1 uchod.

19.11. Os bydd y Cyflenwr wedi defnyddio'r hawliau i addasu'r Gwasanaethau neu roi Gwasanaethau eraill yn eu lle neu sicrhau trwydded a bod arfer yr hawliau dywededig yn y fath fodd wedi osgoi unrhyw hawliad, archeb am dâl neu achos am dorri Hawliau Eiddo

Deallusol, yna ni fydd gan y Cyflenwr unrhyw atebolrwydd pellach o dan yr Amod 19 hwn mewn perthynas â'r hawliad, yr archeb am dâl neu'r achos dywededig.

19.12. Os na fydd modd addasu'r Gwasanaethau na rhoi Gwasanaethau eraill yn eu lle yn unol ag Amod 19.9.1 uchod er mwyn osgoi achos neu achos honedig o dorri Hawliau Eiddo Deallusol a bod y Cyflenwr wedi methu â sicrhau trwydded yn unol ag Amod 19.9.2, bydd Amod 39.1.2 yn gymwys.

19.13. Os gwneir unrhyw hawliad neu archeb am dâl neu os dygir unrhyw achos yn erbyn y Cleient am dorri unrhyw Hawl Eiddo Deallusol neu achos honedig o dorri unrhyw Hawl Eiddo Deallusol mewn cysylltiad â chyflawni'r Contract hwn, bydd Amod 39.1.2 yn gymwys a rhaid i'r Cyflenwr, ar ei draul ei hun, roi i'r Cleient y cyfryw gymorth ag y gall fod ei angen ar y Cleient mewn cysylltiad â'r cyfryw gamau gweithredu.

## 20. NWYDDAU A DEUNYDDIAU'R CLEIENT

20.1. Bydd yr holl nwyddau a deunyddiau a gyflenwir gan y Cleient mewn cysylltiad â'r Contract hwn yn parhau i fod yn eiddo i'r Cleient. Rhaid eu defnyddio i gyflawni'r Contract hwn ac ni ddylent gael eu defnyddio at unrhyw ddiben arall heb gael caniatâd ysgrifenedig y Cleient ymlaen llaw. Tybir bod y cyfryw nwyddau a deunyddiau mewn cyflwr da pan gânt eu derbyn gan neu ar ran y Cyflenwr oni fydd yn hysbysu'r Cleient i'r gwrthwyneb o fewn saith (7) Diwrnod Gwaith neu'r cyfryw gyfnod arall ag a nodir yn y Fanyleb.

20.2. Rhaid i'r Cyflenwr gadw'r holl nwyddau a deunyddiau a ddefnyddir i gyflawni'r Gwasanaethau yn lân ac mewn cyflwr da fel y gellir eu defnyddio i gyflawni'r Gwasanaethau yn briodol ac ni fydd ar y Cleient unrhyw atebolrwydd amdanynt.

20.3. Rhaid i'r Cyflenwr ddychwelyd y cyfryw nwyddau a deunyddiau, os gofynnir iddo wneud hynny, a bydd yn gyfrifol am unrhyw nwyddau neu ddeunyddiau a gaiff eu colli neu eu difrodi ac am dalu unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â'u hatgyweirio neu roi nwyddau neu ddeunyddiau eraill yn eu lle, sut bynnag y cânt eu colli neu eu difrodi, cyn iddynt gael eu hailddanfon i'r Cleient.

20.4. Ar ôl i'r Gwasanaethau gael eu darparu neu mewn ymateb i gais cynharach gan y Cleient, rhaid i'r Cyflenwr ddychwelyd y nwyddau, y deunyddiau, y gwaith neu'r cofnodion a ddelir, gan gynnwys unrhyw gyfryngau wrth gefn, mewn cyflwr da, heblaw am draul arferol.

## 21. MYNEDIAD I SAFLEOEDD

21.1. Oni chytunir fel arall gan y Partïon, bydd y defnydd o unrhyw Safle a ddarperir i'r Cyflenwr gan y Cleient mewn cysylltiad â'r Contract hwn ar gael i'r Cyflenwr am ddim (ond heb effeithio ar hawl y Cleient i ofyn am ad-daliad am unrhyw dreuliau sy'n deillio o'r feddiannaeth honno neu wariant yr aed iddo, gan gynnwys mewn perthynas ag unrhyw daliadau am danwydd neu wasanaethau telathrebu sydd i'w priodoli i'r Cyflenwr) a rhaid iddo gael ei ddefnyddio gan y Cyflenwr i gyflawni'r Contract hwn yn unig. Bydd y Cyflenwr yn cael defnyddio'r cyfryw Safle fel trwyddedai a bydd yn rhaid iddo adael y Safle hwnnw ar ôl i'r Contract hwn gael ei derfynu neu pan ddaw i ben neu ar y cyfryw ddyddiad cynharach ag y gall y Cleient hysbysu'r Cyflenwr amdano. Ni fydd mynediad i'r cyfryw Safle yn gyfyngedig i'r Cyflenwr oni chytunir yn ysgrifenedig gan y Cleient.

21.2. Mae'r Partïon yn cytuno nad oes unrhyw fwriad ar ran y Cleient i greu tenantiaeth o unrhyw fath o blaid y Cyflenwr na Phersonél y Cyflenwr ac nad oes unrhyw denantiaeth o'r fath wedi dod i

fodolaeth ac na fydd yn dod i fodolaeth a bod y Cleient yn cadw'r hawl ar unrhyw adeg i ddefnyddio unrhyw Safle o eiddo'r Cleient.

21.3. Rhaid i'r Cyflenwr a Phersonél y Cyflenwr gydymffurfio â'r holl reolau a rheoliadau sy'n ymwneud â defnyddio unrhyw Safle o eiddo'r Cleient i ddarparu'r Gwasanaethau fel y penderfynir gan y Cleient, a thalu cost unioni unrhyw ddifrod a achoswyd gan y Cyflenwr neu Bersonél y Cyflenwr heblaw am draul normal. Er mwyn osgoi amheuaeth, mae difrod yn cynnwys difrod i adeiladwaith unrhyw Safleoedd o eiddo'r Cleient neu i beiriannau, cyfarpar sefydlog neu ffitiadau ar Safleoedd y Cleient. Rhaid i'r Cyflenwr hysbysu'r Cleient ar unwaith os daw'n ymwybodol o unrhyw ddifrod a achoswyd i Safle'r Cleient neu unrhyw beiriannau, cyfarpar sefydledig neu ffitiadau ar Safle'r Cleient.

21.4. Rhaid i'r Cyflenwr gydymffurfio â phob un o ofynion diogelwch rhesymol y Cleient tra bydd ar Safle'r Cleient a rhaid iddo sicrhau bod holl Bersonél y Cyflenwr yn cydymffurfio â'r cyfryw ofynion. Lle y bo'n berthnasol rhaid i'r Cleient roi copïau o'i weithdrefnau diogelwch ysgrifenedig i'r Cyflenwr, os gofynnir iddo wneud hynny, a rhaid iddo roi cyfle i'r Cyflenwr archwilio trefniadau diogelwch ffisegol y Cleient, os gofynnir iddo wneud hynny.

21.5. Rhaid i'r Cyflenwr, ar ei draul ei hun, roi ffurf adnabod sy'n dderbyniol i'r Cleient i'w Bersonél. Rhaid i Bersonél y Cyflenwr arddangos y cyfryw ddull adnabod ynghyd â'r cyfryw ffurf adnabod arall (os oes un) ag a ddarperir gan y Cleient ar eu dillad bob amser pan fyddant ar Safle'r Cleient.

21.6. Rhaid i'r Cyflenwr sicrhau y cydymffurfir â holl geisiadau a chyfarwyddiadau'r Cleient tra bydd ar Safle'r Cleient.

21.7. Rhaid i'r Cyflenwr sicrhau bod ei holl Staff wedi'u cyfarwyddo ynglŷn â risgiau tân a'u bod yn cael eu gwahardd yn benodol rhag smygu tra byddant ar unrhyw Safle o eiddo'r Cleient.

## 22. IECHYD A DIOGELWCH

22.1. Rhaid i'r Cyflenwr a Phersonél y Cyflenwr:

22.1.1. cydymffurfio â phob rhan berthnasol o'r Gyfundrefn Iechyd a Diogelwch ac â pholisïau a gweithdrefnau'r Cleient ei hun y'i hysbysir amdanynt;

22.1.2. cymryd pob cyfryw gam ag a all fod yn rhesymol ymarferol er mwyn sicrhau iechyd a diogelwch pob person y mae darparu'r Gwasanaethau yn debygol o effeithio arno;

22.1.3. peidio â thrin, cadw na gwaredu unrhyw wastraff a gynhyrchir a/neu a gludir gan y Cyflenwr mewn cysylltiad â'r Gwasanaethau mewn modd sy'n debygol o niweidio iechyd a diogelwch unrhyw unigolyn neu'r amgylchedd a rhaid iddynt gydymffurfio â phob dyletswydd statudol sy'n berthnasol;

22.1.4. hysbysu'r Cleient ar unwaith am unrhyw beryglon i iechyd a diogelwch y mae'n ymwybodol ohonynt (ar ôl gwneud pob ymholiad rhesymol) ac a all godi o ganlyniad i ddarparu'r Gwasanaethau;

22.1.5. hysbysu'r Cleient ar unwaith os bydd unrhyw ddigwyddiad wrth ddarparu'r Gwasanaethau ar Safle'r Cleient lle mae'r digwyddiad hwnnw yn achosi unrhyw anaf personol neu ddifrod i eiddo a allai arwain at anaf personol;

22.1.6. cymryd y cyfryw gamau ag sy'n rhesymol ymarferol er mwyn osgoi (neu, os na ellir ei osgoi, leihau) newid i'r amgylchedd;

22.1.7. sicrhau ei fod yn mabwysiadu dulliau gweithio diogel er mwyn diogelu iechyd a diogelwch y canlynol:

(i) Personél y Cyflenwr;
(ii) cyflogeion y Cleient;
(iii) cyflogeion Personél y Cyflenwr; a
(iv) unrhyw unigolion eraill gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i aelodau o'r cyhoedd.

22.1.8. cyflwyno i'r Cleient, os gofynnir iddo wneud hynny, ei system gweithio diogel fanwl ar gyfer darparu'r Gwasanaethau a'i ddatganiad iechyd a pholisi (fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith etc 1974).

22.2. Rhaid i'r Cleient hysbysu'r Cyflenwr am unrhyw beryglon i iechyd a diogelwch a all fod ar unrhyw Safle o eiddo'r Cleient neu a allai godi ar unrhyw un o'i Safleoedd ac a allai effeithio ar y Cyflenwr. Rhaid i'r Cyflenwr ddwyn y peryglon hyn i sylw Personél y Cyflenwr. Rhaid i'r Cyflenwr hysbysu pob unigolyn sy'n rhan o'r gwaith o gyflawni'r Contract hwn ar Safle'r Cleient am bob cyfryw berygl a rhaid iddo gyfarwyddo'r cyfryw unigolion mewn cysylltiad ag unrhyw fesurau diogelwch cysylltiedig angenrheidiol.

22.3. Ni fydd dim yn yr Amod 22 hwn yn rhyddhau'r Cyflenwr o'i rwymedigaethau i gydymffurfio â'i ddyletswyddau statudol.

## 23. RHEOLWYR CONTRACT DYNODEDIG

23.1. Mae gan Reolwr Contract y Cleient yr awdurdod i weithredu ar ran y Cleient mewn cysylltiad â'r Contract hwn.

23.2. Rhaid i'r Cyflenwr enwebu cynrychiolydd cyflenwr (“Rheolwr Contract y Cyflenwr") ar ddechrau'r Contract hwn y bydd ganddo'r pŵer i weithredu ar ran y Cyflenwr at bob diben sy'n gysylltiedig â'r Contract hwn gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol:

23.2.1. rheoli'r modd y darperir y Gwasanaethau;

23.2.2. mynd i gyfarfodydd â Rheolwr Contract y Cleient er mwyn adolygu'r modd y darperir y Gwasanaethau;

23.2.3. darparu'r holl wybodaeth a dogfennau sydd eu hangen yn rhesymol ar y Cleient mewn perthynas â'r Gwasanaethau er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau.

23.3. Yn ddarostyngedig i Amod 23.4, caiff pob parti newid y person a benodwyd fel ei gynrychiolydd at ddibenion yr Amod 23 hwn ar unrhyw adeg a rhaid iddo hysbysu'r Parti arall yn ysgrifenedig am unrhyw newid.

23.4. Mae'r Cleient yn cadw'r hawl, yn ystod Cyfnod y Contract, i fynnu bod unigolyn arall yn cael ei benodi yn lle unrhyw un sy'n gweithredu fel Rheolwr Contract y Cyflenwr neu wrthod unrhyw un a benodwyd yn Rheolwr Contract y Cyflenwr, y mae'r Cleient o'r farn nad oes ganddo'r profiad priodol o reoli gwasanaethau tebyg i'r Gwasanaethau neu sy'n anaddas mewn rhyw ffordd arall ar gyfer y cyfryw benodiad.

## 24. PERSONÉL Y CYFLENWR

24.1. Mae'r Cleient yn cadw'r hawl, o dan y Contract hwn, i wrthod mynediad i unrhyw aelod o Bersonél y Cyflenwr i unrhyw un o Safleoedd y Cleient os bydd y Cleient o'r farn bod y cyfryw fynediad yn annymunol neu'n ddiangen.

24.2. Os caiff ei gyfarwyddo gan y Cleient i wneud hynny, rhaid i'r Cyflenwr ddarparu rhestr o enwau a chyfeiriadau'r holl unigolion y gallai fod angen iddynt gael mynediad i unrhyw un o Safleoedd y Cleient mewn cysylltiad â chyflawni'r Contract hwn, gan nodi pa swyddogaethau y maent yn eu cyflawni mewn cysylltiad â'r Contract hwn a'r cyfryw fanylion eraill ag y gall y Cleient yn rhesymol ofyn amdanynt

24.3. Rhaid i'r Cyflenwr a Phersonél y Cyflenwr gydymffurfio â'r cyfryw reolau, rheoliadau a gofynion (gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â threfniadau diogelwch) a all fod mewn grym o bryd i'w gilydd mewn perthynas ag ymddygiad Staff pan fyddant ar neu yng nghyffiniau unrhyw un o Safleoedd y Cleient.

24.4. Bydd penderfyniad y Cleient ynghylch p'un a ddylid gwrthod mynediad i unrhyw unigolyn i unrhyw un o Safleoedd y Cleient ac ynghylch p'un a yw'r Cyflenwr wedi methu â chydymffurfio ag Amod 24.3 yn derfynol.

24.5. Os bydd y Cyflenwr yn methu â chydymffurfio ag Amod 24.3 neu os bydd yn methu â gwneud hynny o fewn cyfnod rhesymol o amser ar ôl iddo gael hysbysiad i wneud hynny, caiff y Cleient derfynu'r Contract hwn yn unol ag Amod 44 ar yr amod bob amser na fydd terfynu'r Contract fel hyn yn effeithio ar unrhyw hawl i weithredu na rhwymedi sydd gan y Cleient neu a fydd ganddo ar ôl hynny.

24.6. Mae'r Cyflenwr yn cydnabod y bydd gan bob aelod o Bersonél y Cyflenwr sy'n rhan o'r gwaith o gyflawni'r Gwasanaethau awdurdod llawn i weithredu ar ran y Cyflenwr at bob diben sy'n gysylltiedig â'r Contract hwn ar yr amod bob amser, os bydd y Cleient ar unrhyw adeg yn anfodlon am unrhyw reswm ar ymddygiad neu berfformiad unrhyw unigolyn sy'n rhan o'r gwaith o gyflawni'r Gwasanaethau, bod yn rhaid i'r Cyflenwr, os bydd y Cleient yn gofyn iddo wneud hynny, ddarparu unigolyn cymwys arall i gyflawni'r Gwasanaethau heb unrhyw gost ychwanegol i'r Cleient.

24.7. Rhaid i'r Cyflenwr roi unigolyn arall yn lle unrhyw aelod o Bersonél y Cyflenwr y mae'r Cleient yn penderfynu'n rhesymol ei fod wedi methu â chyflawni ei ddyletswyddau â gofal a medrusrwydd rhesymol ar ôl cael hysbysiad gan y Cleient. Ar ôl i unrhyw aelod o Bersonél y Cyflenwr gael ei symud oddi ar Safle'r Cleient am unrhyw reswm, rhaid i'r Cyflenwr sicrhau y caiff rhywun arall sydd â'r hyfforddiant a'r sgiliau angenrheidiol i fodloni gofynion y Gwasanaethau ei roi yn ddi-oed yn lle'r unigolyn hwnnw. Ni fydd gan y Cleient unrhyw atebolrwydd i'r Cyflenwr na Phersonél y Cyflenwr am unrhyw golledion o unrhyw fath sy'n deillio o weithredu'r Amod hwn.

24.8. Rhaid i'r Cyflenwr gynnal cofnodion personél cyfredol mewn perthynas â Phersonél y Cyflenwr sy'n rhan o'r gwaith o ddarparu'r Gwasanaethau ac, os gofynnir iddo wneud hynny, ddarparu gwybodaeth resymol i'r Cleient am Bersonél y Cyflenwr. Rhaid i'r Cyflenwr sicrhau bob amser fod ganddo'r hawl i ddarparu'r cofnodion hyn i'r Cleient yn unol â'r Ddeddfwriaeth gymwys ynglŷn â Diogelu Data.

24.9. Rhaid i'r Cyflenwr ddarparu'r cyfryw wybodaeth ag y gall y Cleient o bryd i'w gilydd ofyn amdani am unrhyw asiant recriwtio neu gyflogaeth a ddefnyddir gan y Cyflenwr i gyflogi Personél i gyflawni'r Contract hwn gan gynnwys (heb gyfyngiad) wybodaeth am yr arferion a'r gweithdrefnau recriwtio neu gyflogaeth a ddefnyddir gan y cyfryw asiantaethau.

24.10. Mae'r Cyflenwr yn gwarantu ei fod wedi cydymffurfio â'r Gweithdrefnau Fetio Staff mewn perthynas â Phersonél y Cyflenwr a gyflogir ganddo i ddarparu'r Gwasanaethau ac na fydd yn cyflogi unrhyw unigolyn i ddarparu'r Gwasanaethau sydd wedi'i wahardd rhag darparu'r Gwasanaethau neu y mae ei ymddygiad neu ei gofnodion blaenorol yn awgrymu na fyddai'n addas i'w darparu.

25. **Gofynion amgylcheddol**

25.1. Rhaid i'r Cyflenwr:

25.1.1. rheoli gwastraff mewn ffordd gynaliadwy a pheidio â thrin, cadw na gwaredu unrhyw wastraff a gynhyrchir a/neu a gludir gan y Cyflenwr mewn cysylltiad â'r Contract hwn mewn modd sy'n debygol o niweidio iechyd a diogelwch unrhyw unigolyn neu'r amgylchedd a rhaid iddo gydymffurfio â'r holl Ddeddfwriaeth berthnasol.

25.1.2. cyflawni'r Contract hwn mewn modd sy'n arbed ynni, dŵr, pren, papur ac adnoddau eraill, yn lleihau gwastraff ac yn graddol ddileu'r defnydd o sylweddau sy'n teneuo'r osôn ac yn sicrhau y caiff cyn lleied â phosibl o nwyon tŷ gwydr, cyfansoddion organig anweddol a sylweddau eraill sy'n niweidio iechyd a'r amgylchedd eu rhyddhau;

25.1.3. yn ystod Cyfnod y Contract, cymryd y cyfryw gamau ag sy'n rhesymol ymarferol er mwyn osgoi (neu, os na ellir ei osgoi, leihau) niwed i'r amgylchedd.

26. **BUDD I'R GYMUNED**

26.1. Rhaid i'r Cyflenwr, yn ystod Cyfnod y Contract, sicrhau'r budd i'r gymuned a nodir yn ei Dendr fel sy'n ofynnol gan Weinidogion Cymru sy'n gweithredu'n rhesymol.

27. **Y GYMRAEG**

27.1. Mae'n ofynnol i'r Cleient, o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, gydymffurfio â'r safonau ymddwyn sy'n ymwneud â'r Gymraeg y mae Comisiynydd y Gymraeg yn ei hysbysu amdanynt o bryd i'w gilydd. Rhaid i'r Cyflenwr ddarparu'r Gwasanaethau yn unol â safonau'r Gymraeg yr hysbysir y Cleient amdanynt ac sy'n gymwys i'r Gwasanaethau o bryd i'w gilydd.

27.2. Heb effeithio ar Amod 27.1, rhaid i'r Cyflenwr hefyd gydymffurfio ag unrhyw ofynion eraill o ran y Gymraeg a nodir yn y Fanyleb.

28. **GWAHANIAETHU A CHYDRADDOLDEB**

28.1. Rhaid i'r Cyflenwr sicrhau ei fod yn cydymffurfio â holl ofynion perthnasol yr holl ddeddfau, rheoliadau a dyletswyddau presennol sy'n ymwneud â chydraddoldeb gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ac unrhyw Ddeddfwriaeth debyg arall ("Deddfwriaeth Cydraddoldeb") sydd mewn grym o bryd i'w gilydd ynghyd ag unrhyw ganllawiau neu godau ymarfer a gyhoeddir gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol a rhaid iddo hefyd gyflawni ei rwymedigaethau o dan y Contract hwn a darparu'r Gwasanaethau mewn modd sy'n gyson â pholisïau cydraddoldeb y Cleient.

28.2. Rhaid i'r Cyflenwr beidio â gwahaniaethu'n anghyfreithlon o fewn ystyr a chwmpas unrhyw ddeddf, deddfiad, gorchymyn neu reoliad sy'n ymwneud â gwahaniaethu (boed hynny ar sail oedran, hil, rhyw, crefydd, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol neu fel arall) ym maes cyflogaeth.

28.3. Rhaid i'r Cyflenwr ddarparu unrhyw wybodaeth y mae'r Cleient yn gofyn yn rhesymol amdani mewn perthynas â'r cyfryw Ddeddfwriaeth Cydraddoldeb i'r graddau y mae'n ymwneud â chyflawni'r Contract hwn.

28.4. Rhaid i'r Cyflenwr gymryd pob cam rhesymol er mwyn sicrhau y bydd holl Bersonél y Cyflenwr, wrth gyflawni'r Contract hwn, yn cydymffurfio â'r Amod 28 hwn.

28.5. Rhaid i'r Cyflenwr ddarparu'r cyfryw wybodaeth ag y gall y Cleient o bryd i'w gilydd ofyn amdani, am gadwyn gyflenwi'r Cyflenwr ar gyfer y nwyddau a'r Gwasanaethau a ddarperir mewn cysylltiad â'r Contract hwn.

29. **HAWLIAU DYNOL**

29.1. Rhaid i'r Cyflenwr beidio â chaniatáu (a rhaid iddo sicrhau na fydd Personél y Cyflenwr yn caniatáu) i unrhyw beth gael ei wneud a all olygu y bydd y Cleient yn gweithredu mewn ffordd sy'n anghydnaws â'r hawliau a geir yn y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol a Deddf Hawliau Dynol 1998 .

29.2. Rhaid i'r Cyflenwr bob amser gydymffurfio â darpariaethau Deddf Hawliau Dynol 1998 wrth gyflawni'r Contract hwn (a gwneud pob ymdrech resymol i sicrhau y bydd ei Bersonél yn cydymffurfio â hwy).

29.3. Rhaid i'r Cyflenwr gymryd, neu beidio â chymryd, y cyfryw gamau ag y gall y Cleient ofyn iddo eu cymryd er mwyn cydymffurfio â'i rwymedigaethau o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998.

30. **DIOGELU DATA PERSONOL**

30.1. Yn y Contract hwn, bydd i'r termau canlynol yr ystyr a roddwyd iddynt yn y UK GDPR: Rheolwr, Prosesydd, Gwrthrych Data, Data Personol, Proses, Mynediad Diawdurdod at Ddata Personol, Swyddog Diogelu Data.

30.2. Lle mae'r Fanyleb yn nodi na fydd darparu'r Gwasanaethau yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyflenwr Brosesu Data Personol ar ran y Cleient:

30.2.1. os bydd newid o ran cwmpas neu natur y Gwasanaethau yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyflenwr Brosesu Data Personol ar ran y Cleient, rhaid i'r Cyflenwr neu'r Cleient, yn ôl y digwydd, hysbysu'r Parti arall ar unwaith a bydd gweddill yr Amod 30 hwn yn gymwys. Rhaid i'r Cleient hysbysu'r Cyflenwr am ei gyfarwyddiadau ynglŷn â'r categorïau o Ddata Personol sydd i'w Prosesu a pha waith Prosesu sydd i'w wneud; a

30.2.2. i'r graddau y mae angen i'r Cyflenwr Brosesu Data Personol (ond nid ar ran y Cleient) er mwyn darparu'r Gwasanaethau y mae'n rhaid iddo wneud hynny yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data.

30.3. Lle mae'r Fanyleb yn nodi y bydd darparu'r Gwasanaethau yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyflenwr Brosesu Data Personol ar ran y Cleient, mae'r Partïon yn cydnabod, at ddibenion y

Ddeddfwriaeth Diogelu Data, mai'r Cleient yw'r Rheolwr ac mai'r Cyflenwr yw'r Prosesydd a bydd gweddill yr Amod 30 hwn yn gymwys.

30.4. Disgrifir yr unig weithgarwch Prosesu Data Personol yr awdurdodir y Cyflenwr i'w gyflawni yn y Fanyleb neu mae'n destun cymeradwyaeth ysgrifenedig ymlaen llaw gan y Cleient ac ni all y Cyflenwr ei bennu.

30.5. Bydd y Cyflenwr yn hysbysu'r Cleient ar unwaith os yw'n ystyried bod unrhyw gyfarwyddiadau a roddir gan y Cleient yn mynd yn groes i'r Ddeddfwriaeth Diogelu Data.

30.6. Bydd y Cyflenwr yn rhoi pob cymorth rhesymol i'r Cleient mewn unrhyw Asesiad Effaith Diogelu Data sy'n mynd rhagddo cyn ac ar ôl cychwyn unrhyw weithgarwch Prosesu. Gall y cyfryw gymorth, yn ôl disgresiwn y Cleient, gynnwys:

30.6.1. disgrifiad systematig o'r gweithrediadau Prosesu a ragwelir a'u diben;

30.6.2. asesiad o gymesuredd y gweithrediadau Prosesu a'r angen amdanynt mewn perthynas â'r Gwasanaethau;

30.6.3. asesiad o'r risgiau i hawliau a rhyddid Gwrthrychau Data; a

30.6.4. y mesurau a ragwelir ar gyfer mynd i'r afael â'r risgiau, gan gynnwys camau diogelu a mesurau a systemau ar gyfer sicrhau diogelwch Data Personol.

30.7. Bydd y Cyflenwr mewn perthynas ag unrhyw Ddata Personol a Brosesir mewn cysylltiad â'i rwymedigaethau o dan y Contract hwn:

30.7.1. yn prosesu'r Data Personol hynny yn unol ag Amod 30.4, oni fydd yn ofynnol i'r Cyflenwr wneud fel arall yn ôl y Gyfraith. Os bydd yn ofynnol, bydd y Cyflenwr yn hysbysu'r Cleient yn brydlon cyn Prosesu'r Data Personol oni chaiff ei wahardd rhag gwneud hynny gan Ddeddfwriaeth;

30.7.2. yn sicrhau bod Mesurau Diogelwch, sydd wedi'u hadolygu a'u cymeradwyo gan y Cleient fel y bo'n briodol, ar waith ganddo i ddiogelu yn erbyn Digwyddiad Colli Data gan ystyried:

(i) natur y data i'w diogelu;
(ii) y niwed y gallai Digwyddiad Colli Data ei gael;
(iii) datblygiadau technolegol; a
(iv) cost gweithredu unrhyw fesurau;

30.7.3. bydd y Cyflenwr, os yw'n ofynnol iddo hysbysu Gwrthrychau Data am ddiben a manylion y gweithgarwch Prosesu a wneir, yn cydweithio â'r Cleient i gytuno ar hysbysiad priodol sy'n cydymffurfio â'r Ddeddfwriaeth Diogelu Data. Mae'n rhaid i'r hysbysiad gael cymeradwyaeth ysgrifenedig y Cleient ymlaen llaw.

30.7.4. yn sicrhau nad yw Personél y Cyflenwr yn Prosesu Data Personol ac eithrio'n unol â'r Contract hwn;

30.7.5. yn sicrhau ei fod yn cymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod unrhyw aelodau o Bersonél y Cyflenwr sydd â mynediad at Ddata Personol yn ddibynadwy ac yn onest ac yn sicrhau eu bod:

(i) yn ymwybodol o ddyletswyddau'r Cyflenwr o dan yr Amod hwn a'u bod yn cydymffurfio â hwy;
(ii) yn destun ymgymeriadau cyfrinachedd priodol gyda'r Cyflenwr neu unrhyw Is-brosesydd;
(iii) yn cael eu hysbysu am natur gyfrinachol y Data Personol ac nad ydynt yn cyhoeddi nac yn datgelu unrhyw Ddata Personol i unrhyw drydydd parti oni chânt eu cyfarwyddo i wneud hynny'n ysgrifenedig gan y Cleient neu fel y caniateir fel arall gan y Contract hwn; a
(iv) wedi cael hyfforddiant digonol ar sut i ddefnyddio, diogelu, trin a gofalu am Ddata Personol;

30.7.6. peidio â throsglwyddo Data Personol y tu allan i'r UE heb ganiatâd ysgrifenedig y Cleient ymlaen llaw ac oni fodlonir yr amodau canlynol:

(i) mae'r Cleient neu'r Cyflenwr wedi rhoi camau diogelu priodol ar waith mewn perthynas â throsglwyddo'r data (p'un ai'n unol ag Erthygl 46 o'r UK GDPR neu Erthygl 37 o'r LED) fel y pennir gan y Cleient;
(ii) mae gan y Gwrthrych Data hawliau gorfodadwy a rhwymedïau cyfreithiol effeithiol;
(iii) mae'r Cyflenwr yn cydymffurfio â'i rwymedigaethau o dan y Ddeddfwriaeth Diogelu Data drwy ddarparu lefel ddigonol o ddiogelwch ar gyfer unrhyw Ddata Personol a drosglwyddir (neu, os nad yw'n rhwym wrth hynny, mae'n gwneud ei orau i helpu'r Cleient i gyflawni ei rwymedigaethau); a
(iv) mae'r Cyflenwr yn cydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddiadau rhesymol y mae'r Cleient yn rhoi gwybod amdanynt ymlaen llaw mewn perthynas â Phrosesu'r Data Personol;

30.7.7. yn unol â chyfarwyddyd ysgrifenedig y Cleient, dileu neu ddychwelyd Data Personol (ac unrhyw gopïau ohonynt) i'r Cleient pan fydd y Contract yn cael ei derfynu neu'n dod i ben onid yw'n ofynnol i'r Cyflenwr gadw'r Data Personol yn ôl y Gyfraith.

30.8. Yn ddarostyngedig i Amod 30.9, bydd y Cyflenwr yn hysbysu'r Cleient ar unwaith os bydd, mewn perthynas â'r Contract hwn:

30.8.1. yn derbyn Cais gan Wrthrych Data am Wybodaeth (neu Gais honedig gan Wrthrych Data am Wybodaeth)

30.8.2. yn derbyn cais i gywiro neu ddileu unrhyw Ddata Personol neu atal gweithgarwch prosesu;

30.8.3. yn derbyn unrhyw gais, cwyn neu ohebiaeth arall sy'n ymwneud â rhwymedigaethau'r naill Barti a'r llall o dan y Ddeddfwriaeth Diogelu Data;

30.8.4. yn derbyn unrhyw ohebiaeth gan y Comisiynydd Gwybodaeth neu unrhyw awdurdod rheoleiddio arall mewn perthynas â Data Personol a Brosesir o dan y Contract hwn;

30.8.5. yn derbyn cais gan unrhyw drydydd parti i ddatgelu Data Personol lle mae angen cydymffurfio â'r cyfryw gais neu lle yr honnir bod angen cydymffurfio â'r cyfryw gais gan Ddeddfwriaeth; neu

30.8.6. yn dod yn ymwybodol o Ddigwyddiad Colli Data.

30.9. Bydd rhwymedigaeth y Cyflenwr i hysbysu o dan Amod 30.8 yn cynnwys darparu gwybodaeth bellach i'r Cleient fesul tipyn, wrth i fanylion ddod ar gael.

30.10. Gan ystyried natur y gweithgarwch Prosesu, bydd y Cyflenwr yn rhoi cymorth llawn i'r Cleient mewn perthynas â rhwymedigaethau'r naill Barti a'r llall o dan Ddeddfwriaeth Diogelu Data ac unrhyw gŵyn, gohebiaeth neu gais a wneir o dan Amod 30.8 (ac i'r graddau y mae'n bosibl o fewn yr amserlen resymol sydd ei hangen ar y Cleient) gan gynnwys rhoi'r canlynol yn brydlon:

30.10.1. manylion llawn a chopïau o'r gŵyn, yr ohebiaeth neu'r cais i'r Cleient;

30.10.2. y cyfryw gymorth ag y gofynnir amdano'n rhesymol gan y Cleient er mwyn galluogi'r Cleient i gydymffurfio â Chais gan Wrthrych Data am Wybodaeth o fewn yr amserlenni perthnasol a nodir yn y Ddeddfwriaeth Diogelu Data;

30.10.3. unrhyw Ddata Personol a ddelir ganddo mewn perthynas â Gwrthrych Data pan fydd y Cleient yn gwneud cais amdanynt;

30.10.4. cymorth y mae'r Cleient yn gofyn amdano yn dilyn unrhyw Ddigwyddiad Colli Data;

30.10.5. cymorth y mae'r Cleient yn gofyn amdano mewn perthynas ag unrhyw gais gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth neu unrhyw ymgynghori gan y Cleient â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

30.11. Bydd y Cyflenwr yn cadw cofnodion a gwybodaeth gyflawn a chywir i ddangos ei fod yn cydymffurfio â'r Amod 30 hwn. Nid yw'r gofyniad hwn yn berthnasol os yw'r Cyflenwr yn cyflogi llai na 250 aelod o staff heblaw o dan yr amgylchiadau canlynol:

30.11.1. mae'r Cleient yn nodi nad yw'r gweithgarwch Prosesu yn achlysurol; neu

30.11.2. mae'r Cleient yn nodi bod y gweithgarwch Prosesu yn cynnwys categorïau arbennig o ddata fel y cyfeirir atynt yn Erthygl 9(1) o'r UK GDPR neu Ddata Personol sy'n ymwneud â chollfarnau a throseddau y cyfeirir atynt yn Erthyglau 10 o'r UK GDPR; neu

30.11.3. mae'r Cleient yn pennu bod y gweithgarwch Prosesu yn debygol o arwain at risg i hawliau a rhyddid Gwrthrychau Data.

30.12. Bydd y Cyflenwr yn caniatáu i'r Cleient neu archwilydd dynodedig y Cleient archwilio ei weithgarwch Prosesu Data.

30.13. Bydd y Cyflenwr yn penodi swyddog diogelu data os yw'n ofynnol gan ddeddfwriaeth Diogelu Data.

30.14. Cyn caniatáu i unrhyw Is-brosesydd Brosesu unrhyw Ddata Personol sy'n gysylltiedig â'r Contract hwn, rhaid i'r Cyflenwr wneud y canlynol:

30.14.1. hysbysu'r Cleient yn ysgrifenedig o'r Is-brosesydd a'r gweithgarwch Prosesu bwriadedig;

30.14.2. cael caniatâd ysgrifenedig y Cleient;

30.14.3. ymrwymo i gytundeb ysgrifenedig â'r Is-brosesydd sy'n dwyn i rym y telerau a nodir yn yr Amod 30 hwn fel y maent yn berthnasol i'r Is-brosesydd; a

30.14.4. rhoi'r cyfryw wybodaeth ag y gall fod ei hangen yn rhesymol ar y Cleient am yr Is-brosesydd.

30.15. Bydd y Cyflenwr yn parhau'n gwbl atebol am weithredoedd neu hepgoriadau unrhyw Is-brosesydd.

30.16. Mae'n ofynnol i'r Cleient ar unrhyw adeg drwy roi o leiaf 30 Diwrnod Gwaith o rybudd ddiwygio'r Amod hwn drwy ei ddisodli ag unrhyw gymalau rheolwr i Brosesydd safonol cymwys neu delerau tebyg sy'n rhan o gynllun ardystio perthnasol (a fydd yn berthnasol pan gânt eu hatodi i'r Contract hwn).

30.17. Mae'r Partïon yn cytuno i ystyried unrhyw ganllawiau a gyhoeddir gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Caiff y Cleient drwy roi o leiaf 30 Diwrnod Gwaith o rybudd i'r Cyflenwr ddiwygio'r Contract hwn er mwyn sicrhau ei fod yn cydymffurfio ag unrhyw ganllawiau a gyhoeddir gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

30.18. Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, ni fydd unrhyw beth yn y Contract hwn yn rhyddhau'r Cyflenwr o'i gyfrifoldebau a'i rwymedigaethau uniongyrchol ei hun o dan y Ddeddfwriaeth Diogelu Data.

30.19. Bydd darpariaethau'r Amod 30 hwn yn gymwys tra pery'r Contract hwn ac am gyfnod amhenodol ar ôl iddo ddod i ben neu ar ôl iddo gael ei derfynu.

31. **CYFRINACHEDD**

31.1. Mae'r Cyflenwr yn cydnabod bod unrhyw Wybodaeth Gyfrinachol a geir gan y Cleient neu ei Bersonél neu sy'n ymwneud ag ef neu â hwy yn eiddo i'r Cleient.

31.2. Ac eithrio i'r graddau a nodir yn yr Amod 31 hwn neu lle y caniateir datgelu Gwybodaeth Gyfrinachol yn benodol mewn rhan arall o'r Contract hwn, rhaid i bob Parti:

31.2.1. trin Gwybodaeth Gyfrinachol y Parti arall yn gyfrinachol a'i diogelu yn unol â hynny; a

31.2.2. peidio â datgelu Gwybodaeth Gyfrinachol y Parti arall i unrhyw berson arall heb gael caniatâd ysgrifenedig y Parti hwnnw (neu'r perchennog, os yw'n wahanol) ymlaen llaw.

31.3. Ni fydd Amod 31.2 yn gymwys i'r graddau

31.3.1. bod datgelu gwybodaeth o'r fath yn ofyniad o dan y gyfraith a osodir ar y Parti sy'n datgelu'r wybodaeth, gan gynnwys unrhyw ofynion i ddatgelu gwybodaeth o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth neu'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol yn unol ag Amod 33 neu ddatgelu gwybodaeth i awdurdod rheoliadol (gan gynnwys heb gyfyngiad Archwilio Cymru);

31.3.2. bod y cyfryw wybodaeth ym meddiant y Parti sy'n datgelu'r wybodaeth heb rwymedigaeth cyfrinachedd cyn iddi gael ei datgelu gan berchennog y wybodaeth;

31.3.3. bod y cyfryw wybodaeth ar gael i'r cyhoedd pan ddatgelwyd y wybodaeth ac eithrio drwy dorri'r Contract hwn; neu

31.3.4. y caiff ei datblygu'n annibynnol heb fynediad at Wybodaeth Gyfrinachol y Parti arall.

31.4. Dim ond i Bersonél y Cyflenwr sy'n ymwneud yn uniongyrchol â darparu'r Gwasanaethau ac y mae angen iddynt wybod y Wybodaeth Gyfrinachol y caiff y Cyflenwr ddatgelu Gwybodaeth Gyfrinachol y Cleient, a rhaid i'r Cyflenwr sicrhau bod y cyfryw aelodau o'i Bersonél yn ymwybodol o'r rhwymedigaethau hyn ynglŷn â chyfrinachedd ac yn cydymffurfio â hwy a'u bod yn rhwym wrth rwymedigaethau cyfrinachedd sy'n cyfateb i'r rhai a nodir yn yr Amod 31 hwn

31.5. Ni chaiff y Cyflenwr ddefnyddio unrhyw Wybodaeth Gyfrinachol o eiddo'r Cleient a dderbyniwyd ganddo ac eithrio at ddibenion y Contract hwn a rhaid iddo sicrhau na fydd Personél y Cyflenwr yn ei ddefnyddio.

31.6. Mae'r Cyflenwr yn cytuno (ac eithrio fel sy'n ofynnol o dan Ddeddfwriaeth neu er mwyn cyfarwyddo cynghorwyr proffesiynol mewn cysylltiad â'r Contract hwn a fydd yn rhwym wrth rwymedigaethau cyfrinachedd sy'n cyfateb i'r rhai a nodir yn yr Amod 31 hwn) i beidio â gwneud y canlynol:

31.6.1. datgelu na chaniatáu datgelu unrhyw fanylion am y Contract hwn i'r cyfryngau newyddion nac unrhyw drydydd parti ac eithrio Personél y Cyflenwr;

31.6.2. datgelu bod y Cleient yn un o gleientiaid y Cyflenwr; neu

31.6.3. defnyddio enw a/neu frand y Cleient i hyrwyddo unrhyw ymgyrch farchnata nac wrth gyhoeddi unrhyw archebion, heb gael caniatâd ysgrifenedig y Cleient ymlaen llaw.

31.7. Ar gais ysgrifenedig y Cleient, rhaid i'r Cyflenwr sicrhau bod yr aelodau hynny o Bersonél y Cyflenwr a nodir yng nghais y Cleient yn llofnodi Ymgymeriad Cyfrinachedd cyn i unrhyw waith ddechrau yn unol â'r Contract hwn.

31.8. Os bydd y Cyflenwr yn methu â chydymffurfio â'r Cymal 31 hwn, mae'r Cleient yn cadw'r hawl i derfynu'r Contract hwn drwy rybudd ysgrifenedig ar unwaith.

## 32. DIOGELWCH GWYBODAETH GYFRINACHOL

32.1. Er mwyn sicrhau na fydd unrhyw berson heb awdurdod yn cael gafael ar unrhyw Wybodaeth Gyfrinachol a geir wrth gyflawni'r Contract hwn rhaid i'r Cyflenwr:

32.1.1. cydymffurfio â gofynion diogelwch y Cleient a nodir yn y Fanyleb neu fel y cytunwyd arnynt fel arall yn ysgrifenedig; a

32.1.2. mae'n cytuno i gynnal systemau diogelwch priodol, a all gael eu hadolygu a'u cymeradwyo gan y Cleient.

32.2. Bydd y Cyflenwr yn hysbysu'r Cleient ar unwaith am unrhyw achos o dorri diogelwch mewn perthynas â Gwybodaeth Gyfrinachol a gafwyd neu a broseswyd wrth gyflawni'r Contract hwn a bydd yn cadw cofnod o achosion o'r fath. Rhaid i'r Cyflenwr wneud pob ymdrech resymol i gael y cyfryw Wybodaeth Gyfrinachol yn ôl sut bynnag y mae wedi'i chofnodi. Mae'r rhwymedigaeth hon yn ychwanegol at rwymedigaethau'r Cyflenwr o dan Amodau 30 a 31.

32.3. Rhaid i'r Cyflenwr, ar ei draul ei hun, gydweithredu â'r Cleient mewn unrhyw ymchwiliad y mae'r Cleient o'r farn bod angen ei gynnal o ganlyniad i unrhyw achos o dorri diogelwch mewn perthynas â Gwybodaeth Gyfrinachol.

32.4. Caiff y Cleient (gan weithredu'n rhesymol ac yn gymesur) ofyn i'r Cyflenwr newid neu ddiweddaru unrhyw systemau diogelwch ar unrhyw adeg yn ystod Cyfnod y Contract.

33. **RHYDDID GWYBODAETH**

33.1. Mae'r Cyflenwr yn cydnabod bod y Cleient yn ddarostyngedig i ofynion y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol a rhaid iddo gynorthwyo'r Cleient a chydweithredu ag ef (ar draul y Cyflenwr) er mwyn galluogi'r Cleient i gydymffurfio â'r gofynion hyn o ran datgelu gwybodaeth.

33.2. Rhaid i'r Contractwr wneud y canlynol a sicrhau bod ei Bersonél yn gwneud y canlynol:

33.2.1. hysbysu'r Cleient am unrhyw Geisiadau am Wybodaeth mewn cysylltiad â'r Contract hwn y mae wedi'u cael cyn gynted ag y bo'n ymarferol a, sut bynnag, o fewn dau (2) Ddiwrnod Gwaith i gael Cais am Wybodaeth a chydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddiadau a ddarperir gan y Cleient;

33.2.2. darparu copi o'r holl Wybodaeth yn ei feddiant neu ei bŵer i'r Cleient ar y ffurf y mae'r Cleient yn gofyn amdani mewn perthynas â Chais am Wybodaeth o fewn pum (5) diwrnod gwaith (neu'r cyfryw gyfnod arall ag a bennir gan y Cleient) ar ôl i'r Cleient ofyn am y Wybodaeth honno; a

33.2.3. darparu pob cymorth angenrheidiol ag y mae'r Cleient yn gofyn yn rhesymol amdano er mwyn galluogi'r Cleient i ymateb i Gais am Wybodaeth o fewn y cyfnod ar gyfer cydymffurfiaeth a nodwyd yn adran 10 o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. neu Reoliad 5(2) o'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol.

33.3. At ddibenion Amod 33.2, bydd "cymorth rhesymol" yn cynnwys golygu dogfennaeth o fewn pum (5) Diwrnod Gwaith ar ôl cael cais gan y Cleient i wneud hynny.

33.4. Y Cleient fydd yn gyfrifol am benderfynu, yn ôl ei ddisgresiwn absoliwt:

33.4.1. a yw'r Wybodaeth Gyfrinachol a/neu unrhyw Wybodaeth arall wedi'i heithrio rhag cael ei datgelu o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth neu'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol; a

33.4.2. a ddylid ei datgelu mewn ymateb i Gais am Wybodaeth.

33.5. Ni chaiff y Cyflenwr ymateb yn uniongyrchol i Gais am Wybodaeth o dan unrhyw amgylchiadau oni chaiff ei awdurdodi i wneud hynny gan y Cleient.

33.6. Rhaid i'r Cyflenwr sicrhau y caiff yr holl wybodaeth a gyflwynir mewn cysylltiad â'r broses dendro neu tra bydd y Contract hwn mewn grym neu sy'n ymwneud â'r Contract hwn ei chadw i'w datgelu a rhaid iddo ganiatáu i'r Cleient archwilio'r cyfryw gofnodion ag y gall y Cleient ofyn amdanynt o bryd i'w gilydd.

33.7. Mae'r Cyflenwr yn cydnabod bod unrhyw restrau neu amserlenni a ddarperir ganddo fel rhan o'r broses dendro sy'n nodi Gwybodaeth Gyfrinachol y Cyflenwr yn rhai dangosol yn unig a'i

bod yn bosibl y bydd angen i'r Cleient, serch hynny, ddatgelu Gwybodaeth Gyfrinachol yn unol â'r Amod 33 hwn.

34. **CYHOEDDUSRWYDD**

34.1. Ac eithrio gyda chaniatâd ysgrifenedig y Parti arall, na chaiff ei atal na'i ohirio yn afresymol, ni chaiff y naill Barti na'r llall wneud unrhyw ddatganiadau i'r wasg na rhoi cyhoeddusrwydd i'r Contract hwn na'r Gwasanaethau (ac eithrio fel sy'n rhesymol angenrheidiol er mwyn darparu'r Gwasanaethau) mewn unrhyw ffordd.

34.2. Rhaid i bob Parti gymryd pob cam rhesymol er mwyn sicrhau bod pob aelod o Bersonél y naill Barti a'r llall yn cydymffurfio â darpariaethau Amod 34.1

34.3. Ni chaiff y naill Barti na'r llall ddefnyddio logos busnes na chyhoeddi logos y Parti arall mewn print nac yn electronig heb gael caniatâd ysgrifenedig penodol y Parti arall na chaiff ei atal na'i ohirio yn afresymol.

34.4. Er gwaethaf darpariaethau Amod 34.1, bydd gan y Cleient yr hawl i roi cyhoeddusrwydd i'r Contract hwn yn unol ag unrhyw rwymedigaeth gyfreithiol sydd ar y Cleient, gan gynnwys unrhyw archwiliad o'r Contract hwn gan Archwilio Cymru a darpariaethau'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol.

34.5. Mae'r Partïon yn cydnabod bod gan Archwilio Cymru yr hawl i gyhoeddi manylion y Contract hwn (gan gynnwys Gwybodaeth Gyfrinachol) yn ei hadroddiadau perthnasol i'r graddau a ganiateir ac sy'n ofynnol gan y gyfraith.

35. **RHEOLI NEWID**

**Newid Cyffredinol**

35.1. Mae gan y Cleient yr hawl i gynnig unrhyw amrywiad(au) i'r Gwasanaethau (gan gynnwys cais i'r Cyflenwr i roi'r gorau i ddarparu unrhyw un neu fwy o'r Gwasanaethau neu unrhyw ran ohonynt) yn unol â'r Amod 35 hwn. Os bydd y Cleient am gynnig amrywiad i'r Gwasanaethau ("Amrywiad"), rhaid i'r Cleient gyflwyno Cais i Reoli Newid i'r Cyflenwr. Ni thybir bod unrhyw Amrywiad wedi digwydd, ac ni fydd gan y Cyflenwr hawl i unrhyw daliad ychwanegol, oni chydymffurfir â'r gweithdrefnau yn yr Amod 35 hwn.

35.2. Rhaid i'r Cyflenwr ddarparu ar gyfer unrhyw Amrywiad(au) sy'n ofynnol gan y Cleient, ar yr amod mai dim ond ar y sail a nodir yn yr Amod 35 hwn y bydd ganddo hawl i daliad am unrhyw gostau ychwanegol y cytunwyd arnynt y mae'n mynd iddynt o ganlyniad i hynny.

35.3. Rhaid i'r Cais i Reoli Newid nodi'r Amrywiad i'r Gwasanaethau sy'n ofynnol gan y Cleient yn fanwl a gofyn am amcangyfrif cost (yr "Amcangyfrif") o'r costau sy'n deillio'n uniongyrchol o'r Amrywiad.

35.4. Rhaid i'r Cyflenwr ddarparu'r amcangyfrif i'r Cleient o fewn deg (10) Diwrnod Gwaith ar ôl iddo gael y Cais i Reoli Newid neu'r cyfryw gyfnod hirach ag sy'n rhesymol o dan yr holl amgylchiadau. Rhaid i'r Amcangyfrif gynnwys datganiad o'r canlynol:

35.4.1. effaith yr Amrywiad arfaethedig ar y ffordd y darperir y Gwasanaethau;

35.4.2. unrhyw ddiwygiad sydd ei angen i'r Contract hwn er mwyn darparu ar gyfer yr Amrywiad arfaethedig;

35.4.3. cost gyffredinol gweithredu'r Amrywiad arfaethedig neu'r arbedion o'i weithredu. Caiff cost yr Amrywiad ei phennu (hyd y gellir) drwy gyfeirio at y cyfraddau a'r prisiau a nodir yn y Dogfennau Tendr ac i'r graddau y mae'n amhosibl gwneud hynny, caiff cost yr Amrywiad ei phennu ar sail deg a rhesymol gan ystyried y cyfraddau, y prisiau a'r arferion yn y diwydiant y mae'r Gwasanaethau yn ymwneud ag ef a dyletswydd gyffredinol y Cyflenwr i sicrhau costeffeithlonrwydd o dan y Contract hwn; a

35.4.4. unrhyw wybodaeth arall y mae'r Cleient yn gofyn amdani'n rhesymol neu yr ymddengys i'r Cyflenwr ei bod yn berthnasol.

35.5. Cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl i'r Cyflenwr ddarparu'r Amcangyfrif i'r Cleient, rhaid i'r Cleient a'r Cyflenwr gyfarfod er mwyn trafod unrhyw faterion sy'n codi o'r Cais i Reoli Newid neu'r Amcangyfrif neu gytuno arnynt.

35.6. Rhaid i'r Partïon geisio cytuno ar delerau'r Amcangyfrif. Os na all y Partïon gytuno ar unrhyw ran o gynnwys yr Amcangyfrif o fewn cyfnod rhesymol o amser i'r cyfarfod o dan Amod 35.5, caiff y Cais i Reoli Newid ei dynnu'n ôl gan y Cleient.

35.7. Cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl cytuno ar unrhyw ran o gynnwys yr Amcangyfrif yn unol ag Amod 35.6, rhaid i'r Cleient:

35.7.1. cadarnhau'n ysgrifenedig ei fod am fwrw ymlaen â'r Cais i Reoli Newid (neu'r rhan honno ohono y cytunwyd arni neu a bennwyd fel uchod); neu

35.7.2. tynnu'r Cais i Reoli Newid yn ôl (neu'r rhan berthnasol).

35.8. Os bydd y Cleient yn cadarnhau ei fod am fwrw ymlaen â'r Cais i Reoli Newid, tybir bod y Gwasanaethau wedi'u hamrywio yn unol â hynny. Caiff cost ychwanegol gweithredu'r Amrywiad (fel y cytunwyd arno neu fel y'i pennwyd) neu'r arbedion sy'n deillio o'i weithredu ei/eu hychwanegu at y Pris neu ei/eu didynnu ohono.

35.9. Os na fydd y Cleient wedi cadarnhau'r Cais i Reoli Newid na'i dynnu'n ôl o fewn ugain (20) Diwrnod Gwaith i'r dyddiad y cytunwyd ar unrhyw ran o'r Amcangyfrif yn unol ag Amod 35.7, tybir bod y Cais i Reoli Newid wedi'i dynnu'n ôl gan y Cleient.

35.10. Ni fydd y Cleient yn atebol am unrhyw gostau yr eir iddynt gan y Cyflenwr wrth weithredu'r weithdrefn a nodir yn yr Amod 35 hwn.

**Newid Deddfwriaethol**

35.11. Y Cyflenwr fydd yn talu cost cydymffurfio â'r holl Ddeddfwriaeth ac unrhyw ddiwygiadau iddi sy'n ymwneud â darparu'r Gwasanaethau. Os bydd newid mewn Deddfwriaeth yn golygu bod angen newid y ffordd y cyflawnir y Contract hwn gan y Cyflenwr yn sylweddol ac ar yr amod:

35.11.1. bod y cyfryw newid Deddfwriaethol yn ymwneud yn uniongyrchol â chyflawni'r Contract cyfan neu ran ohono ac nad yw'n golygu bod angen newid drwy'r busnes neu'r sefydliad cyfan i'r nwyddau a'r gwasanaethau a ddarperir yn gyffredinol gan y Cyflenwr na'r gweithdrefnau a'r prosesau a ddefnyddir gan y Cyflenwr wrth gynnal ei fusnes a

35.11.2. na allai'r newid Deddfwriaethol hwnnw fod wedi cael ei ragweld gan y Cyflenwr ar y Dyddiad Dechrau,

rhaid i'r Partïon gynnal trafodaethau er mwyn gwneud y cyfryw addasiadau i'r Pris ag a all fod yn angenrheidiol er mwyn digolledu'r Cyflenwr am unrhyw gostau ychwanegol ag sy'n rhesymol ac yn angenrheidiol yr eir iddynt gan y Cyflenwr wrth weithredu'r cyfryw newidiadau. Os na all y Partïon gytuno ar y cyfryw gostau o fewn cyfnod rhesymol o amser, caiff y Cleient, yn ôl ei ddisgresiwn, derfynu'r Contract hwn yn gyfan gwbl neu'n rhannol drwy hysbysiad.

## 36. GWRTHDARO BUDDIANNAU

36.1. Rhaid i'r Cyflenwr gymryd camau priodol er mwyn sicrhau na roddir y Cyflenwr ei hun nac unrhyw aelod o'i Bersonél mewn sefyllfa lle mae gwrthdaro gwirioneddol neu lle y gall fod gwrthdaro gwirioneddol, neu wrthdaro a allai godi rhwng buddiannau ariannol neu bersonol y cyfryw unigolion a'r dyletswyddau sy'n ddyledus i'r Cleient o dan ddarpariaethau'r Contract hwn. Rhaid i'r Cyflenwr ddatgelu manylion llawn unrhyw wrthdaro buddiannau o'r fath a all godi.

36.2. Ystyrir bod methu â datgelu'r wybodaeth hon yn achos tor-Cytundeb perthnasol na ellir ei unioni a gellir terfynu'r Contract hwn yn unol ag Amod 44.

## 37. RHODDION LLWGR, TALIADAU COMISIWN AC ATAL LLWGRWOBRWYO

37.1. Ni fydd y Cyflenwr, mewn cysylltiad â'r Contract hwn, yn cyflawni Gweithred Waharddedig a bydd yn sicrhau na fydd unrhyw aelod o'i Bersonél yn cyflawni gweithred o'r fath

37.2. Mae'r Cyflenwr yn gwarantu, yn haeru ac yn addo nad yw'n ymwybodol o unrhyw fantais ariannol nac unrhyw fantais arall sy'n cael ei rhoi i unrhyw berson sy'n gweithio i'r Cleient neu a gyflogir ganddo, neu fod cytundeb i'r perwyl hwnnw, mewn cysylltiad â dyfarnu'r Contract hwn i'r Cyflenwr, heb gynnwys unrhyw drefniadau y mae eu manylion llawn wedi'u datgelu'n ysgrifenedig i'r Cleient cyn dyfarnu'r Contract hwn i'r Cyflenwr.

37.3. Rhaid i'r Cyflenwr:

37.3.1. os gofynnir iddo wneud hynny, roi unrhyw gymorth rhesymol i'r Cleient er mwyn galluogi'r Cleient i gyflawni unrhyw weithgaredd sy'n ofynnol gan unrhyw lywodraeth neu asiantaeth berthnasol mewn unrhyw awdurdodaeth berthnasol er mwyn cydymffurfio â Deddf Llwgrwobrwyo 2010;

37.3.2. o fewn 14 Diwrnod Gwaith i ddyddiad y Llythyr Dyfarnu, a phob blwyddyn ar ôl hynny, gadarnhau i'r Cleient yn ysgrifenedig (caiff y cyfryw dystysgrif ei llofnodi gan un o uwch swyddogion y Cyflenwr) fod y Cyflenwr a phob person sy'n gysylltiedig ag ef neu bersonau eraill sy'n cyflenwi nwyddau neu'n darparu gwasanaethau mewn cysylltiad â'r Contract hwn yn cydymffurfio â'r Amod 37 hwn. Rhaid i'r Cyflenwr ddarparu'r cyfryw dystiolaeth ategol o gydymffurfiaeth ag y gall y Cleient yn rhesymol ofyn amdani.

37.4. Bydd gan y Cyflenwr bolisi gwrthlwgrwobrwyo (a gaiff ei ddatgelu i'r Cleient) er mwyn atal unrhyw aelod o Bersonél y Cyflenwr rhag cyflawni Gweithred Waharddedig a rhaid iddo ei orfodi lle y bo'n briodol.

37.5. Os amheuir neu os gwyddys fod Amod 37.1 neu Amod 37.2 wedi'i dorri, rhaid i'r Cyflenwr hysbysu'r Cleient ar unwaith.

37.6. Os bydd y Cyflenwr yn hysbysu'r Cleient ei fod yn amau neu'n gwybod y gall Amod 37.1 neu Amod 37.2 fod wedi'i dorri, rhaid i'r Cyflenwr ymateb yn brydlon i ymholiadau'r Cleient, cydweithredu ag unrhyw ymchwiliad a chaniatáu i'r Cleient archwilio llyfrau archwilio, cofnodion ac unrhyw ddogfennaeth berthnasol arall.

37.7. Caiff y Cleient derfynu'r Contract hwn drwy hysbysiad ar unwaith os bydd y Cyflenwr neu Bersonél y Cyflenwr (ym mhob achos p'un a ydynt yn gweithredu gyda gwybodaeth y Cyflenwr ai peidio) yn torri Amod 37.1 neu Amod 37.2.

37.8. Rhaid i unrhyw hysbysiad terfynu o dan Amod 37.7 nodi'r canlynol:

37.8.1. natur y Weithred Waharddedig;

37.8.2. enw'r parti y mae'r Cleient yn credu ei fod wedi cyflawni'r Weithred Waharddedig;

37.8.3. y dyddiad y bydd y Contract hwn yn terfynu.

37.9. Er gwaethaf Amod 47, y Cleient fydd yn penderfynu ar unrhyw anghydfod sy'n ymwneud â:

37.9.1. dehongli Amod 37; neu

37.9.2. swm neu werth unrhyw rodd, gydnabyddiaeth neu gomisiwn,

a bydd ei benderfyniad yn derfynol.

37.10. Ni fydd terfynu'r Contract hwn o dan Amod 37.7 yn effeithio ar unrhyw hawl neu rwymedi sydd gan y Cleient eisoes neu a fydd ganddo ar ôl hynny ac mae'r Partïon yn cytuno y caiff y Cleient adennill oddi wrth y Cyflenwr swm neu werth unrhyw rodd, cydnabyddiaeth neu gomisiwn a roddwyd yn groes i'r Amod 37 hwn, ynghyd â'r holl gostau i'r Cleient sy'n gysylltiedig â therfynu neu lunio contract amgen â chyflenwr arall gan gynnwys costau cysylltiedig unrhyw broses aildendro neu ail-hysbysebu.

## 38. TWYLL

38.1. Rhaid i'r Cyflenwr gymryd pob cam rhesymol gan gynnwys pob ymholiad ac ymchwiliad rhagarweiniol er mwyn atal y risg o dwyll i'r Cleient.

38.2. Os bydd y cyfryw gamau rhagarweiniol yn awgrymu'r posibilrwydd o dwyll neu afreoleidd-dra arall sy'n effeithio ar adnoddau'r Cleient, rhaid i'r Cyflenwr hysbysu'r Cleient ar unwaith.

## 39. INDEMNIAD

39.1. Bydd y Cyflenwr yn indemnio ac yn parhau i indemnio'r Cleient yn llawn rhag pob cost, atebolrwydd, dirwy, traul, iawndal a cholled (gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i unrhyw ffioedd a threuliau cyfreithiol ac unrhyw ffioedd a threuliau proffesiynol eraill a ddyfernir yn erbyn y Cleient neu yr eir iddynt neu a delir ganddo) uniongyrchol o ganlyniad i unrhyw un o'r canlynol neu mewn cysylltiad â hwy:

39.1.1. unrhyw hawliad a wneir yn erbyn y Cleient gan drydydd parti sy'n deillio o ddarparu’r Gwasanaethau neu mewn cysylltiad â'u darparu, i'r graddau bod y cyfryw hawliad yn deillio o dorri'r Contract hwn, ei gyflawni mewn modd esgeulus, methiant i'w gyflawni neu oedi cyn ei gyflawni, gan y Cyflenwr neu Bersonél y Cyflenwr;

39.1.2. unrhyw hawliad a wneir yn erbyn y Cleient am achos gwirioneddol neu honedig o dorri Hawliau Eiddo Deallusol neu mewn cysylltiad ag achos gwirioneddol neu honedig o dorri Hawliau Eiddo Deallusol trydydd parti sy'n deillio o'r Gwasanaethau neu mewn cysylltiad â hwy;

39.1.3. unrhyw fethiant i gydymffurfio ag Amod 30 (Diogelu Data Personol);

39.1.4. unrhyw fethiant i gydymffurfio ag unrhyw Ddeddfwriaeth; a

39.1.5. unrhyw ddifrod a achosir i Safle'r Cleient neu ei gyfarpar sy'n deillio o weithred neu anwaith gan y Cyflenwr neu Bersonél y Cyflenwr.

39.2. Os bydd taliad sy'n ddyledus gan y Cyflenwr o dan yr Amod 39 hwn yn agored i dreth, (boed hynny drwy asesiad uniongyrchol neu drwy ei chadw yn ôl yn y tarddle), bydd gan y Cleient yr hawl i gael gan y Cyflenwr y cyfryw symiau ag a fydd yn sicrhau bod y swm net, ar ôl treth, a dderbynnir gan y Cleient mewn perthynas â'r taliad, yn cyfateb i'r swm y byddai wedi'i gael pe na bai'r taliad yn agored i dreth.

## 40. CYFYNGIAD AR ATEBOLRWYDD

40.1. Ni fydd dim yn y Contract hwn yn cyfyngu nac yn eithrio atebolrwydd y naill Barti neu'r llall am y canlynol:

40.1.1. marwolaeth nac anaf personol i unrhyw unigolyn sy'n deillio o esgeulustod;

40.1.2. twyll neu gamliwio twyllodrus; neu

40.1.3. unrhyw weithred neu anwaith arall, na ellir cyfyngu atebolrwydd amdani/amdano o dan unrhyw gyfraith gymwys.

40.2. Yn ddarostyngedig bob amser i Amod 40.1, ac er gwaethaf unrhyw ddarpariaeth arall a nodir yn y Contract hwn, ni fydd atebolrwydd cyfan y Cyflenwr (p'un a yw o dan gontract, camwedd (gan gynnwys heb gyfyngiad esgeulustod) neu ddarpariaeth statudol) sy'n deillio o'r Contract hwn neu mewn cysylltiad ag ef (heb gynnwys Amodau 39.1.1 i 39.1.4 (yn gynwysedig) ac Indemniadau TUPE) yn fwy na'r swm a nodir yn y Fanyleb mewn perthynas ag unrhyw ddigwyddiad unigol neu gyfres o ddigwyddiadau cysylltiedig. Os na fydd y Fanyleb yn nodi swm, bydd atebolrwydd cyfan y Cyflenwr yn ddiderfyn.

40.3. Heb effeithio ar rwymedigaeth y Cleient i dalu'r Pris pan fydd yn daladwy, bydd atebolrwydd y Cleient o dan y Contract hwn yn gyfyngedig i 100% o gyfanswm y Pris sy'n daladwy am y Gwasanaethau a ddarperir o dan y Contract hwn oni nodi fel arall yn y Fanyleb.

40.4. Yn ddarostyngedig bob amser i Amod 40.2, ni fydd y naill Barti na'r llall, o dan unrhyw amgylchiadau, yn atebol i'r llall am y canlynol:

40.4.1. colled neu ddifrod anuniongyrchol neu ganlyniadol; a/neu

40.4.2. collid elw; a/neu

40.4.3. colli busnes; a/neu

40.4.4. colli refeniw; a/neu

40.4.5. colli ewyllys da,

40.5. Nid ystyrir bod darpariaethau Amod 40.4 yn cyfyngu ar hawl y Cleient i hawlio gan y Cyflenwr am y canlynol:

40.5.1. unrhyw gostau a threuliau gweithredol a gweinyddol ychwanegol; a/neu

40.5.2. unrhyw gostau neu dreuliau a wnaed yn ddiwerth; a/neu

40.5.3. colled neu ddifrod sy'n deillio'n uniongyrchol o ddiffyg ar ran y Cyflenwr.

40.6. Mae'r Partïon yn cytuno'n benodol, os ystyrir bod unrhyw gyfyngiad neu ddarpariaeth a nodir yn yr Amod 40 hwn yn annilys o dan unrhyw statud neu reolaeth cyfraith gymwys, y tybir i'r graddau hynny ei fod/bod wedi'i hepgor ond, os bydd unrhyw Barti drwy hynny yn dod yn atebol am golled neu ddifrod a fyddai fel arall wedi'i (h)eithrio, y bydd y cyfryw Atebolrwydd yn ddarostyngedig i'r cyfyngiadau a'r darpariaethau eraill a nodir yn yr Amod 40 hwn.

41. **YSWIRIANT**

41.1. Rhaid i'r Cyflenwr gynnal, a sicrhau bod unrhyw Is-gontractwyr sy'n rhan o'r gwaith o ddarparu'r Gwasanaethau yn cynnal, yr yswiriant canlynol gyda chwmni yswiriant ag enw da:

41.1.1. Indemniad Proffesiynol (os oes ei angen);

41.1.2. Atebolrwydd Cyhoeddus (gan gynnwys, os yw'n gymwys, Atebolrwydd Cynhyrchion);

ym mhob achos gyda'r lefel ofynnol o indemniad a nodir yn y Fanyleb. Os na nodir unrhyw lefel yn y Fanyleb, rhaid i'r Cyflenwr ddal a chynnal y cyfryw yswiriant gyda chwmni yswiriant ag enw da gyda lefel ofynnol o indemniad wedi'i phennu ar filiwn o bunnau (£1,000,000) neu'r cyfryw lefel uwch ag sy'n gyson ag (i) arfer da diwydiant yn y diwydiant neu'r sector busnes perthnasol sy'n darparu gwasanaethau tebyg i'r Gwasanaethau a ddarperir o dan y Contract hwn a (ii) unrhyw Ddeddfwriaeth gymwys oni chytunir fel arall yn ysgrifenedig gan y Cleient.

41.2. Rhaid i'r cyfryw yswiriant gael ei gynnal am o leiaf chwe (6) blynedd ar ôl i'r Contract hwn ddod i ben neu ar ôl iddo gael ei derfynu ar ddyddiad cynharach.

41.3. Rhaid i'r Cyflenwr o bryd i'w gilydd ac ar ôl cael o leiaf ddau (2) Ddiwrnod Gwaith o rybudd, pan fydd y Cleient yn gofyn iddo wneud hynny, gyflwyno'r polisi yswiriant perthnasol a derbynebau am bremiymau neu dystiolaeth foddhaol arall o yswiriant.

41.4. Os bydd y Cyflenwr neu unrhyw Is-gontractwr yn methu â chynnal yswiriant yn unol â'r Amod 41 hwn, neu os na fydd yn gallu ei gynnal, neu os bydd yn methu â darparu tystiolaeth yn unol â'r Amod 41 hwn, neu os bydd yn methu â darparu tystiolaeth yn unol ag Amod 41.4, caiff y Cleient (hyd y gall), brynu'r cyfryw yswiriant arall ag yr ystyria ei fod yn rhesymol angenrheidiol

a bydd ganddo hawl i adennill yr holl gostau a threuliau y mae'n mynd iddynt wrth wneud hynny oddi wrth y Cyflenwr.

41.5. Rhaid i'r Cyflenwr ddal yswiriant atebolrwydd cyflogwr mewn perthynas â'i Staff yn unol ag unrhyw Ddeddfwriaeth sydd am y tro mewn grym.

41.6. Nid ystyrir bod atebolrwydd y Cyflenwr o dan y Contract hwn wedi'i ollwng nac wedi'i gyfyngu os bydd y Cyflenwr yn trefnu'r polisïau yswiriant y cyfeirir atynt yn yr Amod 41 hwn.

41.7. Os bydd y Fanyleb yn nodi bod angen iddo wneud hynny, rhaid i'r Cyflenwr sicrhau bod buddiant y Cleient wedi'i nodi ar bob polisi yswiriant neu fod amod cyffredinol ynglŷn â buddiant wedi'i gynnwys.

## 42. FORCE MAJEURE

42.1. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau'r Amod 42 hwn sy'n weddill, caiff y naill Barti neu'r llall hawlio rhyddhad rhag atebolrwydd am beidio â chyflawni ei rwymedigaethau i'r graddau bod unrhyw fethiant i'w cyflawni i'w briodoli i Ddigwyddiad Force Majeure.

42.2. Ni all Parti hawlio rhyddhad os bydd y Digwyddiad Force Majeure i'w briodoli i weithred neu esgeulustod bwriadol ar ei ran neu fethiant bwriadol ar ei ran i gymryd rhagofalon rhesymol yn erbyn y Digwyddiad Force Majeure perthnasol.

42.3. Ni all Parti yr Effeithir Arno hawlio rhyddhad o ganlyniad i fethiant neu oedi ar ran unrhyw berson arall i gyflawni rhwymedigaethau'r person arall hwnnw o dan gytundeb â'r Parti yr Effeithir Arno (oni chaiff y person arall hwnnw ei hun ei atal rhag cydymffurfio â'i rwymedigaethau, neu ei rwystro oherwydd oedi o ganlyniad i Ddigwyddiad Force Majeure).

42.4. Rhaid i'r Parti yr Effeithir Arno hysbysu'r Parti arall am y Digwyddiad Force Majeure ar unwaith. Bydd yr hysbysiad yn cynnwys manylion am yr Achos o Force Majeure, ynghyd â thystiolaeth o'i effaith ar rwymedigaethau'r Parti yr Effeithir Arno ac unrhyw gamau y mae'r Parti yr Effeithir Arno yn bwriadu eu cymryd i leddfu ei effaith.

42.5. Cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl hysbysiad y Parti yr Effeithir Arno, rhaid i'r Partïon drafod mewn ewyllys da a cheisio cytuno ar ffordd o gyflawni'r Contract hwn, hyd y gellir yn rhesymol, tra pery'r Digwyddiad Force Majeure. Os bydd y Partïon yn methu â chytuno ar ffordd o gyflawni'r Contract hwn o fewn dau (2) fis calendr i ddyddiad hysbysiad y Parti yr Effeithir Arno (neu'r cyfryw gyfnod arall ag y cytunir arno gan y Partïon yn ysgrifenedig), caiff y Cleient, yn ôl ei ddisgresiwn absoliwt, ddewis terfynu'r Contract hwn yn gyfan gwbl neu'n rhannol.

42.6. Bydd y Parti yr Effeithir Arno yn defnyddio pob ymdrech resymol i barhau i gyflawni, neu ailddechrau cyflawni, y Contract hwn tra pery'r cyfryw Ddigwyddiad Force Majeure ac os mai'r Cyflenwr yw'r Parti yr Effeithir Arno, rhaid iddo gymryd pob cam yn unol ag Arfer Da Diwydiant i oresgyn neu leihau canlyniadau'r Digwyddiad Force Majeure.

42.7. Rhaid i'r Parti yr Effeithir Arno hysbysu'r Parti arall cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl i'r Digwyddiad Force Majeure ddod i ben neu pan na fydd yn atal y Parti yr Effeithir Arno rhag gallu cydymffurfio â'i rwymedigaethau o dan y Contract hwn mwyach. Yn dilyn y cyfryw hysbysiad, rhaid i'r Contract hwn barhau i gael ei gyflawni yn unol â'r telerau a oedd yn bodoli yn union cyn y Digwyddiad Force Majeure oni chytunir fel arall gan y Partïon.

42.8. Os bydd y Digwyddiad Force Majeure yn parhau am gyfnod o ddau (2) fis calendr (neu'r cyfryw gyfnod arall ag y cytunir arno gan y Partïon yn ysgrifenedig) o ddyddiad hysbysiad y Parti yr Effeithir Arno, caiff y Cleient, yn ôl ei ddisgresiwn absoliwt, derfynu'r Contract hwn yn gyfan gwbl neu'n rhannol.

43. **GWEITHREDU DIWYDIANNOL**

43.1. Rhaid i'r Cyflenwr hysbysu'r Cleient ar unwaith am unrhyw weithredu diwydiannol gwirioneddol neu bosibl gan Staff, p'un ai ei Bersonél ei hun neu aelodau eraill o Bersonél sy'n gweithredu'n ddiwydiannol, sy'n effeithio neu a allai effeithio ar ei allu i ddarparu'r Gwasanaethau ar unrhyw adeg yn unol â gofynion y Contract hwn. Os bydd y cyfryw Staff yn gweithredu'n ddiwydiannol, rhaid i'r Cyflenwr geisio cymeradwyaeth y Cleient ar gyfer unrhyw gynigion diwygiedig i ddarparu'r Gwasanaethau.

43.2. Os bydd y Cleient o'r farn bod Cynigion y Cyflenwr y cyfeirir atynt yn Amod 43.1 yn annigonol neu'n annerbyniol, caiff y Cleient derfynu'r Contract hwn yn gyfan gwbl neu'n rhannol.

44. **TERFYNU**

44.1. Caiff y Cleient ar unrhyw adeg drwy hysbysiad derfynu'r Contract hwn o ddyddiad derbyn tybiedig y cyfryw hysbysiad (fel y darperir yn Amod 53.5):

44.1.1. os bydd y Cyflenwr yn methu â chydymffurfio ag Amodau 5.3.2 (Y Gwasanaethau), 7.2 (Adeg Cyflenwi), 24.5 (Personél y Cyflenwr), 30 (Diogelu Data Personol), 31 (Cyfrinachedd), 32 (Diogelwch Gwybodaeth Gyfrinachol), 36 (Gwrthdaro Buddiannau), 37 (Rhoddion Llwgr a Thaliadau Comisiwn), 38 (Twyll) neu 48 (Is-gontractio ac Aseinio); neu

44.1.2. os bydd newid rheolaeth, (bydd y diffiniad o “rheolaeth” fel y'i nodir yn adran 1124 o Ddeddf Treth Gorfforaethol 2010), o ran y Cyflenwr neu ei Riant-Gwmni ar yr amod mai dim ond am chwe (6) mis calendr ar ôl y cyfryw newid rheolaeth y caiff y Cleient arfer ei hawliau yn unol â'r Amod 44.1.2 hwn ac ni chaniateir iddo arfer y cyfryw hawliau os bydd y Cleient wedi cytuno'n ysgrifenedig ymlaen llaw i'r newid rheolaeth penodol a bod y cyfryw newid rheolaeth yn digwydd fel y cynigiwyd; neu

44.1.3. os bydd y Cyflenwr, sy'n gwmni, yn derbyn cynnig, neu os bydd y Llys yn gwneud gorchymyn, y dylid dirwyn y Cyflenwr neu ei Riant-gwmni i ben ac eithrio at ddiben cyflawni cynllun adlunio neu uno dilys, neu os caiff derbynnydd, rheolwr neu weinyddwr ar ran credydwr ei benodi mewn perthynas â busnes y Cyflenwr neu'r Rhiant-gwmni neu unrhyw ran o'r busnes hwnnw, neu os bydd amgylchiadau yn codi sy'n rhoi hawl i'r Llys, ac eithrio at ddiben cyflawni cynllun adlunio neu uno dilys, wneud gorchymyn dirwyn i ben, neu os na fydd y Cyflenwr na'i Riant-gwmni yn gallu talu ei ddyledion o fewn ystyr Adran 123 o Ddeddf Ansolfedd 1986 neu os bydd unrhyw ddigwyddiad tebyg o dan gyfraith unrhyw awdurdodaeth arall; neu

44.1.4. os bydd y Cyflenwr, sy'n unigolyn, neu os yw'r Cyflenwr yn ffyrm, unrhyw bartner neu bartneriaid yn y ffyrm honno a all, gyda'i gilydd, ei rheoli'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, (bydd y diffiniad o “rheolaeth” fel y'i nodir yn adran 1124 o Ddeddf Treth Gorfforaeth 2010), ar unrhyw adeg yn mynd yn fethdalwr neu os gwneir gorchymyn derbyn neu orchymyn gweinyddu yn ei erbyn neu os bydd yn gwneud unrhyw gompownd neu drefniant â'i gredydwyr neu er eu mwyn, neu os bydd yn honni ei fod yn gwneud hynny, neu os ymddengys na all dalu dyled neu nad oes ganddo

unrhyw obaith rhesymol o allu talu dyled o fewn ystyr Adran 268 o Ddeddf Ansolfedd 1986 neu os bydd yn mynd yn ansolfent yn ôl pob golwg o fewn ystyr Deddf Methdalu (yr Alban) 2016 neu os gwneir unrhyw gais o dan unrhyw ddeddf methu neu ansolfedd sydd am y tro mewn grym i secwestru ei ystâd, neu os bydd yn rhoi gweithred ymddiried er mwyn ei gredydwyr, neu os bydd unrhyw ddigwyddiad tebyg o dan gyfraith unrhyw awdurdodaeth arall; neu

44.1.5. os bydd y Cyflenwr yn euog o Ddiffyg ac na ellir unioni'r Diffyg; neu

44.1.6. os bydd y Cyflenwr yn euog o Ddiffyg a bod y Diffyg yn torri'r Contract hwn yn sylfaenol; neu

44.1.7. os bydd y Cyflenwr yn euog o Ddiffyg a bod modd unioni'r Diffyg ond nad yw'n unioni'r Diffyg hwnnw i foddhad y Cleient o fewn 25 Diwrnod Gwaith (neu'r cyfryw gyfnod arall ag a nodir gan y Cleient) ar ôl cael ei hysbysu'n ysgrifenedig i wneud hynny; neu

44.1.8. os bydd y Cyflenwr yn euog o sawl Diffyg sydd, gyda'i gilydd, yn torri'r Contract hwn yn sylfaenol; neu

44.1.9. os bydd y Cyflenwr yn torri unrhyw un o delerau'r Contract hwn dro ar ôl tro mewn modd sy'n golygu bod cyfiawnhad rhesymol dros lunio'r farn bod ei ymddygiad yn dangos nad yw'n bwriadu rhoi telerau'r Contract hwn ar waith neu na all eu rhoi ar waith; neu

44.1.10. os bydd y Cyflenwr yn destun ymchwiliad ffurfiol, neu'n cael ei erlyn, am unrhyw drosedd o dan Ddeddf Caethwasiaeth Fodern 2015;

44.1.11. os bydd y Cyflenwr yn destun ymchwiliad ffurfiol, neu'n destun hawliad sy'n codi mewn cysylltiad â'i rwymedigaethau statudol sy'n ymwneud â hawliau cyflogaeth, cysylltiadau cyflogaeth, hawliau gweithio neu gydraddoldeb;

44.1.12. os bydd y Cyflenwr yn destun hawliad sy'n ymwneud â thorri Deddf Hawliau Dynol 1998;

44.1.13. os bydd y Cyflenwr yn torri Deddfau Cyfrinachau Swyddogol 1911 i 1989 neu Adran 182 o Ddeddf Cyllid 1989;

44.1.14. os bydd addasu unrhyw seiliau terfynu a nodir yn Adran 78 o’r PA 2023 yn gymwys; neu

44.1.15. os bydd tri (3) Adroddiad DPAau olynol yn nodi bod y Cyflenwr wedi methu â chyflawni pob un o'r DPAau neu, mewn unrhyw bum (5) Cyfnod Adrodd ar DPAau olynol (waeth beth fo'u hyd) neu fwy, os bydd o leiaf hanner yr adroddiadau yn nodi bod y Cyflenwr wedi methu â chyflawni pob un o'r DPAau. Nid yw'r Amod hwn yn effeithio ar unrhyw ddarpariaethau eraill yn y Dogfennau Tendr sy'n ymwneud â methiant i gyflawni'r DPAau;

44.1.16. os bydd tri (3) Adroddiad Lefel Gwasanaeth olynol yn nodi bod y Cyflenwr wedi methu â chyflawni pob un o'r Lefelau Gwasanaeth neu, mewn unrhyw bum (5) Cyfnod Adrodd ar Lefel Gwasanaeth olynol (waeth beth fo'u hyd) neu fwy, os bydd o leiaf hanner yr adroddiadau yn nodi bod y Cyflenwr wedi methu â chyflawni pob un o'r Lefelau Gwasanaeth. Nid yw'r Amod hwn yn effeithio ar unrhyw ddarpariaethau eraill yn y Dogfennau Tendr sy'n ymwneud â methiant i gyflawni'r Lefelau Gwasanaeth; a

44.1.17. os bydd unrhyw un o'r digwyddiadau a ddisgrifir yn Amodau 44.1.2, 44.1.3, 44.1.4 yn digwydd mewn perthynas â Gwarantwr, os bydd y Gwarantwr yn torri unrhyw un o delerau'r Gwarant neu os bydd Gwarant yn mynd yn annilys neu'n anorfodadwy.

44.2. Wrth benderfynu a yw Diffyg yn un sylfaenol, ni roddir unrhyw ystyriaeth i b'un a yw'n digwydd o ganlyniad i ryw ddamwain, anhap, gwall neu gamddealltwriaeth.

44.3 Cyn terfynu'r Contract yn unol ag Amod 41.1.14, rhaid i'r Cleient:

44.3.1. hysbysu'r Cyflenwr o'i fwriad i derfynu'r Contract;

44.3.2. nodi pa un o'r seiliau a nodir yn Adran 78 o PA 2023 sy'n gymwys a pham ei fod wedi penderfynu terfynu'r Contract; a

44.3.3. rhoi cyfle rhesymol i'r Cyflenwr wneud sylwadau am: (i) a yw sail terfynu yn berthnasol; a (ii) penderfyniad y Cleient i derfynu'r Contract

## 45. CANLYNIADAU TERFYNU'R CONTRACT A'R CONTRACT YN DOD I BEN

45.1. Ac eithrio fel y darperir fel arall bydd yr Amod 45 hwn yn gymwys pan ddaw'r Contract hwn i ben neu pan gaiff ei derfynu (yn llawn neu'n rhannol), sut bynnag y caiff ei derfynu.

45.2. Ni fydd terfynu'r Contract hwn na'r Contract yn dod i ben yn effeithio ar unrhyw hawl i weithredu nac unrhyw hawl i rwymedi sydd gan y naill Barti neu'r llall neu a fydd gan y naill Barti neu'r llall ar ôl hynny.

45.3. Bydd gan y Cleient yr hawl, heb effeithio ar hawliau na rhwymedïau eraill y Cleient, i gael ad-daliad o unrhyw daliadau a wnaed gan y Cleient mewn perthynas ag unrhyw Wasanaethau nas cyflawnwyd neu unrhyw nwyddau nas darparwyd gan y Cyflenwr erbyn y dyddiad terfynu neu'r dyddiad dod i ben.

45.4. Os bydd y naill Barti neu'r llall yn terfynu'r Contract hwn neu'n peri iddo ddod i ben, bydd darpariaethau'r Amod 45 hwn (Canlyniadau Terfynu) ac Amodau 15 (Gwrthbwyso), 19 (Eiddo Deallusol), 30 (Diogelu Data Personol), 31 (Cyfrinachedd), 32 (Diogelu Gwybodaeth Gyfrinachol), 33 (Rhyddid Gwybodaeth), 34 (Cyhoeddusrwydd), 37 (Rhoddion Llwgr, Taliadau Comisiwn ac Atal Llwgrwobrwyo), 38 (Twyll), 39 (Indemniad), 40 (Cyfyngiad ar Atebolrwydd), 41 (Yswiriant), 47 (Proses Datrys Anghydfodau), 49 (Gwybodaeth a Chymorth), 50 (Cynigion o Gyflogaeth), 51 (Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) 2006), 53 (Hysbysiadau), 56 (Hawlildio), a 63 (Cyfraith ac Awdurdodaeth) yn parhau mewn grym ar ôl i'r Contract hwn gael ei derfynu neu ar ôl iddo ddod i ben.

45.5. Os bydd y Cleient, ar ôl i'r Contract hwn gael ei derfynu ganddo yn unol ag Amod 44.1, yn ailosod y Contract hwn, neu unrhyw ran ohono, i gyflenwr amgen, rhaid i'r Cyflenwr ddigolledu'r Cleient am yr holl gostau, colledion, iawndal a threuliau y gall fynd iddynt neu fod yn atebol amdanynt o ganlyniad i ailosod y Contract hwn.

45.6. Mae'r Cyflenwr yn cydnabod, cyn, ar neu ar ôl dyddiad terfynu neu ddod i ben y Contract hwn, y caiff y Cleient naill ai drefnu i'r Gwasanaethau gael eu darparu'n fewnol neu wahodd personau sy'n cynnwys y Cyflenwr i dendro am yr hawl i ddarparu rhai neu bob un o'r Gwasanaethau yn y dyfodol. Felly, mae'r Cyflenwr yn cytuno, ddeuddeg (12) mis calendr neu'r cyfryw gyfnod arall cyn i'r Contract hwn gael ei derfynu neu cyn iddo ddod i ben fel y nodir yn y Fanyleb (neu unrhyw ran ohoni) i ddarparu'r cyfryw wybodaeth, arbenigedd, cymorth ac arweiniad i'r Cleient

a'r Cyflenwr Cyfnewid ag a fyddai'n rhesymol ac yn angenrheidiol er mwyn sicrhau a chynnal parhad y Gwasanaethau gan gynnwys heb gyfyngiad ddarparu ar gyfer trosglwyddo'r holl wybodaeth sydd ei hangen i ddarparu Gwasanaethau Cyfnewid (gan gynnwys heb gyfyngiad gofnodion sy'n ymwneud â'r Gwasanaethau), hyfforddiant, deunyddiau hyfforddi ac adroddiad ar y Gwasanaethau. Rhaid i'r Cyflenwr, ar ôl cael rhybudd rhesymol, gyfarfod â'r Cleient ac, fel sy'n ofynnol gan y Cleient, y Cyflenwr newydd, cyn i'r Contract hwn gael ei derfynu neu cyn iddo ddod i ben ac am dri (3) mis calendr ar ôl hynny fel a fyddai'n rhesymol er mwyn sicrhau a chynnal parhad y Gwasanaethau.

45.7. Pan gaiff y Contract hwn ei derfynu neu pan ddaw i ben, rhaid i'r Cyflenwr gydymffurfio â'i rwymedigaethau o dan Amodau 18.4, 19.5 ac 20.4.

46. **EGWYL**

46.1. Yn ogystal â hawliau terfynu'r Cleient o dan Amod 44, caiff y Cleient derfynu'r Contract hwn drwy roi o leiaf un (1) mis calendr o rybudd ymlaen llaw i'r Cyflenwr.

46.2. Os caiff y Contract hwn ei derfynu yn unol ag Amod 46.1:

46.2.1. bydd gan y Cyflenwr yr hawl i gael taliad cydnabyddiaeth teg a rhesymol am y cyfryw ran o'r Gwasanaethau ag y mae wedi'i chwblhau neu ei dechrau ac nad yw wedi cael ei dalu mewn perthynas â hi, ac am unrhyw gostau neu atebolrwydd yr eir iddynt i drydydd partïon o ganlyniad i ymrwymiadau di-alw'n ôl a wneir wrth gyflawni'r Contract hwn i'r graddau y gall y Cyflenwr ddarparu tystiolaeth i foddhad rhesymol y Cleient i ategu unrhyw symiau y bydd yn eu hawlio;

46.2.2. ar ôl cael hysbysiad o dan Amod 46.1, rhaid i'r Cyflenwr barhau i ddarparu'r Gwasanaethau tan y dyddiad terfynu oni fydd y Cleient yn gofyn iddo weithredu fel arall, a rhaid iddo gymryd pob cam rhesymol ar unwaith i leihau ei gostau a'i golledion a thynnu'n ôl o unrhyw ymrwymiadau i drydydd partïon sy'n ymwneud â chyflawni ei rwymedigaethau o dan y Contract hwn;

46.3. Ar ôl i'r Contract hwn gael ei derfynu o dan Amod 46.1, ni fydd y Cleient yn atebol am dalu unrhyw swm sy'n fwy, pan gaiff ei ychwanegu at y symiau a dalwyd neu sy'n daladwy o dan y Contract hwn, na'r cyfanswm a fyddai wedi bod yn daladwy i'r Cyflenwr pe na bai'r Contract hwn wedi cael ei derfynu cyn i Gyfnod gwreiddiol y Contract ddod i ben.

47. **PROSES DATRYS ANGHYDFOD**

47.1. Rhaid i'r Partïon gyfeirio pob mater y mae anghydfod yn ei gylch sy'n deillio o'r Contract hwn neu mewn perthynas ag ef er mwyn i gyfarwyddwyr neu uwch reolwyr dynodedig o bob Parti ei ystyried a phenderfynu arno, a bydd y Partïon yn gwneud pob ymdrech resymol i ddatrys unrhyw anghydfod o'r fath o fewn cyfnod o bymtheg (15) Diwrnod Gwaith i'r dyddiad y cyflwynodd y naill Barti hysbysiad i'r llall yn cynnwys manylion yr anghydfod, ac os na ellir gwneud hynny, oni fydd y Partïon yn pennu cyfnod arall o amser, gellir ymdrin ag unrhyw anghydfod o'r fath fel y nodir yn Amod 47.2.

47.2. Os na all cynrychiolwyr y Partïon, a enwebwyd o dan Amod 47.1, ddatrys yr anghydfod o fewn pymtheg (15) Diwrnod Gwaith neu'r cyfryw gyfnod arall ag y cytunwyd arno rhwng y Partïon, gellir cyfeirio'r yr anghydfod at broses gyfryngu o dan oruchwyliaeth y Centre for Effective Dispute Resolution, International Dispute Resolution Centre, 70 Fleet Street, London, EC4Y 1EU ("CEDR"). Bydd y broses gyfryngu yn dechrau drwy'r naill Barti yn cyflwyno hysbysiad

("Hysbysiad Cyfryngu") i'r llall yn nodi'n gryno y materion y mae anghydfod yn eu cylch ac yn galw ar y Parti arall i ymuno ag ef i gysylltu â CEDR er mwyn i gyfryngwr gael ei benodi.

47.3. Cynhelir y broses gyfryngu gan ddefnyddio un cyfryngydd yn unol neu i raddau helaeth yn unol â chytundeb argymelledig CEDR sydd am y tro yn cael ei ddefnyddio. Rhaid i'r cyfryngwr fod yn un o gyfryngwyr achrededig CEDR y cytunwyd arno rhwng y Partïon neu, os na ellir dod i gytundeb o fewn deg (10) Diwrnod Gwaith i ddyddiad yr Hysbysiad Cyfryngu, a benodwyd gan CEDR ar gais y Parti a gyflwynodd yr Hysbysiad Cyfryngu.

47.4. Mae'r Partïon yn cytuno i gydweithredu'n llawn ac yn brydlon ac mewn ewyllys da â CEDR a/neu'r cyfryngwr wrth gyflawni eu rhwymedigaethau o dan yr Amod 47 hwn. Bydd y ddau Barti yn rhoi i'r cyfryngwr bob cymorth sydd ei angen arno i ystyried yr anghydfod gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i fynediad llawn at unrhyw ddogfennaeth neu ohebiaeth sy'n ymwneud â'r materion y mae anghydfod yn eu cylch. Cynhelir unrhyw drafodaethau sy'n gysylltiedig â'r anghydfod yn hollol gyfrinachol a heb effeithio ar hawliau'r Partïon mewn unrhyw achos cyfreithiol yn y dyfodol.

47.5. Os bydd y Partïon, gyda chymorth y cyfryngwr, yn cytuno ar setliad, rhaid i'r cyfryw setliad gael ei gofnodi'n ysgrifenedig ac, ar ôl iddo gael ei lofnodi'n briodol gan gynrychiolwyr awdurdodedig y naill Barti a'r llall, bydd y Partïon yn parhau i fod yn gyfrwymol ar y Partïon.

47.6. Oni chytunir yn wahanol yn ystod y weithdrefn, bydd y naill Barti a'r llall yn talu ei gostau ei hun sy'n gysylltiedig â'r broses gyfryngu.

47.7. Os ac i'r graddau, ar ôl cymryd rhan mewn ewyllys da yn y broses gyfryngu, na fydd y Partïon yn datrys y materion y mae anghydfod yn eu cylch, rhaid cyfeirio pob mater y mae anghydfod yn ei gylch o hyd at y llysoedd yn unol Amod 63 isod.

47.8. Os na fydd y broses gyfryngu yn llwyddo i ddatrys yr anghydfod o fewn cyfnod o ddau (2) fis calendr i benodi'r cyfryngwr, neu'r cyfryw gyfnod arall ag y gall y Partïon gytuno arno, caiff y naill Barti neu'r llall gymryd y cyfryw gamau ag sydd ar gael iddo o dan y Contract hwn neu o dan y gyfraith.

47.9. Nid ystyrir bod dim yn y Contract hwn yn atal nac yn rhwystro'r naill Barti na'r llall rhag ceisio gan unrhyw lys ag awdurdodaeth gymwys orchymyn neu waharddeb interim sy'n atal y Parti arall rhag cyflawni unrhyw weithred neu sy'n cymell y Parti arall i gyflawni unrhyw weithred.

47.10. Ni fydd defnyddio'r weithdrefn datrys anghydfod hon yn peri i briod rwymedigaethau'r naill Barti na'r llall sydd i'w cyflawni o dan y Contract hwn beidio na chael eu gohirio.

48. **Is-gontractio ac Aseinio**

48.1. Mae'r Contract hwn yn bersonol i'r Cyflenwr.

48.2. Ni chaiff y Cyflenwr aseinio, newyddu nac fel arall waredu'r Contract hwn nac unrhyw ran ohono heb gael caniatâd ysgrifenedig y Cleient sy'n gweithredu yn ôl ei ddisgresiwn absoliwt ymlaen llaw.

48.3. Ni chaiff y Cyflenwr is-gontractio'r gwaith o gyflawni unrhyw un o'i rwymedigaethau o dan y Contract hwn na newid unrhyw Is-gontractwr heb gael caniatâd ysgrifenedig y Cleient ymlaen llaw, ac ni ddylai caniatâd o'r fath gael ei atal na'i ohirio'n afresymol. Rhaid i'r Cyflenwr

ddarparu'r cyfryw wybodaeth ag y gall y Cleient yn rhesymol ofyn amdani am unrhyw Is-gontractwr.

48.4. Er gwaethaf unrhyw is-gontractio a ganiateir o dan y Contract hwn, y Cyflenwr fydd yn bennaf cyfrifol o hyd am weithredoedd ac anweithiau ei Is-gontractwyr yn yr un modd ag y mae'n gyfrifol am ei weithredoedd neu ei anweithiau ei hun.

48.5. Rhaid i'r Cyflenwr roi rhestr o'r holl Staff a gyflogir gan ei Is-gontractwyr ac unrhyw ddiwygiadau dilynol i'r rhestr i'r Cleient a rhaid iddo sicrhau bod unrhyw Is-gontractwr yn cydymffurfio â holl ofynion eraill Amod 24. Mae'r Cleient yn cadw'r hawl i wrthod penodiad unrhyw aelod o Bersonél yr Is-gontractwr a benodir i ddarparu'r Gwasanaethau neu ofyn i unrhyw aelod o Bersonél o'r fath gael ei symud oddi ar Safle'r Cleient.

48.6. Os bydd y Cyflenwr, yn unol â thelerau'r Contract hwn, yn llunio is-gontract mewn cysylltiad â'r Contract hwn, rhaid i'r Cyflenwr sicrhau:

48.6.1. bod Is-gontractwyr ac unrhyw un o'i gyflenwyr wedi derbyn rhwymedigaethau sy'n cyfateb i'r rhai a nodir yn y Contract hwn a'u bod yn cydymffurfio â'r cyfryw rwymedigaethau; a

48.6.2. y caiff amod ei gynnwys yn yr is-gontract sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Cyflenwr dalu pob swm sy'n ddyledus o dan yr is-gontract i'r Is-gontractwr o fewn cyfnod penodol, na fydd yn hwy na thri deg (30) diwrnod, o'r dyddiad y derbynnir anfoneb ddilys y cytunwyd arni fel y'i diffinnir yn nhelerau'r is-gontract (fel y bo'n briodol).

48.7. Yn ddarostyngedig i Amod 48.8, bydd gan y Cleient yr hawl i wneud y canlynol:

48.7.1. aseinio, newyddu neu fel arall waredu ei hawliau a'i rwymedigaethau o dan y Contract hwn neu unrhyw ran ohono i unrhyw Awdurdod Contractio; neu

48.7.2. newyddu'r Contract hwn i unrhyw gorff arall (gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i unrhyw gorff yn y sector preifat) sy'n cyflawni, i raddau helaeth, unrhyw un o'r swyddogaethau a gyflawnwyd yn flaenorol gan y Cleient.

48.8. Mae'r Contract hwn yn gyfrwymol ar y Cleient a'i olynwyr a'i aseiniaid a'r Cyflenwr ac olynwyr ac aseiniaid a ganiateir y Cyflenwr.

48.9. Ni fydd unrhyw newid yn statws cyfreithiol y Cleient sy'n golygu nad yw'n Awdurdod Contractio mwyach, yn effeithio ar ddilysrwydd y Contract hwn. O dan y fath amgylchiadau, bydd y Contract hwn yn gyfrwymol ar unrhyw gorff olynol i'r Cleient.

## 49. GWYBODAETH A CHYMORTH

49.1. Drwy gydol Cyfnod y Contract ac am gyfnod o ddeg (10) mlynedd galendr (neu'r cyfryw gyfnod arall ag a nodir yn y Fanyleb) ar ôl iddo ddod i ben neu ar ôl iddo gael ei derfynu, rhaid i'r Cyflenwr:

49.1.1. cynnal cofnodion llawn a chywir o'r Contract hwn, gan gynnwys y nwyddau a'r gwasanaethau a ddarparwyd oddi tano, yr holl wariant a ad-dalwyd gan y Cleient a'r holl daliadau a wnaed gan y Cleient; ac, os gofynnir iddo wneud hynny, rhaid iddo roi i'r Cleient neu Reolwr Contract y Cleient ac archwilwyr allanol y Cleient (gan gynnwys

heb gyfyngiad Archwilio Cymru) y cyfryw fynediad at y cofnodion hynny a'r cyfryw gopïau ohonynt, ag y gall fod eu hangen mewn cysylltiad â'r Contract hwn;

49.1.2. rhoi pob cymorth rhesymol i'r Cleient, gan gynnwys mynd i bob cyfarfod y mae'r Cleient yn gofyn amdano, er mwyn ateb cwestiynau am y Contract hwn os bydd angen.

## 50. CYNIGION O GYFLOGAETH

50.1. Yn ystod Cyfnod y Contract ac am gyfnod o ddeuddeg (12) mis calendr ar ôl hynny, ni chaiff y Cyflenwr gyflogi unrhyw un o swyddogion, cyflogeion na gweithwyr y Cleient a fu'n gysylltiedig â'r Gwasanaethau, na chynnig cyflogaeth iddynt, heb gael caniatâd ysgrifenedig y Cleient ymlaen llaw, ond ni fydd yr Amod 50 hwn yn gymwys i hysbyseb cyflogaeth ddilys gyda'r Cyflenwr.

## 51. RHEOLIADAU TROSGLWYDDO YMGYMERIADAU (DIOGELU CYFLOGAETH) 2006 (TUPE")

51.1. Os bydd y Cleient a'r Cyflenwr yn credu, yn unol â TUPE, y bydd cyflogaeth yr unigolion hynny a gyflogir gan y Cleient a/neu'r Cyflenwr Blaenorol ac sydd wedi'u haseinio, ar y Dyddiad Trosglwyddo Gwasanaethau Cychwynnol a/neu yn union cyn y dyddiad hwnnw, i gyflawni'r Gwasanaethau ar gyfer neu ar ran y Cleient (y “Staff a Gaffaelwyd”) yn trosglwyddo i'r Cyflenwr ar y Dyddiad Trosglwyddo Gwasanaeth Cychwynnol. O dan yr amgylchiadau hynny, bydd y Cyflenwr yn cyflogi pob un o'r Staff a Gaffaelwyd yn weithredol o'r Dyddiad Trosglwyddo Gwasanaethau Cychwynnol o dan yr un telerau ac amodau (gan gynnwys mewn perthynas â chyfnodau blaenorol o gyflogaeth barhaus) p'un a ellir eu gorfodi'n gyfreithiol ai peidio, â'r rhai yr oeddent wedi'u cyflogi oddi tanynt yn flaenorol cyn y Dyddiad Trosglwyddo Gwasanaethau Cychwynnol a rhaid iddo gydymffurfio ym mhob ffordd â'r rhwymedigaethau a osodir ar drosglwyddai gan TUPE mewn perthynas â'r Staff a Gaffaelwyd.

51.2. Rhaid i'r Cyflenwr indemnio'r Cleient a'r Cyflenwr Blaenorol yn llawn ar gyfer ac yn erbyn pob colled mewn perthynas neu mewn cysylltiad â'r canlynol:

51.2.1. unrhyw fethiant ar ran y Cyflenwr i gydymffurfio â'i rwymedigaeth yn unol â TUPE mewn perthynas â'r Staff a Gaffaelwyd;

51.2.2. unrhyw beth a wneir neu nas gwneir gan y Cyflenwr mewn perthynas ag unrhyw un o'r Staff a Gaffaelwyd cyn, ar neu ar ôl y Dyddiad Trosglwyddo Gwasanaethau Cychwynnol gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol:

(i) Unrhyw gamau a gymerir gan unrhyw aelod o'r Staff a Gaffaelwyd mewn perthynas â therfynu'r gyflogaeth gan y Cyflenwr ar ôl y Dyddiad Trosglwyddo Gwasanaethau Cychwynnol;

(ii) Unrhyw gamau a gymerir gan unrhyw aelod o'r Staff a Gaffaelwyd mewn perthynas â'r newid i'r cyflogwr oherwydd TUPE a/neu'r Contract hwn;

(iii) Unrhyw gamau a gymerir gan unrhyw aelod o'r Staff a Gaffaelwyd mewn perthynas â'r newid neu'r newid arfaethedig i delerau ei gyflogaeth neu ei amodau gwaith o ganlyniad i unrhyw weithred neu anwaith gan y Cyflenwr p'un a fydd y cyfryw hawliadau yn codi cyn neu ar ôl y Dyddiad Trosglwyddo Gwasanaethau Cychwynnol.

51.3. Mae'r Cyflenwr yn cytuno i gyflawni pob un o'i rwymedigaethau hyd nes i'r Contract hwn (neu unrhyw ran ohono) ddod i ben neu hyd nes iddo gael ei derfynu, mewn perthynas â'r holl alldaliadau a rhwymedigaethau cronedig mewn perthynas â'r Staff (gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i'r Staff a Gaffaelwyd) sy'n ymwneud â chyflawni rhwymedigaethau'r Cyflenwr o dan y Contract hwn.

51.4. Mae'r Cyflenwr yn addo (a bydd yn sicrhau bod unrhyw Is-gontractwr yn addo) i'r Cleient ac unrhyw Gyflenwr Cyfnewid:

51.4.1. y bydd wedi talu ac y bydd yn talu'r holl symiau, alldaliadau a rhwymedigaethau cronedig (p'un a ydynt yn codi o dan gyfraith gwlad, statud, ecwiti neu fel arall) gan gynnwys yr holl gyflogau, tâl gwyliau, bonysau, comisiwn, treth, treuliau, cyfraniadau Yswiriant Gwladol, cyfraniadau pensiwn a chydnabyddiaeth arall, buddiannau, hawliau ac alldaliadau ni waeth pryd y daw'r symiau yn ddyledus i'r Staff neu mewn perthynas â hwy ar neu cyn dyddiad dod i ben neu ddyddiad terfynu'r Contract hwn (neu unrhyw ran ohono); a

51.4.2. y bydd wedi cydymffurfio â phob un o'i rwymedigaethau (gan gynnwys y rhai sy'n codi yn unol â TUPE) sydd i'w priodoli i'r Staff neu unrhyw gorff sy'n eu cynrychioli, neu sy'n gysylltiedig â hwy, ar neu cyn dyddiad dod i ben neu ddyddiad terfynu'r Contract hwn (neu unrhyw ran ohono).

51.5. Mae'r Cyflenwr yn cydnabod, cyn, ar neu ar ôl dyddiad dod i ben neu ddyddiad terfynu'r Contract hwn, ei bod yn bosibl y bydd y Cleient am ddarparu'r Gwasanaethau yn fewnol neu wahodd personau sy'n cynnwys y Cyflenwr i dendro am yr hawl i ddarparu rhai neu bob un o'r Gwasanaethau yn y dyfodol. Felly, mae'r Cyflenwr yn cytuno, ddeuddeg (12) mis calendr cyn terfynu'r Contract hwn (neu unrhyw ran ohono) neu cyn iddo (iddi) ddod i ben neu o fewn deg (10) Diwrnod Gwaith i'r Cleient ofyn iddo wneud hynny drwy hysbysiad, y bydd yn datgelu i'r Cleient, yn llawn ac yn gywir, y cyfryw wybodaeth (mewn fformat excel neu'r cyfryw fformat arall ag a gymeradwyir gan y Cleient) ag y mae'r Cleient yn rhesymol yn gofyn i'r Staff amdani heb ddatgelu enw unrhyw un, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol:

51.5.1. cyfanswm y Staff

51.5.2. teitl swydd, swydd-ddisgrifiad, telerau ac amodau cyflogaeth cyffredinol, oedran a rhyw pob aelod unigol o staff, dyddiad dechrau ei gyflogaeth neu'r dyddiad y dechreuodd ei gyflogaeth barhaus ac (os yw'n wahanol) y dyddiad y dechreuodd ei gyflogaeth gyda'r Cyflenwr neu'r Is-gontractwr;

51.5.3. manylion o ran p'un a yw aelod o Staff yn gyflogai, yn weithiwr, yn hunangyflogedig, yn gontractwr neu'n ymgynghorydd, yn weithiwr asiantaeth neu fel arall;

51.5.4. enw cyflogwr neu barti contractio perthnasol pob aelod unigol o'r Staff;

51.5.5. y cyfnod rhybudd perthnasol ac unrhyw delerau eraill sy'n ymwneud â therfynu cyflogaeth, gan gynnwys unrhyw weithdrefnau dileu swydd a chynlluniau taliadau dileu swydd neu derfynu cyflogaeth cytundebol neu anghytundebol, cyfraddau taliadau ychwanegol ac unrhyw ffactorau eraill sy'n effeithio ar hawl dileu swydd pob aelod o'r Staff;

51.5.6. cyfanswm bil cyflogres (h.y. cyfanswm y cyflog a'r lwfansau trethadwy gan gynnwys cyfraniadau'r cyflogwr i gynlluniau pensiwn) y Staff;

51.5.7. y trefniadau o ran cyflogau, rhannu elw, cymhellion a bonysau sy'n gymwys i bob aelod o'r Staff;

51.5.8. manylion buddiannau eraill sy'n ymwneud â chyflogaeth gan gynnwys (heb gyfyngiad) yswiriant meddygol, yswiriant bywyd, cynlluniau buddiannau pensiwn neu gynlluniau buddiannau ymddeol eraill, cynlluniau opsiynau cyfranddaliadau a chynlluniau ceir Cyflenwyr sy'n gymwys i bob aelod o'r Staff;

51.5.9. unrhyw rwymedigaethau cytundebol neu statudol nas cyflawnwyd neu a allai godi neu unrhyw rwymedigaethau eraill nas cyflawnwyd neu a allai godi mewn perthynas â phob aelod o'r Staff (gan gynnwys mewn perthynas â hawliadau anafiadau personol);

51.5.10. manylion unrhyw aelod o'r Staff sy'n wynebu absenoldeb hirdymor oherwydd salwch, sydd ar ei chyfnod mamolaeth neu sy'n cymryd gwyliau statudol eraill neu sydd fel arall yn absennol o'r gwaith;

51.5.11. dadansoddiad o amser gweithio pob unigolyn yn ystod y deuddeg (12) mis calendr blaenorol gan gyfeirio at y canlynol:

(i) manylion y gwaith y maent yn ei wneud;
(ii) faint o amser y maent yn ei dreulio yn cyflawni'r Gwasanaethau;
(iii) manylion unrhyw ddyletswyddau eraill a gyflawnir ganddynt;
(iv) lleoliadau'r cyfryw waith; a
(v) unrhyw wybodaeth arall sy'n ofynnol gan reoliad 11 (neu fel arall) o TUPE.

51.5.12. cyfanswm yr atebolrwydd dileu swyddi terfynol i'r Staff;

51.5.13. o ran pob aelod o'r Staff, manylion unrhyw achosion disgyblu neu gwyno cyfredol sy'n mynd rhagddynt neu amgylchiadau sy'n debygol o arwain at achosion o'r fath a manylion unrhyw hawliadau cyfredol neu unrhyw hawliadau a fygythir;

51.5.14. manylion pob cytundeb neu drefniant a luniwyd mewn perthynas â'r Staff neu unrhyw undeb llafur neu sefydliad neu gorff o gyflogeion gan gynnwys unrhyw gynrychiolwyr cyflogeion;

51.5.15. manylion unrhyw gynigion o gyflogaeth a wnaed gan y Cyflenwr neu unrhyw Is-gontractwr nas derbyniwyd eto neu a dderbyniwyd ond nad yw'r gyflogaeth wedi dechrau eto;

51.5.16. manylion unrhyw achos llys neu dribiwnlys, hawliad neu achos a ddygwyd gan unrhyw aelod o'r Staff yn erbyn y Cyflenwr neu'r Is-gontractwr yn ystod y ddwy flynedd flaenorol a manylion unrhyw achosion llys neu dribiwnlys y mae gan y Cyflenwr neu unrhyw Is-gontractwr reswm da dros gredu y gallai Staff eu dwyn yn erbyn y Cyflenwr neu'r Is-gontractwr, sy'n deilio o gyflogaeth y Staff â'r Cyflenwr neu'r Is-gontractwr;

51.5.17. manylion am unrhyw un a oedd yn cael ei gyflogi mewn cysylltiad â darparu'r Gwasanaethau a ddiswyddwyd neu y terfynwyd ei gyflogaeth neu y cyflwynwyd hysbysiad terfynu cyflogaeth iddo yn ystod y deuddeg (12) mis calendr blaenorol;

51.5.18. unrhyw wybodaeth arall sy'n ofynnol o dan Reoliad 11 o TUPE neu wybodaeth arall am y Staff y gall y Cleient yn rhesymol ofyn amdani.

51.6. Os gofynnir iddo wneud hynny yn unol ag Amod 51.5, ar adegau a nodir gan y Cleient ac yn union cyn i'r Contract hwn ddod i ben neu yn union cyn iddo gael ei derfynu, rhaid i'r Cyflenwr ddarparu i'r Cleient yr holl wybodaeth a fydd yn ddatgeladwy yn unol ag Amod 51.5. Os daw'r Cyflenwr yn ymwybodol bod unrhyw wybodaeth y mae wedi'i darparu yn unol ag Amod 51.5 bellach yn anwir, yn anghywir neu'n gamarweiniol, rhaid iddo hysbysu’r Cleient ar unwaith a rhoi gwybodaeth gyfredol i'r Cleient cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.

51.7. Ar adeg darparu unrhyw wybodaeth a ddatgelir yn unol ag Amodau 51.5 neu 51.6, ystyrir bod y Cyflenwr yn gwarantu cyflawnder a chywirdeb y cyfryw wybodaeth:

51.8. Os bydd y Cyflenwr yn llunio unrhyw is-gontract mewn cysylltiad â'r Contract hwn, rhaid iddo osod rhwymedigaethau ar ei Is-gontractwr ar yr un telerau â'r rhai a osodwyd ar y Cyflenwr gan y Cleient yn unol ag Amodau 51.3 i 51.7 a rhaid iddo sicrhau bod yr Is-gontractwr yn cydymffurfio â'r rhwymedigaethau hynny.

51.9. Caiff y Cleient ddefnyddio'r wybodaeth a gaiff gan y Cyflenwr yn unol ag Amodau 51.5 a 51.6 at ddibenion TUPE neu unrhyw broses aildendro gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i ddarparu'r cyfryw wybodaeth i ddarpar dendrwyr.

51.10. Pe bai unrhyw rwymedigaeth o dan yr Amod 51 hwn yn achosi i'r Cyflenwr dorri unrhyw rwymedigaeth gyfreithiol (gan gynnwys unrhyw rwymedigaeth o dan y Ddeddfwriaeth Diogelu Data) neu wneud unrhyw weithred anghyfreithlon, rhaid i'r Cyflenwr wneud y cyfryw bethau ag sy'n rhesymol ymarferol er mwyn cydymffurfio â'i rwymedigaethau o dan yr Amod 51 hwn heb dorri unrhyw rwymedigaeth gyfreithiol na gwneud unrhyw weithred anghyfreithlon, gan gynnwys, os yw'n berthnasol, ddarparu gwybodaeth ddienw.

51.11. Rhaid i'r Cyflenwr indemnio a pharhau i indemnio'r Cleient a'i gyflogeion, ei weision, ei asiantau neu ei Is-gontractwyr, gan gynnwys unrhyw Gyflenwr Cyfnewid, yn llawn a'u diogelu bob amser rhag pob achos, achos cyfreithiol, hawliad, traul, dyfarniad, iawndal, archeb am dâl, cost (gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i gostau cyfreithiol) ac unrhyw atebolrwydd arall o unrhyw fath (gan gynnwys er mwyn osgoi amheuaeth lle mae'n deillio o achos o ddileu swydd) sy'n ymwneud â'r canlynol neu sy'n deillio o'r canlynol:

51.11.1. unrhyw weithred neu anwaith ar ran y Cyflenwr neu unrhyw Is-gontractwr (gan gynnwys er mwyn osgoi amheuaeth, derfynu cyflogaeth a/neu unrhyw achosion o wahaniaethu gan drydydd partïon y byddai'r Cyflenwr neu unrhyw Is-gontractwr yn ddirprwyol atebol amdanynt a/neu amrywio telerau ac amodau cyflogaeth) sy'n digwydd ar neu cyn y Dyddiad Trosglwyddo Gwasanaethau mewn perthynas â'r Staff;

51.11.2. unrhyw weithred, diffyg neu anwaith ar ran y Cyflenwr neu unrhyw Is-gontractwr mewn perthynas â darparu gwybodaeth o dan Amod 51.5 neu Amod 51.7 ac unrhyw ddibyniaeth ar y cyfryw wybodaeth anghywir neu anghyflawn neu unrhyw ddefnydd ohoni neu fethiant y Cyflenwr i osod a gorfodi rhwymedigaethau o ran gwybodaeth am atebolrwydd cyflogeion mewn perthynas â'i Is-gontractwyr o dan amod 51.8;

51.11.3. unrhyw weithred neu anwaith ar ran y Cyflenwr neu unrhyw Is-gontractwr mewn perthynas ag unrhyw aelod o'r Personél na fydd yn trosglwyddo yn unol â TUPE pan ddaw'r Contract hwn i ben neu pan gaiff ei derfynu boed hynny cyn, ar neu ar ôl y Dyddiad Trosglwyddo;

51.11.4. unrhyw fethiant ar ran y Cyflenwr neu unrhyw Is-gontractwr i gydymffurfio â'i rwymedigaethau o dan TUPE;

51.11.5. unrhyw hawliad sy'n codi oherwydd y TUPE sy'n gymwys pan ddaw'r Contract hwn i ben neu pan gaiff ei derfynu.

51.12. Mae'r Cyflenwr yn addo i'r Cleient, yn ystod y deuddeg (12) mis calendr cyn i'r Contract hwn ddod i ben (neu, os bydd y Contract hwn wedi'i derfynu fwy na deuddeg (12) mis calendr cyn i'r Contract hwn ddod i ben, yn ystod y cyfnod rhwng cael hysbysiad yn terfynu'r Contract hwn a'r dyddiad terfynu), na chaiff y Cyflenwr (na'r Is-gontractwr) heb ganiatâd ysgrifenedig y Cleient (na chaiff ei atal na'i ohirio'n afresymol) wneud y canlynol:

51.12.1. diwygio nac amrywio (na honni nac addo diwygio nac amrywio) delerau ac amodau cyflogaeth (gan gynnwys, er mwyn osgoi amheuaeth, gyflog a phensiwn) unrhyw aelod o'r Staff (ac eithrio pan gytunwyd ar y cyfryw ddiwygiad neu amrywiad yn flaenorol rhwng y Cyflenwr a'r aelod o Staff yn ystod busnes arferol, a phan nad yw'r cyfryw ddiwygiad neu amrywiad yn ymwneud mewn unrhyw ffordd â throsglwyddo'r Gwasanaethau);

51.12.2. terfynu cyflogaeth unrhyw aelod o'r Staff na rhoi rhybudd i'w derfynu nac annog (yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol) na cheisio annog eraill i derfynu ei gyflogaeth na rhoi rhybudd i'w derfynu (ac eithrio o dan amgylchiadau lle mae'r gyflogaeth yn cael ei therfynu am resymau sy'n ymwneud â chamymddwyn neu berfformiad gwael difrifol);

51.12.3. trosglwyddo i ffwrdd, dileu, lleihau nac amrywio (gan gynnwys cynyddu'n sylweddol y gyfran o'r amser gweithio a dreulir gan y Staff ar y Gwasanaethau (neu'r rhan berthnasol ohonynt) gyfranogiad unrhyw aelod o'r Staff yn y gwaith o ddarparu'r Gwasanaethau (ac eithrio: (i) pan gynlluniwyd y cyfryw amrywiad fel rhan o ddatblygiad gyrfa'r aelod o Staff; (ii) pan fydd yn digwydd yn ystod busnes arferol; (iii) ar gais yr unigolyn a (iv) pan na fydd yn cael effaith andwyol ar y ffordd y mae'r Cyflenwr yn darparu'r Gwasanaethau, AR YR AMOD nad yw'r cyfryw achos o drosglwyddo, dileu, lleihau neu amrywio cyfranogiad aelod o'r Staff yn ymwneud mewn unrhyw ffordd â throsglwyddo'r Gwasanaethau);

51.12.4. recriwtio na chyflogi unrhyw unigolion newydd nac ychwanegol i ddarparu'r Gwasanaethau nad oeddent eisoes yn ymwneud â darparu'r Gwasanaethau cyn y cyfnod perthnasol (ac eithrio er mwyn llenwi swydd wag) na chynnig recriwtio na chyflogi unrhyw unigolion o'r fath na dod ag unrhyw unigolion o'r fath i mewn.

51.12.5. cyflwyno unrhyw arfer cytundebol neu arferol newydd sy'n ymwneud â gwneud unrhyw gyfandaliad pan gaiff cyflogaeth unrhyw aelod o'r Staff ei therfynu.

.

51.13. O leiaf 28 diwrnod cyn y Dyddiad Trosglwyddo Gwasanaethau rhaid i'r Cyflenwr roi i'r Cleient a/neu (ar gais y Cleient) unrhyw Gyflenwr Cyfnewid, restr derfynol o'r holl Gyflogeion sy'n Trosglwyddo (Rhestr Derfynol) a fydd yn cynnwys unrhyw Wybodaeth Terfynu Cyflogaeth Cyflogeion sydd wedi'i diweddaru am bob Cyflogai sy'n Trosglwyddo a rhaid iddi fod yn gyflawn, yn gywir ac yn gyfredol. Rhaid i'r Cyflenwr hysbysu'r Cleient ar unwaith am y canlynol:

51.13.1. unrhyw newidiadau a wneir i'r Rhestr Derfynol cyn y Dyddiad Trosglwyddo Gwasanaethau;

51.13.2. unrhyw Gyflogai sy'n Trosglwyddo sydd wedi gwrthod trosglwyddo yn unol â rheoliad 4 (7) o TUPE; a

51.13.3. unrhyw Gyflogai sy'n Trosglwyddo sydd wedi rhoi rhybudd neu gael rhybudd y bydd ei gyflogaeth yn terfynu.

51.14. Rhaid i'r Cyflenwr indemnio a pharhau i indemnio'r Cleient a/neu unrhyw Gyflenwr Cyfnewid yn llawn yn erbyn unrhyw Golled wedi'i Hindemnio sy'n deillio o unrhyw ddiffyg neu anghywirdeb yn y Rhestr Derfynol a ddarparwyd o dan Amod 51.13.

51.15. Os bydd unrhyw gyflogai, gweithiwr neu barti arall yn cael ei gyflogi i ddarparu'r Gwasanaethau neu mewn cysylltiad â'u darparu cyn y Dyddiad Terfynu (ac eithrio unrhyw gyflogai sy'n Gyflogai sy'n Trosglwyddo ac a oedd wedi'i gofnodi ar y Rhestr Derfynol) y mae ei gyflogaeth neu ei hawliadau sy'n deillio o'i gyflogaeth neu o'i therfynu yn trosglwyddo i'r Cleient neu unrhyw Gyflenwr Cyfnewid ar y Dyddiad Terfynu neu sy'n hawlio'n llwyddiannus bod ei gyflogaeth neu'r cyfryw hawliadau yn trosglwyddo felly:

51.15.1. rhaid i'r Cleient neu'r Cyflenwr Cyfnewid, o fewn 28 Diwrnod Gwaith ar ôl iddo ddod yn ymwybodol o'r ffaith, hysbysu'r Cyflenwr;

51.15.2. caiff y Cyflenwr gynnig cyflogaeth i'r cyfryw unigolyn o fewn 28 Diwrnod Gwaith ar ôl iddo gael ei hysbysu gan y Cleient neu'r Cyflenwr Cyfnewid;

51.15.3. os derbynnir y cyfryw gynnig o gyflogaeth, rhaid i'r Cleient neu'r Cyflenwr Cyfnewid ryddhau'r unigolyn o'i gyflogaeth neu ei gyflogaeth honedig ar unwaith;

51.15.4. os na fydd y cyfryw gynnig o gyflogaeth wedi'i wneud neu os bydd y cyfryw gynnig wedi'i wneud ond nas derbyniwyd, ar ôl i'r cyfnod o 28 Diwrnod Gwaith a nodir yn Amod 51.15.2 ddod i ben, caiff y Cleient neu'r Cyflenwr Cyfnewid, o fewn 56 Diwrnod Gwaith, roi rhybudd i derfynu cyflogaeth y cyfryw unigolyn (ond nid oes rhaid iddo wneud hynny); a

51.15.5. ar yr amod y bydd y Cleient a/neu'r Cyflenwr Cyfnewid yn gweithredu fel y nodir yn Amodau 51.15.1 i 51.15.4 (yn gynwysedig) uchod, rhaid i'r Cyflenwr indemnio'r Cleient a/neu'r Cyflenwr Cyfnewid yn erbyn y canlynol:

(i) pob Atebolrwydd Cyflogaeth sy'n deillio o'r cyfryw broses derfynu cyflogaeth neu sydd fel arall yn deillio o gyflogaeth y cyfryw unigolyn gan y Cleient neu'r Cyflenwr Cyfnewid; a

(ii) unrhyw gostau cyflogaeth sy'n gysylltiedig â chyflogi'r cyfryw unigolyn gan y Cleient neu'r Cyflenwr Cyfnewid hyd at ddyddiad terfynu cyflogaeth y cyfryw unigolyn neu'r dyddiad y mae ei gyflogaeth yn dechrau gyda'r Cyflenwr o dan Amod 51.15.3.

51.16. Mae'r Indemniad yn Amod 51.15.5 yn cynnwys costau cyflogaeth (gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i gydnabyddiaeth, costau yswiriant gwladol cyflogwr, costau pensiwn a gorbenion) (am hyd at chwe (6) mis calendr o'r Dyddiad Trosglwyddo Gwasanaethau) y Cleient neu'r Cyflenwr Cyfnewid sy'n parhau i gyflogi'r unigolyn a drosglwyddodd (neu yr honnir iddo drosglwyddo) i'r Cleient neu'r Cyflenwr Cyfnewid fel y bo'n briodol, os bydd y Cleient neu'r

Cyflenwr Cyfnewid yn penderfynu peidio â therfynu cyflogaeth y cyfryw unigolyn yn unol ag Amod 51.15.4.

51.17. Rhaid i'r Cleient a'r Cyflenwr (a'r Is-gontractwr) gydweithio er mwyn sicrhau y caiff unrhyw ofyniad i hysbysu cynrychiolwyr cyflogeion ac ymgynghori â hwy mewn perthynas ag unrhyw drosglwyddiad perthnasol yn unol â TUPE ei gyflawni.

51.18. Mae'r Cleient a'r Cyflenwr yn cytuno y bydd Deddf Contractau (Hawliau Trydydd Partïon) 1999 yn gymwys i'r Amod 51 hwn i'r graddau sy'n angenrheidiol er mwyn sicrhau y bydd gan unrhyw Gyflenwr Cyfnewid yr hawl i orfodi'r rhwymedigaethau sy'n ddyledus, a'r indemniadau a roddwyd, i'r Cyflenwr Cyfnewid gan y Cyflenwr neu i'r Cleient gan y Cyflenwr yn ei rinwedd ei hun yn unol ag adran 1(1) o Ddeddf Contractau (Hawliau Trydydd Partïon) 1999.

51.19. Er gwaethaf Amod 51.18 cytunir yn benodol y caiff y Cleient a'r Cyflenwr, drwy gytundeb, ddadwneud neu amrywio'r Amod 51 hwn heb ganiatâd unrhyw berson arall sydd â'r hawl i orfodi telerau'r Amod 51 hwn er y gallai ddadwneud neu amrywio'r Amod hwnnw ddileu neu newid hawliad y person hwnnw o dan yr hawl honno.

## 52. SWYDDOGAETHAU GWEINIDOGION CYMRU

52.1. Mae'r Partïon yn cydnabod bod gan Weinidogion Cymru amrywiaeth o swyddogaethau a fydd yn parhau i fodoli a chael eu diwygio a bod yn rhaid gwneud penderfyniadau ynghylch pob un o'r cyfryw swyddogaethau yng ngoleuni'r holl ystyriaethau perthnasol gan eithrio unrhyw ystyriaethau amherthnasol. Mae'r Partïon yn cytuno na fydd dim a geir yn y Contract hwn neu sy'n ymhlyg ynddo, neu sy'n codi oddi tano neu mewn cysylltiad ag ef, mewn unrhyw ffordd yn tanseilio, yn atal nac yn effeithio ar swyddogaethau Gweinidogion Cymru ac unrhyw un ohonynt nac yn gorfodi Gweinidogion Cymru nac unrhyw un ohonynt i arfer neu beidio ag arfer unrhyw un o'u/o'i swyddogaethau mewn unrhyw ffordd benodol.

## 53. HYSBYSIADAU

53.1. Ac eithrio fel y darperir yn benodol fel arall yn y Contract hwn, ni fydd unrhyw ohebiaeth oddi wrth y naill Barti i'r llall yn ddilys o dan y Contract hwn oni fydd yn ohebiaeth ysgrifenedig.

53.2. Mae'r Partïon yn cytuno yr ystyrir bod e-bost yn fath boddhaol o ddull cyfathrebu at ddibenion Amod 53.1.

53.3. Rhaid i unrhyw hysbysiad a gyflwynir i Barti o dan y Contract hwn neu mewn cysylltiad ag ef fod yn ysgrifenedig a rhaid iddo:

53.3.1. gael ei gyflwyno â llaw neu drwy bost dosbarth cyntaf rhagdaledig neu gan ddefnyddio gwasanaeth dosbarthu ar y Diwrnod Gwaith nesaf arall; neu

53.3.2. gael ei ddosbarthu drwy e-bost a'r hysbysiad wedi'i atodi i'r e-bost

53.4. Oni chytunir fel arall yn ysgrifenedig rhwng y Partïon, at ddibenion Amod 53.3 cyfeiriadau a chyfeiriadau e-bost y Partïon fydd:

53.4.1. yn achos y Cleient, y cyfeiriad a nodir yn y Llythyr Dyfarnu a chyfeiriad e-bost Rheolwr Contract y Cleient.

53.4.2. yn achos y Cyflenwr, y cyfeiriad a nodir yn y Tendr a chyfeiriad e-bost Rheolwr Contract y Cyflenwr.

53.5. Tybir bod unrhyw hysbysiad wedi'i dderbyn:

53.5.1. os caiff ei gyflwyno â llaw, pan fydd derbynneb ddosbarthu wedi'i llofnodi yn y cyfeiriad priodol;

53.5.2. os caiff ei anfon drwy bost dosbarth cyntaf rhagdaledig neu gan ddefnyddio gwasanaeth dosbarthu ar y Diwrnod Gwaith nesaf arall, am 9.00am ar yr ail Ddiwrnod Gwaith ar ôl iddo gael ei bostio;

53.5.3. os caiff ei anfon drwy e-bost, tybir ei fod wedi'i gyflwyno ar y diwrnod y'i trosglwyddir os caiff ei drosglwyddo cyn 4:00pm ar Ddiwrnod Gwaith ond fel arall ar y Diwrnod Gwaith nesaf, ar yr amod na chynhyrchir unrhyw adroddiad gwall ac yr anfonir cadarnhad ar yr un diwrnod drwy bost dosbarth cyntaf neu gan ddefnyddio gwasanaeth dosbarthu ar y Diwrnod Gwaith nesaf arall.

53.6. Mae'r Partïon yn cytuno nad yw'r Amod 53 hwn yn gymwys i gyflwyno unrhyw drafodion nac unrhyw ddogfennau eraill mewn unrhyw achos cyfreithiol.

## 54. ATEBOLRWYDD CYD AC UNIGOL

54.1. Os bydd y Cyflenwr yn fwy nag un person, bydd pob un o'r personau hynny yn atebol ar y cyd ac yn unigol am rwymedigaethau ac atebolrwydd y Cyflenwr sy'n codi o dan y Contract hwn. Caiff y Cleient gymryd camau yn erbyn unrhyw un o'r personau sy'n cynnwys y Cyflenwr neu ryddhau neu danseilio ei atebolrwydd neu roi unrhyw amser neu oddefgarwch arall iddo, heb effeithio ar atebolrwydd y naill neu'r llall.

## 55. TORADWYEDD

55.1. Os ystyrir bod unrhyw un o ddarpariaethau neu ran-ddarpariaethau'r Contract hwn yn annilys, yn anghyfreithlon neu'n anorfodadwy am unrhyw reswm gan unrhyw lys ag awdurdodaeth gymwys, caiff y cyfryw ddarpariaeth ei thorri a bydd darpariaethau eraill y Contract yn parhau mewn grym ac yn weithredol fel pe bai'r Contract wedi'i gyflawni gyda'r ddarpariaeth annilys neu anorfodadwy wedi'i dileu.

55.2. Os bydd amod a dorrwyd mor sylfaenol fel ei fod yn atal diben y Contract hwn rhag cael ei gyflawni, rhaid i'r Cleient a'r Cyflenwr ddechrau cynnal trafodaethau mewn ewyllys da ar unwaith er mwyn adfer y cyfryw ddarpariaeth er mwyn sicrhau, ar ôl iddi gael ei diwygio, ei bod yn gyfreithlon, yn ddilys ac yn orfodadwy a, hyd y gellir, ei bod yn cyflawni canlyniad masnachol bwriadedig y ddarpariaeth wreiddiol.

55.3. Os na ddaw'r Partïon i gytundeb o fewn ugain (2) Diwrnod Gwaith i ddechrau, caiff y naill Barti neu'r llall, drwy gyflwyno hysbysiad i'r llall, derfynu'r Contract hwn ac ni fydd y naill Barti na'r llall yn atebol i'r llall mewn perthynas â therfynu'r Contract (ond heb effeithio ar unrhyw ddarpariaethau eraill yn y Contract hwn).

## 56. HAWLILDIO

56.1. Ni fydd methiant y naill Barti neu'r llall i fynnu bod unrhyw un o ddarpariaethau'r Contract hwn yn cael ei chyflawni'n llwyr, neu fethiant y naill Barti neu'r llall i arfer unrhyw hawl neu rwymedi y mae ganddo hawl i'w (h)arfer o dan y Contract hwn neu o dan y gyfraith, yn gyfystyr â hawlildio'r hawl honno neu'r rhwymedi hwnnw nac unrhyw hawl na rhwymedi arall ac ni fydd yn peri i'r rhwymedigaethau a sefydlwyd gan y Contract hwn gael eu lleihau.

56.2. Ni fydd hawlildio unrhyw Ddiffyg yn gyfystyr â hawlildio unrhyw Ddiffyg dilynol.

56.3. Ni fydd unrhyw hawlildiad o ran unrhyw un o ddarpariaethau'r Contract hwn yn weithredol oni nodir yn benodol ei fod yn hawlildiad ac oni hysbysir y Parti arall amdano'n ysgrifenedig yn unol â darpariaethau'r Amod 53.

## 57. RHWYMEDÏAU CRONNOL

57.1. Ac eithrio fel y darperir yn benodol gan y Contract, mae'r holl rwymedïau sydd ar gael i'r naill Barti a'r llall os caiff y Contract hwn ei dorri yn gronnol a gellir eu harfer ar yr un pryd neu ar wahân, ac ni thybir bod arfer unrhyw rwymedi penodol yn gyfystyr â dewis y cyfryw rwymedi gan eithrio rhwymedïau eraill.

## 58. DIWYGIADAU I'R CONTRACT HWN

58.1. Ni ellir amrywio na diwygio'r Contract hwn oni chytunir ar y cyfryw amrywiad neu ddiwygiad yn ysgrifenedig gan un o gynrychiolwyr awdurdodedig priodol y Cleient ac un o gynrychiolwyr awdurdodedig priodol y Cyflenwr.

## 59. HAWLIAU TRYDYDD PARTI

59.1. Ac eithrio fel y darperir yn benodol gan y Contract hwn, ni fydd gan berson nad yw'n Barti yn y Contract hwn unrhyw hawliau oddi tano nac mewn cysylltiad ag ef ac ni fydd ganddo hawl i orfodi unrhyw ran ohono.

## 60. DIM ASIANTAETH NA PHARTNERIAETH

60.1. Nid yw'r Cyflenwr yn was nac yn asiant i'r Cleient ac ni fydd yn honni ei fod felly o dan unrhyw amgylchiadau. Ni fydd yn honni ei fod wedi'i awdurdodi i lunio unrhyw gontract ar ran y Cleient nac mewn unrhyw ffordd yn rhwymo'r Cleient i gyflawni, arfer na rhyddhau unrhyw rwymedigaeth i drydydd parti. Ni fydd Staff y Cyflenwr yn honni eu bod yn weision nac yn asiantau i'r Cleient ac ni fydd y Cyflenwr yn honni eu bod yn weision nac yn asiantau i'r Cleient.

60.2. Ni chaiff dim yn y Contract hwn ei ddehongli fel partneriaeth rhwng y Partïon.

## 61. Y CYTUNDEB LLWYR

61.1. Y Contract hwn yw'r cytundeb llwyr rhwng y Partïon ac mae'n disodli ac yn dileu pob cytundeb, addewid, sicrwydd, gwarantiad, sylw a dealltwriaeth flaenorol rhyngddynt, p'un a yw'n ysgrifenedig neu ar lafar, sy'n ymwneud â'i bwnc.

61.2. Mae pob Parti yn cydnabod ei fod yn llunio'r Contract hwn, nad yw'n dibynnu ar unrhyw ddatganiad, sylw, sicrwydd na gwarantiad (p'un a'i gwnaed yn ddiniwed neu'n esgeulus) nad yw wedi'i nodi yn y Contract hwn, ac na fydd ganddo unrhyw rwymedïau mewn perthynas ag unrhyw ddatganiad, sylw, sicrwydd neu warantiad o'r fath.

62. **COSTAU**

62.1. Ac eithrio fel y darperir yn benodol yn y Contract hwn, bydd pob Parti yn talu ei gostau ei hun yr aed iddynt mewn cysylltiad â negodi, paratoi a chyflawni'r Contract hwn ac unrhyw ddogfennau y cyfeirir atynt ynddo.

63. **Y GYFRAITH AC AWDURDODAETH**

63.1. Mae'r Contract hwn yn gontract a luniwyd yng Nghymru a chaiff ei reoli a'i ddehongli yn unol â chyfreithiau Cymru a Lloegr, fel mae'n gymwys yng Nghymru. Yn ddarostyngedig i Amod 47, mae'r Partïon yn ymostwng yn ddiwrthdro i awdurdodaeth unigryw Llysoedd Cymru a Lloegr sy'n eistedd yn ardal y Cleient neu yng Nghaerdydd.